

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 23 Medi 2015

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD LLUN, 28 MEDI 2015 am 9.30 am yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYN

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 5 - 20)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2015.

### 5 DIOGELU CORFFORAETHOL (Tudalennau 21 - 46)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) ar adroddiad Archwiliad Mewnol diweddar ar Ddiogelu Corfforaethol a gafodd sgôr sicrwydd 'Isel'.

- 6 RHAGLEN TRAWSNEWID CAFFAEL** (Tudalennau 47 - 64)  
Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Caffael (copi'n amgaeedig) ar y Rhaglen Trawsnewid Caffael.
- 7 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16** (Tudalennau 65 - 74)  
Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17 (copi'n amgaeedig).
- 8 CYMERADWYO'R DATGANIAD O GYFRIFON 2014/15** (Tudalennau 75 - 252)  
Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi ynghlwm) ar y Datganiad o Gyfrifon 2014/15.
- 9 ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS 2014/15 - DIWEDDARIAD**  
(Tudalennau 253 - 276)  
Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi ynghlwm) ar y gweithgareddau Rheoli Trysorlys (copi ynghlwm).
- 10 ADRODDIAD BLYNYDDOL EICH LLAIS** (Tudalennau 277 - 286)  
Ystyried adroddiad gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol (copi wedi'i amgáu) sy'n rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd drwy bolisi adborth cwsmeriaid Sir Ddinbych 'Eich Llais' yn ystod y cyfnod 01.04.14 – 31.03.15.
- 11 MONITRO DARPARWYR GWASANAETH A ARIENNIR GAN Y CYNGOR**  
(Tudalennau 287 - 302)  
I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi i'r Pwyllgor gyfle i roi sylwadau ar a chyfrannu at y fframwaith drafft ar gyfer sefydlu a monitro Darparwyr Gwasanaethau a Ariennir gan y Cyngor.
- 12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**  
(Tudalennau 303 - 308)  
Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi wedi'i amgáu).

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Ann Davies  
Stuart Davies  
Peter Duffy

Alice Jones  
Jason McLellan  
Barry Mellor

### **Aelod Lleyg**

Paul Whitham

## **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 27 Gorffennaf 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ann Davies, Alice Jones a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr Paul Whitham (Aelod Lleyg).

Roedd y Cynghorwyr R.L. Feeley a J. Thompson-Hill yn bresennol fel arsylwyr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio (AS), Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR), Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr (LJ), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (GB a GE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd E.A. Jones i'w chyfarfod cyntaf yn dilyn ei phenodiad i'r Pwyllgor.

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Barry Mellor

#### 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Datganodd Mr P. Whitham gysylltiad personol yn Eitem 8 ar yr Agenda ("Adroddiad Cyffredinol Archwilydd - Rheoli Gwryiadau cynnar") fel cyn Swyddog CBS Wrecsam a oedd wedi ymddeol yn 2010, ac y byddai'n cael ei gynnwys yn yr ystadegau a ddangosir yn yr adroddiad.

#### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### 4 COFNODION

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2015.

Cywirdeb:-

Esboniodd Mr P. Whitham ei fod wedi cyflwyno ymddiheuriad am absenoldeb ar gyfer y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

## **5 PROSES CYLLIDEB 2015/16**

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid, a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb referniw ar gyfer 2015/16 a 2016/17, wedi ei ddsbarthu eisoes.

Roedd y Cyflwynodd y Cynghorydd J Thompson-Hill yr adroddiad a darparu manylion y ddau weithdy cyllideb aelodau cyntaf a oedd wedi canolbwyntio ar y cynigion a ohiriwyd o weithdai cyllideb blaenorol, a chafodd y cynigion a argymhellwyd yn y gweithdai eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Gorffennaf. Roedd y cynigion yn dod i gyfanswm o £650 mil ac yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd a moderneiddio. Roedd cyfres arall o fesurau, gwerth £640 mil, wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn amlinellu'r arbedion a gynhyrchir yn sgil penderfyniadau rheoli o fewn gwasanaethau. Cymeradwywyd cynnig arall a gyflwynwyd gan yr Aelodau, a gallai arbed hyd at £900 y flwyddyn.

an Ni chodwyd unrhyw bryderon ar ôl ystyried y cynigion yn y Cydbwyllgor Ymgynghori Lleol.

Mae'r gweithdy cyllideb a gynhaliwyd ym mis Mehefin wedi canolbwyntio ar gynllunio ariannol a rhagolygon economaidd, ac roedd wedi nodi ystyriaethau cenedlaethol a fyddai'n effeithio ar gynllunio cyllideb y Cyngor. Rhagwelwyd y byddai'r bwch yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 yn tua £8.8m, a hyd yma, roedd cynigion gwerth cyfanswm o £4m wedi'u cymeradwyo. Roedd y lefel sylweddol o ansicrwydd yn debygol o fodoli o ran y Setliad Llywodraeth Leol tebygol dros y misoedd nesaf. Yn absenoldeb gwybodaeth fwy dibynadwy am y Setliad, byddai angen i gynlluniau'r gyllideb barhau i ddatblygu cynigion i gwmpasu amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd.

Roedd effaith cyhoeddiadau Cyllideb yr Haf ar weinyddiaethau datganoledig yn aneglur, a chafodd adolygiad o wariant ei drefnu ar gyfer yr hydref a fyddai'n llywio lefel y Grant Bloc i Gymru. Deallwyd y byddai adolygiad ar lefel Llywodraeth Cymru pan fyddai manylion Setliad y Llywodraeth Leol yn dod i'r amlwg. Roedd arwyddion yn awgrymu y bydd y Grant Bloc i Gymru yn wastad yn nhermau arian parod ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ond byddai penderfyniadau polisi yn llywio'r dyraniad rhwng y ddwy gyllideb fwyaf arwyddocaol yng Nghymru, sef cyllideb Llywodraeth leol a chyllideb iechyd. Oherwydd y ddau adolygiad o wariant, byddai'r Setliad Drafft ar gyfer Llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Roedd cyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda gwasanaethau i adolygu cyllidebau ac i ystyried cynigion cyllideb newydd. Yn ystod gweithdy mis Mehefin ystyriwyd amlinelliad o rai o'r cynigion sy'n dod i'r amlwg, a byddai'r rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod yr haf. Roedd ffurflen wedi cael ei rhoi i Aelodau er mwyn eu helpu i gyflwyno unrhyw gynigion i'w hystyried, a hyd yma, cafodd chwech o gynigion eu cyflwyno a'u hasesu.

Byddai cynigion cyllideb a nodwyd yn cael eu mireinio a'u cyflwyno i'r gweithdy cyllideb ym mis Hydref 2015, gyda'r bwriad o gyflwyno rhai ohonynt i'r Cyngor eu

cymeradwyo ym mis Rhagfyr. Byddai'r gweithdy ym mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar gynigion terfynol i gydbwysu'r gyllideb, a byddai'r cofnodion ffurfiol yn cael eu cymryd ym mhob gweithdy cyllideb yn y dyfodol. Byddai'r holl gynigion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hasesu gan yr adran Gyllid i benderfynu ar effaith y gyllideb debygol yn 2016/17. Cafodd y siart proses cyllideb diweddaraf ei gynnwys fel Atodiad 1, a chafodd manylion am y broses ymgynghori eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd yr aelodau at yr ansicrwydd o ran cyllideb y DU i Gymru, ac awgrymodd y gallai fod angen mwy o Weithdai i ystyried unrhyw oblygiadau, a rheoli unrhyw risgiau canlyniadol, yn dilyn cyhoeddi'r setliad. Amlinellodd y Cynghorydd Thompson-Hill y broses, gan gynnwys amserlenni, a dywedodd yn sicr y gallai Gweithdai Cyllideb ychwanegol gael eu galw yn ôl yr angen. Nododd bwysigrwydd ystyried barn yr Aelodau, y mewnbwn gan wasanaethau ac adborth yn dilyn ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd y Pwyllgor y dylid galw Gweithdy Cyllideb yn ystod, neu ar ôl, yr ail wythnos ym mis Medi.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham ynghylch darparu sicrwydd y byddai cynigion cyllideb 2015/16 yn cael eu cyflwyno, esboniodd y Cynghorydd Thompson-Hill bod adroddiadau rheolaidd ar gynnydd darpariaeth cynlluniau'r flwyddyn gyfredol wedi cael eu cyflwyno i'r Cabinet bob mis. Cadarnhaodd fod 73% o'r arbedion a nodwyd eisoes wedi eu cyflawni heb unrhyw broblemau mawr, ac na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyllideb 2016/17.

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch ffigurau presenoldeb isel mewn Gweithdai ac awgrymodd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i amseriad cyfarfodydd, a'r posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd gyda'r nos. Cyfeiriodd yr HLHRDS at ganlyniad yr arolwg a wnaed, a ofynnodd am farn yr Aelodau ar gynnal cyfarfodydd gyda'r nos. Cytunodd i godi'r mater gydag Arweinyddion Grwpiau a chyfleu'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelodau ynghylch ffigurau presenoldeb isel.

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -

- (a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf.
- (b) yn cytuno bod Gweithdy Cyllideb yn cael ei drefnu ym mis Medi, 2015, ac
- (c) yn gofyn i'r HLHRDS gyfleu'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch ffigurau presenoldeb isel yn y Gweithdai Cyllideb i Arweinwyr y Grwpiau.  
**(GW, RW i Weithredu)**

## **6 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SAC 2014/15**

Roedd adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad, a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17, wedi ei ddsbarthu eisoes.

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad yr adroddiad a oedd yn crynhoi canfyddiadau allweddol Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â threfniadau cynllunio ac adrodd Sir Ddinbych er mwyn cyflawni dyletswyddau gwelliant parhaus statudol. Hysbysodd yr adroddiad y Pwyllgor o Gasgliad a Chynigion Gwella Swyddfa Archwilio Cymru. Y casgliad cyffredinol

oedd:-

“Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion blaenoriaeth ac mae ei hanes o ran cyflawni ei amcanion ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16.”

Ni chafwyd unrhyw argymhellion ffurfiol a dim ond dau Gynnig Gwella oedd wedi'u gwneud. Esboniwyd y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn disgwyl i'w hargymhellion gael eu gweithredu, ac roedd y cynigion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Roedd rhestr o gasgliadau allweddol o amrywiol gyrrff archwilio wedi'u rhestru o Dudalen 8 o'r adroddiad, ac roeddent yn cynnwys y meysydd Perfformiad, Defnydd o Adnoddau, Llywodraethu, Cynllunio Gwelliant ac Archwiliadau Adrodd, ac Archwilio Cyfrifon. Cafodd y negeseuon allweddol eu crynhoi yn yr adroddiad.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) grynodedb manwl o'r materion a'r meysydd canlynol: -

- Cyfranwyr Asesu Perfformiad.
- Canfyddiadau Asesu Perfformiad.
- Adnoddau Defnyddwyr.
- Llywodraethu.
- Cynigion ar gyfer Gwella.
- Casgliad Cyffredinol.

Cafodd y ddau gynnig ar gyfer gwella eu hamlygu gan gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn argymhell y dylai'r Cyngor: -

- Sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer cyflawni'r amcan tai fforddiadwy newydd.
- Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Cenedlaethol Llywodraeth Leol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol, a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen

Cododd Aelodau y materion canlynol a darparwyd ymatebion perthnasol:-

- Eglurodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru nad yw archwilio perfformiad mewn perthynas â darparu Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi'i gynnwys yn rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, cadarnhaodd y gellid codi'r mater gyda swyddogion AGGCC, neu eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol i'w hystyried. Cytunodd y Cadeirydd i godi'r mater yng nghyfarfod Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio.

- Mewn ymateb i gwestiynau'n ymwneud â chywirdeb ffigurau a ddarparwyd mewn perthynas â darparu Tai Fforddiadwy yn Sir Ddinbych, darparodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru fanylion y ffigurau ar gyfer 2014/15. Esboniodd ei bod yn glodwiw bod y broblem wedi cael ei nodi gan Sir Ddinbych a oedd wedi bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Cyfeiriwyd at y cyfraniad sylweddol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru tuag at dai fforddiadwy a'r Diwygiad Cymhorthdal Refeniw Tai. Cyfeiriodd yr HLHRDS at adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen a oedd wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet. Byddai hyn yn cael ei gwmpasu yn y Strategaeth Dai a'r Cynllun Cyflawni cyn ceisio cymeradwyaeth yn dilyn arweiniad



gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio ynghylch y broses, a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cael ei ddiweddarau o ran cynnydd yn y dyfodol.

- Ymatebodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru i gwestiwn gan y Cynghorydd J.A. Davies ynghylch gofalu am gleifion a gaiff eu rhyddhau o'r ysbyty. Eglurodd fod crynodeb o Adroddiad Blynyddol AGGCC, sy'n rhoi manylion am y gwaith a wnaed, wedi'i ddarparu, a bydd yr Adroddiad Blynyddol nesaf, gan gynnwys adroddiad cynnydd, yn cael ei drefnu ar gyfer ei gyflwyno yn yr hydref.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr argymhellion yn Atodiad 5. Eglurodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru, er nad oedd unrhyw rwymedigaeth i'w derbyn, y byddai SAC yn ceisio tystiolaeth bod yr argymhellion wedi cael eu hystyried. O ystyried natur pwysig y materion a godwyd, teimlai'r Cadeirydd y byddai'n briodol i ddarparu rhesymau dros achosion o ddiffyg derbyn. Gofynnodd hefyd am gael tystiolaeth ynghylch y camau a gymerir i fynd i'r afael â'r argymhellion. Darparodd yr HBIM sicrwydd bod yr argymhellion wedi cael ystyriaeth o ddifrif, a bod Penaethiaid Gwasanaeth wedi ymgynghori ar astudiaethau cenedlaethol. Amlinellodd y gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer ymdrin ag argymhellion, a goblygiadau astudiaethau cenedlaethol, a chadarnhaodd y byddai adroddiad cryno yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Medi.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cadarnhaodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru ei fod yn teimlo bod trefniadau rheoli risg y Cyngor yn gadarn ac yn addas at y diben.

Nododd y Pwyllgor y Casgliadau, y Cynigion Gwella, a'r Canfyddiadau Allweddol o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Byddai Cynlluniau Olrhain o ran y Cynigion Gwella yn cael ei hadrodd yn ôl i Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o ymateb y Cyngor cyfan i'r Gwelliant Blynyddol. Hysbyswyd y Pwyllgor fod ymateb y Cyngor yn cael ei gydlynu gan y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, a gofynnwyd am ymateb gan y gwasanaethau i ardaloedd perthnasol erbyn diwedd mis Gorffennaf, 2015, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Medi, 2015.

**PENDERFYNWYD** - *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:* -

- (a) *yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r casgliadau, y cynigion gwella, a chanfyddiadau allweddol adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.*
- (b) *yn cefnogi'r gwaith o sefydlu Cynlluniau ar gyfer olrhain y Cynigion Gwella.*
- (c) *yn nodi bod y Cynlluniau yn cael eu hadrodd yn ôl i Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o ymateb y Cyngor cyfan i'r Gwelliant Blynyddol.*
- (d) *yn gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fonitro'r mecanwaith o ran dilyn y Strategaeth Tai a Pholisi Tai Fforddiadwy, ac*
- (e) *yn cytuno bod y Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio yn mynd ar drywydd ac yn hyrwyddo'r argymhellion cenedlaethol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.*

**(GW, AS i Weithredu)**

## **7 ADRODDIAD SAC – GWYDNWCH ARIANNOL CYNGHORAU CYMRU**

Roedd Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid, ar astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru o gadernid trefniadau rheoli a chynllunio er mwyn cefnogi

gwytnwch ariannol ym mhob Cyngor, gan ganolbwyntio ar sut mae Cyngorau yn cynllunio ac yn cyflwyno eu hymrwymiadau cyllideb, wedi'i ddsbarthu yn flaenorol.

Roedd adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y teitl "The Financial Resilience of Councils in Wales" wedi ei gynnwys fel Atodiad 1. Roedd ffocws yr adroddiad yn cwmpasu cyfnod cynllunio ariannol 2014-15 ac yn cyflwyno cynlluniau ariannol 2013-14. Roedd hefyd yn dadansoddi hanes perfformiad ariannol Cyngorau yn 2011-12 a 2012-13. Byddai'r Cyngor yn ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed yn ofalus.

Eglurodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill fod y broses o bennu cyllideb y Cyngor wedi'i diwygio'n sylweddol yn ystod 2014/15 er mwyn ystyried arbedion ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor canolig wedi cael ei ddiweddarau yn 2014 a chaiff ei adolygu ar hyn o bryd ar gyfer ei gyhoeddi yn yr hydref. Byddai canfyddiadau perthnasol yr astudiaeth a'r arfer gorau yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig, a fyddai'n cynnwys strategaeth cronfeydd wrth gefn cynhwysfawr. Roedd y Cyngor wedi cyflwyno cyllidebau cytbwys bob blwyddyn ac roedd yn hyderus y byddai ei brosesau'n parhau i wneud hynny.

Darparodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) grynodedb byr o Atodiad 1 a chyfeiriodd yn benodol at yr argymhellion ar dudalennau 10 ac 11. Cadarnhaodd y byddai'r adroddiad diweddarau pellach sydd i'w ystyried ym mis Ionawr, 2016, yn cynnwys manylion am y gwaith a fydd yn cael ei wneud yn yr hydref, ac yn ymgorffori ystyriaeth o'r naw argymhelliad.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at dudalen 35 o'r adroddiad "Nodweddion trefniadau llywodraethu da" ac awgrymodd y gallai'r rhain gael eu hystyried a'u hymgorffori yn yr hunanasesiad i wella'r ymarfer. Cadarnhaodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'r materion hyn yn cael eu hymgorffori yn y gwaith ac yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad lleol i gael eu gyflwyno i'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru na fu unrhyw newidiadau dramatig i Bolisi Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Eglurodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'r ffocws ar gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a chronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio. Cadarnhawyd y byddai'r gwaith sydd i'w wneud yn cynnwys y mater o allanoli a'r mater o gyfeiriad y teithio.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunwyd ar gael diweddariad pellach ym mis Ionawr, 2016, oherwydd cwblhawyd asesiad mwy manwl gyda'r nod o 'archwilio iechyd ariannol awdurdodau, ynghyd â sut y cawsant eu cyllidebu a sut maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod yr Awdurdodau yn wydn yn ariannol' gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -

- (a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, ac
  - (b) yn cytuno i dderbyn diweddariad pellach ym mis Ionawr, 2016.
- (GB i Weithredu)**

## 8 **ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL - RHEOLI YMADAWIADAU CYNNAR**

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid wedi cael ei ddsbarthu yn flaenorol.

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill yr adroddiad ar yr astudiaeth genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan archwilio a allai cyrff cyhoeddus Cymru ddangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian o ddefnyddio ymadawiadau cynnar i reoli neu leihau costau'r gweithlu.

Cyflwynodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) yr adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y teitl 'Rheoli Gwryiadau cynnar ar draws Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru', Atodiad 1. Eglurodd y byddai cynnydd ar yr argymhellion ar Dudalen 11 yn cael eu dadansoddi a'r canlyniadau'n cael eu cynnwys yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at nifer, cost, cost gyfartalog, a chyfnod ad-dalu cyfartalog gadael yn gynnar gan gorff cyhoeddus unigol, rhwng mis Ebrill 2010 a mis Rhagfyr 2013, fel y nodir ar Dudalen 55 o'r adroddiad. Amlinellodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yr ystadegau yn ymwneud â Sir Ddinbych, o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill, a chadarnhaodd fod y ffigurau a ddarparwyd yn dangos bod gwryiadau cynnar wedi bod yn rhesymol ac yn dangos gwerth da am arian.

Cadarnhaodd yr HLHRDS bod y ffigurau a'r ystadegau a gynhwysir yn yr adroddiad wedi cael eu trosglwyddo i Reolwr y Gwasanaethau Adnoddau Dynol.

***PENDERFYNWYD*** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn ardystio'r argymhellion a wnaed.

## 9 **CYFANSODDIAD MODEL NEWYDD**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS), a oedd yn rhoi diweddariad ar fabwysiadu cyfansoddiad model newydd i Gymru yn y dyfodol, eisoes wedi cael ei ddsbarthu.

Esboniodd yr HLHRDS bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol angen i unrhyw newidiadau a fwriedir i Gyfansoddiad y Cyngor gael eu hystyried yn gyntaf cyn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn. Roedd yr Erthyglau arfaethedig yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Gweithgor Cyfansoddiad, Atodiad 1, yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Gyfansoddiad Enghreifftiol Cymru. Mae'r newidiadau allweddol drafft arfaethedig mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny a ddirprwywyd i swyddogion neu Aelodau wedi eu cynnwys fel Atodiad 2, gyda Rheolau Trefn Cyflogi Swyddogion wedi'u cwmpasu yn Atodiad 3. Roedd Cynllun Tâl yr Aelodau, Atodiad 4, yn cynnwys y cynllun, a gafodd ei wneud o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheoliadau Panel Taliadau Annibynnol Cymru (IRPW), a oedd yn berthnasol i daliadau a wneir i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Lleol. Cafodd Penderfyniadau Dirprwyedig a Phenderfyniadau allweddol y Cabinet a Swyddogion, fel y maent yn yr adroddiad, eu hamlinellu gan yr HLHRDS.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cyngor, ar 4 Tachwedd, 2014, wedi dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad o ganlyniad i ddarpariaethau Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiedig) 2014. Cafodd y newidiadau perthnasol eu nodi yn Atodiad 3. Yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf, 2015, cymeradwyodd y Cyngor gynnig na fyddai costau teithio yn cael eu talu i Aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd yn rhinwedd sylwedydd. Cafodd Atodlen ddiwygiedig o Gydabyddiaeth ei gynnwys fel Atodiad 4.

Darparodd yr HLHRDS grynodedb manwl o'r adroddiad a'i Atodiadau ac amlygwyd y meysydd a'r materion canlynol: -

### **Cyfansoddiad Enghreifftiol Cymru, Atodiad 1.**

Cafwyd crynodeb o'r prif newidiadau gan yr HLHRDS:-

- Adran 2.6 - Newidiadau i'r Cyfansoddiad.
- Adran 3.3 - Cymryd Rhan - Aelodau.
- Adran 4 – Cyfrifoldebau'r Cyngor Llawn a Rheolau Sefydlog.  
Cyfeiriwyd yn benodol at:-
  - 4.11 - Cyfarfodydd Cyffredin, a chyfeiriwyd yn benodol at 4.11.12.
  - 4.17 - Mynychu o Bell.
  - 4.18 - Cwestiynau gan y Cyhoedd.
  - 4.19 - Cwestiynau gan Aelodau.
  - 4.20 - Cynigion yr Hysbysiad.
  - 4.25 - Pleidleisio, a 4.25.3 Dull pleidleisio a hyblygrwydd.
  - 4.31 - Ffilmio a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd.
  - 4.34 - Penodi Dirprwy Aelodau ar Gyrrff y Cyngor.
- Adran 5 - Y Cabinet.
  - 5.6 - Dirprwyo Swyddogaethau.
- Adran 6 - yr Arweinydd. Gyda chyfeiriad at Adran 4.
  - 6.3 - Ymddiswyddiad, Diswyddo, Anghymwyso ac Atal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cadarnhaodd yr HLHRDS fod yr Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Safonau wedi cael ei gynnwys gan y diffiniad o Aelod yn 2.2 Diffiniadau yn y Cyfansoddiad.

Ymatebodd yr HLHRDS i gwestiynau gan y Pwyllgor mewn perthynas â mater sancsiynu trydar yn ystod cyfarfodydd y Cyngor.

### **Dirprwyaethau i Aelodau'r Cabinet, Atodiad 2.**

- Materion Allweddol a Materion Strategol nad ydynt yn Allweddol.
- Diffiniad o Benderfyniad Allweddol.
- Y broses ar gyfer penderfyniadau dirprwyedig Aelodau fel y nodir yn y siart llif.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd yr HLHRDS fanylion am y dull newydd i'r sefyllfa wreiddiol, y byddai pob penderfyniad 'nad yw'n allweddol' yn cael

ei wneud gan ddeiliaid portffolio unigol ac nid y Cabinet llawn, gyda disgrisiwn i gyfeirio at y Cabinet os ystyrir ei fod yn angenrheidiol. Esboniodd y byddai hyn yn amodol ar y mater dan sylw a bod elfen o farn mewn perthynas â phenderfyniadau allweddol.

### **Rheolau Trefn Cyflogi Swyddogion, Atodiad 3.**

Cyfeiriodd yr HLHRDS at Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiedig) 2014. Amlinellodd y tri phrif newid i'r Rheoliadau Rheol Sefydlog blaenorol, fel y manylir yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd yr HLHRDS fanylion y weithdrefn gamymddwyn a chyfeiriodd at gynnwys Adran 6 o'r ddogfen a oedd yn ymwneud â Chamau Disgyblu. Cadarnhaodd hefyd nad oedd y broses ar gyfer gweithredu newidiadau i'r Cyfansoddiad wedi newid a chyfeiriwyd at 2.6.1 o Gyfansoddiad y Model newydd.

### **Rhestr Tâl Aelodau, Atodiad 4.**

Cyfeiriodd yr HLHRDS at y Rhybudd o Gynnig a gynhaliwyd yn y Cyngor ym mis Gorffennaf. Cyfeiriodd at y newid a amlinellir yn Atodlen 2 a oedd yn nodi na fydd taliad yn cael ei wneud am gostau teithio arsylwyr.

Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd ynghylch ystyried camau i ymgynghori ag aelodaeth ehangach y Cyngor ar y newidiadau arfaethedig, cytunodd yr HLHRDS fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi, 2015 yn manylu ac yn mynd i'r afael ag agweddau eraill ar y Cyfansoddiad Enghreifftiol. Cytunodd hefyd y gellid trefnu gweithdy arbennig, ar ôl mis Medi, i ystyried agweddau yn ymwneud yn benodol â'r Cyfansoddiad.

**PENDERFYNWYD** - *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -*

- (a) *yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*
- (b) *yn cytuno y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi, 2015 i ystyried Rhan 2 o'r Cyfansoddiad Enghreifftiol, ac*
- (c) *yn gofyn bod gweithdy arbennig yn cael ei drefnu, ar ôl mis Medi, i ystyried agweddau yn ymwneud yn benodol â'r Cyfansoddiad.*

**(GW i Weithredu)**

## **10 ADRODDIAD COMISIYNWYR GWYLIADWRIAETH A RIPA**

Mae adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (HLHRDS) wedi'i ddisbarthu'n flaenorol.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro yr adroddiad a oedd yn cynnwys copi o adroddiad yr arolygiad diweddar, Atodiad 1, yn dilyn ymweliad y Comisiynwyr Gwylidwriaeth â'r Cyngor ar 21 Mai 2015. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor o dan God Ymarfer y Swyddfa Gartref i adrodd yn rheolaidd, o leiaf bob blwyddyn, i'r Aelodau ar y defnydd o'r pwerau dan RIPA, a chafodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yr holl adroddiadau arolygu allanol.

Ychydig iawn o weithgarwch a fu o ran y defnydd o'r pwerau, gyda dim ond un cais ar y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ers yr arolygiad diwethaf ar 14 Mehefin, 2012. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd bod dulliau datblygedig eraill o gael tystiolaeth yn cael eu datblygu, megis 'paru data' a rhannu gwybodaeth. Cynhaliodd y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y Cofnod Canolog RIPA ac roeddent yn gyfrifol am gynnal goruchwyliad rheolaethol o'r ceisiadau a chynnal gwiriadau sicrhau ansawdd ar safonau'r ceisiadau.

Ar hyn o bryd, caiff pob aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol eu henwi'n Swyddogion Awdurdodi ar geisiadau gan Swyddogion Ymchwilio. Dylid ystyried unrhyw wylriadwriaeth o weithwyr, lle cafwyd honiadau o droseddau, a'i awdurdodi gan y Swyddog Monitro, a oedd hefyd yn Uwch Swyddog Cyfrifol o dan y ddeddfwriaeth. Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol (heblaw am y Swyddog Adran 151 a benodwyd yn ddiweddar) wedi cael hyfforddiant RIPA pwrpasol i'w paratoi yn eu rôl fel 'Swyddogion Awdurdodi'. Roedd manylion yr hyfforddiant a ddarperir, ynghyd â threfniadau ar gyfer y dyfodol, wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mae'r ddogfen Polisi a Gweithdrefnau RIPA wedi cael ei diweddarau i adlewyrchu'r argymhellion ym mharagraff 11 o'r adroddiad. Tynnwyd sylw at y risg o beidio gwella safonau ceisiadau a sicrhau bod swyddogion yn barod i wneud penderfyniadau cyfreithlon a oedd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data.

araoa Bu i hyn ymgorffori'r un achos a gynhaliwyd yn Sir Ddinbych yn ystod y tair blynedd diwethaf, lle cafodd y Cyngor ganmoliaeth am y broses a fabwysiadwyd mewn perthynas â'r ymgyrch prawf a brynwyd. Roedd yr Arolygydd wedi nodi'r angen am fwy o wybodaeth am y math o gudd-wybodaeth a gafwyd, mwy o ofal wrth gwblhau'r ffurflen gais, gwelliant o ran gwaith papur sy'n ymwneud â gwylriadwriaeth, a gwella'r broses canslo. Nododd ei fod yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer teledu cylch cyfyng a theimlai eu bod yn gadarn.

Cyfeiriodd y DMO at yr argymhellion a gynhwysir ar dudalen 6 o'r Adroddiad Arolygu. Cadarnhaodd bod y materion y cyfeirir atynt wedi cael eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy, a bod y ddogfen Polisiâu a Gweithdrefnau wedi'i diweddarau a'i diwygio yn unol â'r argymhellion. Amlinellwyd manylion y rhaglen hyfforddiant a ddarparwyd gan yr Awdurdod ar gyfer yr aelodau perthnasol o staff.

Cymeradwyodd y Pwyllgor waith 'Gweithgor RIPA' y Cyngor mewn perthynas â darparu hyfforddiant a chadw dogfen Polisi a Gweithdrefnau RIPA y Cyngor yn gyfoes, ac ar gael i bob swyddog sy'n arfer y pwerau. Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i'r swyddogion am y gwaith a wnaed

***PENDERFYNWYD*** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

***(GW, LJ i Weithredu)***

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyflwyno'r Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig ar gyfer ei gymeradwyo, wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw.

Eglurodd yr HIA fod yr IAC wedi cael ei diweddarau yn dilyn gweithdrefnau ailstrwythuro diweddar o fewn y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Roedd Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol yn datblygu a chynnal a chadw IAC cyfredol. Diffiniodd y Siarter bwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgarwch yr adain archwilio mewnol ac roedd yn cynnwys manylion:-

- y diffiniad o archwilio mewnol;
- llinellau adrodd Pennaeth yr adain Archwilio Mewnol;
- Hawliau mynediad yr adain Archwilio Mewnol;
- cwmpas gwaith yr adain Archwilio Mewnol;
- Strwythur ac adnoddau'r adain Archwilio Mewnol; a
- Chyfrifoldebau archwilydd mewnol.

Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol oedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r IAC, a chan fod y Siarter presennol wedi dyddio yn dilyn newidiadau i strwythur y gwasanaeth Archwilio Mewnol, cafodd IAC diwygiedig ei gynnwys fel Atodiad 1.

Darparodd yr HIA yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau:-

- Y Siarter Archwilio Mewnol i gael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau Etholedig yn eu hysbysu bod y maes arbennig hwn o waith wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â datblygu Cynllun Twyll Corfforaethol, ac ymwybyddiaeth o'r mater yn cael ei godi gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda golwg ar gynhyrchu adroddiad blynyddol.
- darparwyd cyfeiriad at wytnwch ariannol a manylion y gwaith a wnaed ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, a chynhyrchu Adroddiad Archwilio Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.
- manylion y broses fonitro o ran Swyddog Adran 151, a chadarnhad y gellid ymgymryd ag adolygiad pellach yn 2016, os oes angen.
- monitro grantiau i gyrrff allanol i gael eu cwmpasu o fewn Fframwaith y Sefydliadau Hyd Braich, gydag asesiadau risg yn cael eu cynnal bob blwyddyn i asesu meysydd a allai fod angen eu harchwilio. Adroddiad i'w gyflwyno ym mis Medi, 2015.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** – *yn amodol ar y camau y cytunwyd arnynt uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*  
***(IB i Weithredu)***

## **12 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL**

Am nad yw'r Cynghorydd M.L. Holland bellach yn aelod o'r Pwyllgor:-

**PENDERFYNWYD** - bod HLHRDS yn ceisio enwebiadau gan Aelodau'r Pwyllgor i wasanaethu fel cynrychiolydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol.

**(GW i Weithredu)**

### **13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd eisoes) i'w ystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

28 Medi 2015:-

- Cyfansoddiad Enghreifftiol Newydd - Rhan 2.
- Cyllid y Cyngor i Ddarparwyr Gwasanaeth.

18 Tachwedd 2015:-

- Adroddiad Hunan-werthuso y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

27 Ionawr 2016:-

- Adborth ar Wytwnch Ariannol.

Cafwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau gan Mr P. Whitham ynghylch cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor: -

- Cafwyd cadarnhad bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mai, 2015, ac y byddai'n cael ei gyflwyno yn flynyddol.
- Cynhaliwyd ymarfer Hunanwerthuso y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn 2013, a byddai'n cael ei gynnwys yn y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd, 2015d.
- Cafodd y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad bob chwe mis, er mwyn asesu'r ffordd y rheolir risgiau, a byddai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael adroddiad blynyddol ar y fframwaith rheoli risg cyffredinol. Cytunodd yr HLHRDS i gysylltu â'r Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio ar y mater hwn.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at amserlen drafft Blaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a baratowyd a'i ddisbarthu gan yr HIA yn 2014. Awgrymodd ei fod yn cael ei adolygu gyda'r bwriad o gyfarwyddo'r gwaith o gasglu eitemau busnes ar gyfer y Rhaglen Waith i'r Dyfodol.



**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.  
(GW, AS i Weithredu)

## RHAN II

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** - dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13, 14 o Ran 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### 14 ADOLYGIAD YMARFER PLANT

Roedd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cael ei ddsbarthu'n flaenorol.

Roedd yr adroddiad gan yr Adolygiad Ymarfer Plant, a gynhaliwyd ar blentyn yn Sir Ddinbych gan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant, wedi cael ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Eglurwyd bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant pan fo plant yn marw ac roedd arwydd y gallai fod yn berthnasol i gam-drin neu esgeulustod. Roedd y plentyn y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad yn hysbys i'r adran ac roedd ar y gofrestr amddiffyn plant.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd yr HCFS nad oedd y broses adolygu yn fecanwaith i roi bai, ond yn canolbwyntio ar yr hyn y gellid ei ddysgu, a fyddai'n helpu i ymarfer a gwella'n gyffredinol, gan leihau risg yn y dyfodol. Dechreuwyd y broses gan Grŵp Adolygu Ymarfer Plant y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant, a byddai'n nodi a ddylid cynnal adolygiad, a pha fath o adolygiad oedd yn ofynnol o dan yr amgylchiadau. Byddai'r Panel yn sefydlu natur yr adolygiad, y cylch gorchwyl a'r agweddau i ganolbwyntio arnynt. Byddai hyn yn cael ei lywio gan y llinell amser aml-asiantaeth a'r safbwyntiau proffesiynol, a darparodd yr HCFS fanylion y dulliau ymchwilio newydd a hen.

Byddai'r teulu mewn profedigaeth yn ymgysylltu â'r hwyluswyr adolygu i rannu eu persbectif, a gyda'r wybodaeth hon, byddai digwyddiad wedi'i hwyluso yn cael ei gynnal a fyddai'n cynnwys cyfranogwyr allweddol yn yr achos. Cafodd y broses a fabwysiadwyd ei hamlinellu yn yr adroddiad ac, ar y diwedd, y nod oedd nodi meysydd i'w gweithredu o ganlyniad i'r dadansoddiad a'r safbwyntiau. Byddai adroddiad a Chynllun Gweithredu yn cael eu paratoi, ei adrodd i'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a'i gyhoeddi wedi hynny.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelodau ynghylch yr amgylchiadau trasig yn ymwneud â'r achos dan sylw, darparodd yr HCFS grynodedb manwl o'r achos ac amlinellu'r gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd i ymgymryd ag ymchwiliad a'r ymagweddau gwahanol a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr. Eglurodd y

HLHRDS mai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol oedd y fforwm mwyaf priodol i dderbyn yr adroddiad, ac i roi sicrwydd i'r Aelodau bod yr adolygiad wedi arwain at Gynllun Gweithredu a fyddai'n cael ei fonitro gan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant.

Darparodd y swyddogion yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau o'r Pwyllgor:-

- Cadarnhaodd yr HCFS bod diogelu plant wedi ei gynnwys ar y Gofrestr Risg fel rhan o'r broses rheoli risg.
- Eglurwyd gan yr HCFS y byddai'n bwysig dysgu o'r adolygiadau a bod canlyniadau yn cael eu rhannu gydag Awdurdodau, sefydliadau a phartïon eraill sydd â diddordeb.
- Amlygodd y WAOR bwysigrwydd cynnwys y gwersi a ddysgwyd o ran oedolion yn ogystal â phlant diamddiffyn. Darparwyd amlinelliad o'r broses a'r ffocws ar gyfer darparu cefnogaeth a chymorth i oedolion yn yr amgylchiadau hyn gan yr HCFS.
- Amlygwyd yr angen i wireddu natur a'r effeithiau a'r goblygiadau difrifol sy'n codi o iselder ôl-enedigol.
- Y posibilrwydd o gynhyrchu rhestr wirio ar gyfer ei ddefnyddio yn ystod y broses drosglwyddo.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, nododd y Pwyllgor: -

- y ffeithiau trasig yn ymwneud â'r achos dan sylw.
- y prosesau a'r systemau a gychwynnwyd gan Grŵp Adolygu Ymarfer Plant y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant.
- bod nifer o feysydd ar gyfer gwella yn cael eu nodi fel rhan o'r Adolygiad.
- bod yr adolygiad a gynhaliwyd wedi bod yn drylwyr, a'i fod wedi rhagweld y byddai'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori ar gyfer ymarfer gorau yn y dyfodol.

Amlygodd y Cadeirydd y tair prif elfen a nodwyd yn yr adroddiad a oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â chyfathrebu, trosglwyddo gwybodaeth a lefel y gefnogaeth a gynigir. Eglurodd y WAOR y byddai'n bwysig i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod y Cynllun Gweithredu wedi cael ei gweithredu'n llawn, a chytunwyd y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn cyfnod o ddeuddeg mis.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -

- yn cael yr adroddiad.*
- yn nodi canlyniad yr adolygiad a'r hyn a ddysgwyd a'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â'r diffygion a nodir.*
- yn gofyn am adroddiad cynnydd ar weithrediad y Cynllun Gweithredu ymhen 12 mis.*  
**(LR, GW i Weithredu)**

## 15 DIWEDDARIAD CONTRACT PFI

Cafodd adroddiad cyfrinachol gan y Prif Swyddog Cyllid, a roddodd ddiweddariad ar y prosiect i derfynu cytundeb Cynllun Ariannu Preifat Neuadd Sir y Cyngor, ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill yr adroddiad ac eglurodd fod yr adroddiad manwl a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet, Atodiad 1, yn amlinellu'r sefyllfa mewn perthynas â'r prosiect i derfynu'r cytundeb cyfreithiol sy'n sail i Gynllun Ariannu Preifat Neuadd y Sir. Roedd yr adroddiad yn nodi manylion y Cynllun Ariannu Preifat a'r rhesymeg dros derfynu, sef i arbed arian i'r Cyngor ac osgoi rhwymedigaeth hirdymor, gan nodi'r achos busnes sylfaenol dros derfynu. Cadarnhaodd nad oedd cytundeb terfynol rhwng y partiön wedi ei gyrraedd drwy drafodaethau gwirfoddol, ac o ganlyniad, cafodd hysbysiad ffurfiol i derfynu ei gyhoeddi ar 14 Mai, 2015.

Ers cyfarfod y Cabinet, roedd trafodaethau wedi aildechrau ac roedd yn ymddangos yn gadarnhaol. Ymddangosai terfyniad cynt na'r hyn oedd yn ofynnol drwy gontract i fod yn bosibl, a byddai o fudd i'r Cyngor yn ariannol, ac yn dilyn cytundeb ar ddyddiad, gellid dechrau ar y broses o drafod gwerthoedd iawndal. Roedd y Cyngor wedi comisiynu cyngor technegol arbenigol gan Bartneriaethau Lleol, cangen o Gymdeithas Llywodraeth Leol, a oedd yn cynorthwyo gyda'r trafodaethau a'r gwaith cynllunio prosiect. Ymgynghorwyd â chynghorwyr trysorlys y Cyngor ar faterion rheoli'r trysorlys sy'n deillio o'r trafodiad. Roedd tîm prosiect yn ystyried y gwahanol elfennau o'r prosiect wrth iddynt ddatblygu, er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau rheoli cyfleusterau yn yr adeilad yn cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth ar ôl derfynu'r cytundeb.

Cafodd manylion y costau terfynu, y broses ymgynghori a'r camau gweithredu i liniaru'r risgiau eu hymgorffori yn yr adroddiad.

Codwyd y materion canlynol a darparwyd ymatebion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:-

Codwyd y materion canlynol a darparwyd ymatebion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- Cafwyd cadarnhad bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael gwybod am y datblygiadau a'r cynnydd o ran y Prosiect Cynllun Ariannu Preifat.
- Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Mr P. Whitham ynglŷn â'r angen i sicrhau bod unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli'n briodol, eglurwyd bod y risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â'r prosiect wedi cael eu cofnodi yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Tynnodd y Cynghorydd Thompson-Hill sylw at y risgiau a allai godi o beidio bwrw ymlaen â'r prosiect.
- Cafodd natur gymhleth agwedd ariannol y prosiect ei amlinellu gan y Cynghorydd Thompson-Hill. Cyfeiriodd at Dudalen 3 o'r adroddiad i'r Cabinet a oedd yn cynnwys yr agwedd ariannol a'r broses ar gyfer gwerthuso'r eiddo.
- Pwysleisiodd y WAOR (GW) bwysigrwydd egluro agwedd a phroses ariannol o ran y ffigurau prisio yng Nghyfrifon terfynol y Cyngor yn glir, er mwyn sicrhau tryloywder o safbwynt y wasg a'r cyhoedd.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi'r diweddaraf ar y prosiect.  
**((RW i weithredu))**

Daeth y cyfarfod i ben am 13.55 p.m.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)  
Barry Mellor

**Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod: 28 Medi 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Awdur yr Adroddiad: Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Teitl: Adroddiad Archwilio Mewnol – Diogelu Corfforaethol**

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Ddiogelu Corfforaethol a gafodd sgôr sicrwydd 'Isel'.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar gyfer pob cyfarfod sy'n cynnwys manylion yr adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd. Mae'r rhain fel arfer yn adroddiadau sicrwydd 'Uchel' neu 'Canolig'.

Pan fyddwn yn cyhoeddi neu sgôr sicrwydd 'Isel' neu 'Dim' mewn adroddiad, bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad fel rhan o'i raglen i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o'r adroddiad a gallant drafod y gwelliannau sydd i'w gweithredu gyda'r rheolwr perthnasol .

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad Archwilio Mewnol ac yn cytuno ar y sicrwydd mae ei angen bod y cynllun gweithredu o fewn yr adroddiad yn cael ei weithredu'n effeithiol ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol llawn wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad eglurhaol. Y neges allweddol sy'n codi o'r adroddiad yw, er bod gan y Cyngor fesurau ar waith i reoli diogelu, nid yw'r rhain yn gadarn ac nid ydynt wedi'u hymgorffori ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor.

Mae angen i ddiogelu gael ei weld fel maes 'corfforaethol', yn hytrach na dim ond maes ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Addysg, felly mae angen i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth drwy lansio'r Polisi

Diogelu Corfforaethol a sicrhau bod ei aelodau etholedig a swyddogion yn cael eu hyfforddi'n ddigonol.

Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n codi 12 meysydd i'w gwella. Mae'r Panel Diogelu Corfforaethol wedi cymryd perchnogaeth o'r cynllun gweithredu drwy'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, ac mae camau gweithredu, cyfrifoldebau ac amserlenni wedi eu cytuno i fynd i'r afael â'r holl faterion.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r adroddiad wedi cael ei drafod a'i gytuno gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau a'r Panel Diogelu Corfforaethol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn, felly gall methu mynd i'r afael â'r cynllun gweithredu a chael trefniadau diogelu cadarn gael goblygiadau difrifol pe bai digwyddiad, yn ddeddfwriaethol ac o ran enw da.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.



**Denbighshire Internal Audit Services**  
Caledfryn, Smithfield Road, Denbigh LL16 3RJ

---

# Corporate Safeguarding

August 2015



**Lisa Hodson BA (Hons) PG (Dip) CMIIA**  
lisa.hodson@denbighshire.gov.uk

07747 461646

**Samantha Davies**  
samantha.davies@denbighshire.gov.uk

01824 706982

**Ivan Butler CMIIA, MBA, Head of Internal Audit Services**





Tudalen 23

## Purpose & Scope of Review

The Chief Executive requested an internal audit review of corporate safeguarding to ensure that there are robust arrangements in place to safeguard children and vulnerable adults across the Council and in organisations providing services on its behalf. Our review covered the following areas:

- Governance and scrutiny arrangements
- Risk management
- Policy and procedures
- Recruitment
- Training and awareness
- Voluntary organisations and third party contractors

## Assurance Rating (Based on areas reviewed)

	High Assurance	Risks and controls well managed
	Medium Assurance	Risks identified but are containable at service level
	Low Assurance	Risks identified that require meeting with Corporate Director/Lead Member
	No Assurance	Significant risks identified that require member / officer case conference

## Audit Opinion

The Council has got measures in place to manage safeguarding, but these are not robust and have not been embedded across all of the Council's functions.

Our review highlighted that there is still the misconception that safeguarding is the role of Social Services and not a corporate responsibility. Increasing awareness of safeguarding through ensuring that the Corporate Safeguarding Policy is available to members of staff and elected members, and providing training will ensure that roles and responsibilities are clear, so that any safeguarding concerns can be reported and addressed promptly.

 31 Rhagfyr 15 – Canllaw "Gwerthu i'r Cyngor" i fusnesau'n cael ei gyhoeddi  
 23 Chwefror 16 - Strategaeth Gaffael a CPR diwygiedig yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor  
 4 Ebrill 16 - holl gyfleoedd tendro Cyngor Sir Ddinbych yn cael eu cynnal yn electronig

Mae methu mynd i'r afael â'r pryderon gyda gweithgarwch caffael yn y Cyngor a nodir mewn adroddiadau archwilio gwahanol wedi'i nodi a'i gofnodi fel risg benodol yn y prosiect i ddatblygu strategaeth gaffael ddiwygiedig. Bydd hyn yn golygu, wrth i'r strategaeth ddatblygu, y bydd yn cael gwiriadau cyson yn erbyn y risg hon, a fydd yn sicrhau bod unrhyw bolisiau neu brosesau newydd arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn sicrhau nad yw camgymeriadau'n cael eu hailadrodd, ac y bydd unrhyw ddiffygion presennol mewn prosesau neu dulliau'n cael sylw.



## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae elfennau allweddol o'r rhaglen hon yn ymwneud â blaenoriaethau o fewn y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol ac mewn perthynas â hyn, bydd yn mynd i'r afael â'r ddau ddarn penodol o waith yn y Cynllun Corfforaethol:

- Sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda chyflenwyr; a
- Budd Cymunedol

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Y brif gost ariannol o gyflawni'r rhaglen yw penodi Rheolwr Rhaglen am 12 mis. Mae'r rôl hon yn hanfodol er mwyn datblygu a chyflawni rhaglen drawsnewid gadarn, ac mae cost hyn wedi'i ddiwallu o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer y swyddogaeth gaffael gorfforaethol.

Bydd datblygu a chyflawni'r rhaglen yn effeithio ar yr holl wasanaethau, gan fod pob gwasanaeth yn caffael. Mae cyflwyniad ar y rhaglen eisoes wedi cael ei wneud i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a diweddariadau rheolaidd wedi'u cynnwys. Bydd datblygiad y strategaeth yn ymgynghori â Phenaethiaid Gwasanaeth a swyddogion perthnasol o fewn eu timau i sicrhau bod y strategaeth yn realistig ac yn gyflawnadwy.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Prif ysgogydd y Rhaglen Trawsnewid Caffael fydd datblygu a chyflawni'r Strategaeth Gaffael ddiwygiedig. Unwaith y bydd yn cael ei datblygu, byddwn yn deall effaith bosibl unrhyw newidiadau a argymhellir yn y strategaeth ar staff a'r gymuned yn gliriach. Bydd asesiad o effaith ar gydraddoldeb llawn yn cael ei gynnal yn Rhagfyr 2015 (wedi'i gynnwys fel carreg filltir ar gyfer y prosiect) yn dilyn y cyfnod ymgynghori ar y strategaeth. Yn ystod y cyfnod hwn y byddwn yn disgwyl cael dealltwriaeth gliriach o'r polisïau a'r cynigion caffael ac felly'n gallu ymgymryd â'r asesiad.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Bydd datblygu strategaeth gaffael yn destun ymgynghoriad cynhwysfawr wedi'i drefnu i ddechrau ar ôl cwblhau'r ddogfen strategaeth ddrafft ddechrau mis Tachwedd 2015. Bydd hyn yn golygu ymgysylltu â nifer eang o randdeiliaid, yn fewnol ac yn allanol, a bydd yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth a swyddogion allweddol eraill o'r Cyngor, Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, sefydliadau partner a'r gymuned fusnes. Bydd adroddiad yn manylu ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar gael yn Rhagfyr 2015.

Cyn yr ymgynghoriad ffurfiol a nodir uchod, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngor Busnes Cymru a Busnes Cymru yn cymryd rhan i ddatblygu'r strategaeth ddrafft ac yno i sicrhau bod anghenion y gymuned fusnes yn cael eu hadlewyrchu, a bod cymorth a chynghor priodol ar waith i fusnesau lleol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dylai'r trefniadau newydd wella prosesau caffael y Cyngor a helpu i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau mewnol ac allanol. Bydd fframwaith caffael cadarn yn helpu i sicrhau bod gwerth am arian.

#### **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae manylion llawn y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Trawsnewid Caffael wedi'u cofnodi ar Verto - system rheoli prosiectau'r Cyngor, ac maent yn cynnwys:

- Diffyg adnoddau rheoli rhaglen/prosiect – a reolir drwy benodi Rheolwr Rhaglen ac asesiad parhaus o anghenion adnoddau gan y Pennaeth Gwasanaeth;
- Diffyg effaith ar yr economi leol - a reolir drwy ymgysylltu â'r gymuned fusnes leol a diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol er mwyn sicrhau bod anghenion busnesau lleol yn cael eu hystyried, a bod mesurau priodol ar waith i'w cefnogi i wneud cynigion o safon uchel mewn ymateb i geisiadau gan y Cyngor am ddyfynbrisiau neu dendrau;
- Methu ymdrin â phryderon a nodwyd mewn adroddiadau archwilio amrywiol - a reolir gan ystyriaeth lawn o adroddiadau perthnasol (fel yr adroddiad archwilio ar gaffael gwaith adeiladu) ac yna i gynnig a gweithredu prosesau newydd i fynd i'r afael â'r diffygion ac annog dull "cywir y tro cyntaf".

#### **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Does dim angen penderfyniad.

# Procurement Transformation Programme

Version 0.6, July 2015

## Programme Organisation

It is proposed that the transformation programme is headed by a Procurement Transformation Board which will be responsible for overall delivery of the programme and ensuring inter-dependencies between projects are recognised and addressed. Below the Programme Board will sit five distinct projects, each entered individually onto the VERTO project management system. To inform both project delivery and the overall programme, a number of task and finish groups will be established. These groups will be multi-disciplinary – and in some cases multi-agency – who will look at specific elements of the transformation programme. This organisation structure is illustrated in the diagram attached at the end of this paper.

## PROGRAMME LEVEL

### Procurement Transformation Board

It is proposed that the transformation programme is directed by a high level transformation board. The main role of the board is to monitor and direct the delivery of the transformation programme, providing a strategic overview to:

- ensure the constituent projects of the programme are being delivered on time, budget and to an acceptable quality threshold;
- have a clear sight of the benefits that the programme should deliver and continually monitor and evaluate whether or not the constituent projects and associated activities will deliver those benefits;
- help ensure that resources – time and money – are used effectively and in a way that optimises the delivery of benefits;
- Provide clear direction on policy issues relating to procurement (e.g. Fair Trade, Living Wage, etc.);
- be advocates of the transformation to ensure that the change message is delivered effectively and that the required culture change is embedded with both officers and members; and
- more generally ensure that communication with key stakeholders (including national bodies and other public sector organisations) is taking place.

## Membership of the Board

Proposed membership is based on specific posts or representation as outlined in the table below:

Organisation & Post	Specific Board Role
<b>Head of Finance, Assets &amp; Housing</b> Jamie Groves	Programme Executive – with overall accountability for the delivery of the programme and its benefits. Also Head of Service with significant responsibilities for procuring major works contracts.
<b>Head of Highways &amp; Environmental Services</b> Steve Parker	Head of Service with significant responsibilities for procuring major works contracts and thus can provide insight into appropriateness and deliverability of any changes to the procurement process. Also Project Executive for “use of Technology” and “Upskilling the workforce” projects, and thus can report to the board on progress and issues with these projects.
<b>Head of Community Support Services</b> Phil Gilroy	Head of Service with significant responsibilities for procuring major social care contracts and thus can provide insight into appropriateness and deliverability of any changes to the procurement process.
<b>FSB Representative</b> Mike Learmond	Key board role will be to ensure that the views and requirements of the local business community are considered and taken into account in the development of the procurement strategy and the wider transformation programme.
<b>Lead Member for Finance &amp; Efficiency</b> Cllr Julian Thompson-Hill	Lead member for the service in which the joint collaborative procurement service sits, but also with key responsibilities in relation to budget and financial matters. Key board role will be to chair the board meetings and to ensure that any costs associated with the procurement transformation are properly assessed and monitored, and that the programme delivers financial efficiencies.
<b>Lead Member for Economic Development</b> Cllr Hugh Evans	Key board role will be to ensure that the transformation programme establishes the right structures, processes and support mechanisms to enable local businesses to tender for council contracts, and to ensure that any policies and procedures associated with community benefits help develop the skills base within the county and provide opportunities to develop local supply chains.
<b>Lead Member for Modernising &amp; Performance</b> Cllr Barbara Smith	Key board role in ensuring the transformation is consistent with the council’s wider modernisation programme and is consistent with current good practice.
<b>Chair of Performance Scrutiny</b> Cllr David Simmons	Performance Scrutiny meets to scrutinise the performance of the council, particularly in relation to budget, financial matters and corporate policies. Key board role (along with the Lead Member for Finance & Efficiency) will be to ensure that the programme delivers financial efficiencies, but also to ensure that there are clear and unambiguous policies agreed in relation to procurement and embedded in the Procurement Strategy.

<p><b>Chair of Corporate Governance Committee</b> Cllr Jason McLellan</p>	<p>Corporate Governance Committee is responsible for ensuring that the Council’s systems of governance are robust. Recently a number of issues regarding procurement processes have been highlighted as issues as a result of audit inspections, and have subsequently been considered by Corporate Governance Committee. Key board role will be to ensure that the development of the strategy and other related projects of the procurement transformation programme address previously identified shortcomings in systems and governance.</p>
---	--

This Board will be supported by Advisors without any voting or decision-making powers. The primary role of these support members is to advise the Board. Individuals may be invited onto the Board in this support role as required or requested. It is envisaged that regular attendees would be:

- Strategic Procurement Manager
- Programme Manager – Procurement
- Project Managers for constituent projects (Use of Technology, Strategy Document, Organisational Structure & Upskilling the Workforce) as and when required.

## PROJECT LEVEL

It is proposed that the programme is organised into four clear and distinct – but inter-related – projects as detailed below. Each project will be individually entered onto Verto, and each should have a nominated Project Manager who will be responsible for managing the delivery of the project and providing any update reports required.

### PROJECT 1: Strategy Document

**Project Executive:** Jamie Groves

**Project Manager:** Tom Booty

Key objectives of this project will be to:

- understand the current procurement legislation and policy guidance (particularly Directive 2014/24/EU and the Wales Procurement Policy Statement), and subsequently develop our own local policies that fit within this framework – particularly in relation to local suppliers and community benefits;
- develop a performance management framework with key performance indicators and associated baselines to ensure that the impact of any changes to processes, and of procurement activity generally, can be effectively measured;
- produce a Procurement Strategy document and have it adopted; and
- update the existing Contract Procedure Rules (CPR’s) to ensure consistency with the legislative environment and the Procurement Strategy

## **PROJECT 2: Use of Technology**

**Project Executive:** Steve Parker

**Project Manager:** Tom Booty

Key objectives of this project will be to:

- ensure that the eProcurement system is in place and operational by the required legal date in 2018;
- ensure that adequate training and support for relevant council officers has been provided and that this training has resulted in a system that is adopted consistently across the council and that officers using the system are getting it right first time;
- ensure that adequate awareness, training and support has been provided to the council's existing suppliers and potential suppliers, and that this has resulted in no reduction in the number of local suppliers servicing the council; and
- ensure that the information provided on the council's website is up to date, relevant, and enables suppliers to understand what is required of them when tendering for council contracts, and when such contracts are due for renewal.

## **PROJECT 3: Local Supplier Development**

**Project Executive:** TBC

**Project Manager:** TBC

Key objectives of this project will be to:

- to identify and deliver mechanisms that will help local businesses bid and win business from council contracts and other public sector organisations;
- to identify and secure any additional resources that may be required in order to deliver the required support to local businesses;
- produce a range of guidance documents and other support mechanisms to assist businesses in bidding for public sector contracts, and ensure these are easily available on the internet or other appropriate place; and
- work with partners (such as Business Wales) to ensure that there is an ongoing training programme and support mechanism for local businesses to ensure that they continue to have opportunities to bid for council and other public sector contracts.

## **PROJECT 4: Upskilling the Workforce**

**Project Executive:** Steve Parker

**Project Manager:** Tom Booty

Key objectives of this project will be to:

- identify all council staff currently involved in procurement activity, analyse roles and responsibilities of those involved, and come up with a revised list (preferably shorter) of those council staff who should be involved in procurement activity going forward;

- develop a competency framework to assess the current competencies and skills gaps of those involved in procurement (both corporately and within services), and subsequently develop and deliver a training programme that addresses identified needs; and
- produce a range of guidance documents and other support mechanisms to assist people involved in the procurement process and ensure these are easily available on either the intranet or internet or other appropriate place.

## **PROJECT 5: Organisational Structure**

***This project will not commence until 2016***

**Project Executive:** Jamie Groves

**Project Manager:** TBC

Key objectives of this project will be to:

- develop a greater understanding of the category management approach, and agree the categories that will be used (being mindful of how other public sector organisations in Wales are categorising to aid future collaboration and/or reorganisation); and
- improve the performance and service provided by the joint procurement collaboration team for the same or less cost.

## **TASK & FINISH GROUPS**

To support the development of the overall programme and constituent projects in an inclusive and collaborative manner, it is proposed to establish a series of Task & Finish Groups looking at specific elements of the overall transformation programme. Some of these will be specific to an individual project, whilst others will be relevant to a number of projects. The following key principles will apply to these Task & Finish Groups:

- each Task & Finish Group will have a very clear and measurable output that they will be expected to deliver;
- no group should meet more than 6 times;
- work by group members needs to happen outside the meeting itself to ensure the outputs are delivered
- each group will have a nominated leader who will be responsible for arranging the meetings and reporting on the work of the group

The following tables detail the expected outputs from the Task and Finish groups.

## eProcurement System

<b>OUTPUTS:</b>	<p>Develop and agree the templates that are required for the eProcurement system</p> <p>Develop the content and agree a programme of training sessions for officers who will require training in the eProcurement system</p> <p>Ensure that a corporate Contracts Register is in place and published on the council's website</p> <p>Ensure that the system also establishes a mechanism for identifying and recording <u>all</u> contract tender exemptions, so that this information is available in one centralised, easily accessible location (<i>refer to Audit Review of Corporate Procurement – May 2015</i>)</p> <p>Ensure that improved control and recording of purchasing through cards, petty cash and travel claims is considered and a mechanism for improving control and recording (preferably through Proactis) is developed and implemented (<i>refer to Audit Review of Corporate Procurement – May 2015</i>)</p>
<b>MEMBERS:</b>	<p>Tom Booty – DCC Programme Manager – Procurement</p> <p>Arwel Staples – DCC/FCC Strategic Procurement Manager</p> <p>Stuart Andrews – DCC/FCC Senior Procurement Officer</p> <p>Lisa Price – DCC/FCC Procurement Officer</p> <p>Roy Kewley – DCC ICT Business Partner</p> <p>Rhys Lloyd Jones – DCC Senior Management Accountant (TBC)</p>

## Revised Contract Procedure Rules

<b>OUTPUTS:</b>	<p>Revise the current Contract Procedure Rules (CPR) to take account of recent changes to legislation, the revised Wales Policy Procurement Framework, and any policy decisions made in relation to the development of Denbighshire's revised Procurement Strategy</p> <p>Consider looking at a two phase approach:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Phase 1 – minor revision to ensure CPR's are legally compliant following European Directive in Feb 2015. This approach should not require any committee approval; and</li> <li>• Phase 2 – more comprehensive revision to take account of Wales Procurement Policy Statement (Jun 2015) and generally make the CPR's as straightforward and easy to read as possible.</li> </ul> <p>A key objective of phase 2 should be to try and ensure that Denbighshire and Flintshire share the same CPR's</p>
<b>MEMBERS:</b>	<p>Tom Booty – DCC Programme Manager – Procurement</p> <p>Arwel Staples – DCC/FCC Strategic Procurement Manager</p> <p>Rachel Sanders – DCC/FCC Procurement Officer</p> <p>Louise Davies – DCC Contracts Manager</p> <p>Lisa Jones – DCC Solicitor</p> <p>Louise Pedreski – FCC Legal</p>



## Local Supplier Development

<b>OUTPUTS:</b>	<p>Clear policy statement in relation to how we intend to engage with and support local suppliers</p> <p>Review and agree any eProcurement templates for suppliers to ensure they are fit for purpose and easy to use for local businesses</p> <p>Develop a communication strategy for engaging with existing and potential suppliers about the eProcurement system</p> <p>Develop the content and agree a programme of training sessions for local businesses about eProcurement</p> <p>Develop and produce guidance documents (and other appropriate mechanisms) to assist local businesses understand what the legal requirements are/will be in relation to electronic tendering and including a “how to” guide</p>
<b>MEMBERS:</b>	<p>Tom Booty – DCC Programme Manager – Procurement</p> <p>Arwel Staples – DCC/FCC Strategic Procurement Manager</p> <p>Stuart Andrews – DCC/FCC Senior Procurement Officer</p> <p>Kirsty Hutton Davies – DCC Business Liaison Officer</p> <p>Mike Learmond – Federation of Small Businesses</p> <p>Carys Griffiths – Business Wales Tendering Manager</p>

## Community Benefits

<b>OUTPUTS:</b>	<p>Clear policy statement on Community Benefits, including clarity on what the priorities for Denbighshire should be (e.g. targeting economically inactive, supporting social enterprise, etc)</p> <p>develop a matrix to illustrate what the expectations are against different spend thresholds and or procurement categories and how these need to be written into contract documentation</p> <p>provide guidelines on how community benefits will be measured and monitored, and what procedures need to be followed if community benefits are not being achieved as expected (or as contracted in the contract documentation)</p> <p>Develop and produce guidance documents (and other appropriate mechanisms) to assist council officers and local businesses understand what is meant by the term community benefits and how the council expects them to be delivered through the procurement process</p>
<b>MEMBERS:</b>	<p>Tom Booty – DCC Programme Manager – Procurement</p> <p>Arwel Staples – DCC/FCC Strategic Procurement Manager</p> <p>Tania Silva – DCC Framework Manager (TBC)</p> <p>Tony Ward – DCC Principal Manager – Business Support (TBC)</p>

## Performance Management

<b>OUTPUTS:</b>	<p>Agreed set of clear and quantifiable performance indicators for procurement (including those that will be required from Welsh Government, but also others that will be locally relevant)</p> <p>Analysis report detailing performance against those indicators for the last 3 years</p> <p>Establishment of baselines for the performance indicators and setting clear targets for improvement, and ensure these transfer across to Service Business Plan</p> <p><i>NOTE: Performance Indicators should include some measures of current spend (possibly looking at the agreed categories), and should establish clear savings targets</i></p>
<b>MEMBERS:</b>	<p>Tom Booty – DCC Programme Manager – Procurement</p> <p>Arwel Staples – DCC/FCC Strategic Procurement Manager</p> <p>Mike White – DCC/FCC Senior Procurement Officer</p> <p>Iolo McGregor – DCC Strategic Planning &amp; Performance Officer</p> <p>Rhys Lloyd Jones – DCC Senior Management Accountant (TBC)</p>

## Training & Guidance

<b>OUTPUTS:</b>	<p>Identify which staff across the organisation are currently involved in procurement activity</p> <p>Develop a competency framework (with reference to Wales Procurement Policy Statement) and provide a report assessing those staff involved in procurement activity against the competency framework.</p> <p>Based on analysis of the staff involved and the competency framework, along with awareness of other elements such as eProcurement, provide a revised list of names/roles who should continue to be involved in the procurement process (<i>the assumption is this will be a reduced number of people</i>)</p> <p>Develop and undertake a survey of middle managers to assess their awareness and understanding of the procurement process (<i>this should provide measurable performance measures which can be used year on year to assess whether staff knowledge and understanding of procurement is improving</i>)</p> <p>Develop the content, agree and effectively communicate a programme of training sessions for those officers who will retain an ongoing responsibility for procurement activity, ensuring that the training is targeted so that officers get the training they require based on the competency framework</p> <p>Develop and produce guidance documents (and other appropriate mechanisms) to assist officers undertaking procurement activity and ensure they are available in a clear and accessible manner on the staff intranet</p>
<b>MEMBERS:</b>	<p>Tom Booty – DCC Programme Manager – Procurement</p> <p>Stuart Andrews – DCC/FCC Senior Procurement Officer</p> <p>Helen Sutton – DCC/FCC Senior Procurement Manager</p> <p>John Rees – DCC Learning &amp; Development Specialist (TBC)</p>

## Contract Management

<b>OUTPUTS:</b>	Review current contract management arrangements and identify necessary improvements to create a more rigorous and robust contract management culture within the council, with particular consideration of: <ul style="list-style-type: none"><li>• Ensuring that sensible structures are in place and sufficient resources available to deliver robust contract management;</li><li>• Developing strong internal and external relationships that facilitate delivery;</li><li>• Ensuring that payments are made to the supplier in line with the contract;</li><li>• There are effective mechanisms in place to handle change within a contract;</li></ul>
<b>MEMBERS:</b>	TBC

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Procurement Transformation Programme 28 September 2015

Equality Impact Assessment

# Procurement Transformation Programme

**Contact:** Tom Booty  
Finance, Assets & Housing  
**Updated:** 7 September 2015

## 1. What type of proposal / decision is being assessed?

A strategic or service plan

## 2. What is the purpose of this proposal / decision, and what change (to staff or the community) will occur as a result of its implementation?

The main driver of the Procurement Transformation Programme will be the development and delivery of the revised Procurement Strategy. Once this is developed we will have a clearer understanding of the potential impact of any changes recommended in the strategy on staff and the community. A full equality impact assessment will be undertaken in December 2015 (included as a milestone for the project) following the strategy consultation period. It is at this stage we expect to have a clearer understanding of the procurement policies and proposals and thus will be able to undertake the assessment.

## 3. Does this proposal / decision require an equality impact assessment? If no, please explain why.

*Please note: if the proposal will have an impact on people (staff or the community) then an equality impact assessment **must** be undertaken*

Yes

Full assessment scheduled to be undertaken in December 2015.

## 4. Please provide a summary of the steps taken, and the information used, to carry out this assessment, including any engagement undertaken

*(Please refer to section 1 in the toolkit for guidance)*

Assessment to be undertaken in December 2015.

## 5. Will this proposal / decision have a positive impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-

**reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?**  
*(Please refer to section 1 in the toolkit for a description of the protected characteristics)*

Assessment to be undertaken in December 2015.
---

**6. Will this proposal / decision have a disproportionate negative impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?**

Assessment to be undertaken in December 2015.
---

**7. Has the proposal / decision been amended to eliminate or reduce any potential disproportionate negative impact? If no, please explain why.**

No	Assessment to be undertaken in December 2015.
----	---

**8. Have you identified any further actions to address and / or monitor any potential negative impact(s)?**

No	Assessment to be undertaken in December 2015.
----	---

Action(s)	Owner	By when?
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Unrestrict editing to insert additional rows>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>

**9. Declaration**

Every reasonable effort has been made to eliminate or reduce any potential disproportionate impact on people sharing protected characteristics. The actual impact of the proposal / decision will be reviewed at the appropriate stage.

Review Date:	31/12/15
--------------	----------

Name of Lead Officer for Equality Impact Assessment	Date
Tom Booty	07/09/15

**Please note you will be required to publish the outcome of the equality impact assessment if you identify a substantial likely impact.**

---



<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>28 Medi 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Proses y Gyllideb 2016/17</b>

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried y diweddariad diweddaraf a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r cynnydd diweddaraf o ran y broses o bennu'r gyllideb fel a ganlyn:

	<b><u>2015/16</u></b>	<b><u>2016/17</u></b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Targed Arbedion</b>	8,259	8,853
<b>Cynigiedig</b>		
Cam 1	3,715	870
Cam 2	3,571	1,785
Cam 3	473	-
Cam 4		1,290
Cam 5 (*hyd yma)		4,178
<b>Cyfanswm y Cynigion</b>	<b>7,759</b>	<b>8,123</b>

Mae'r sefyllfa'n dangos bwch posib yn y gyllideb o £730 mil ar sail y rhagdybiaethau cynllunio diweddaraf yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r rhagdybiaethau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Gostyngiad o 4% yn y Grant Cynnal Refeniw (yn nhermau arian parod)
- Cynnydd o 2.75% yn Nhreth y Cyngor
- Cynnydd o 1% mewn cyflogau (ar gyfartaledd)
- Cynnydd o oddeutu 8% mewn pensiynau (cyfredol a diffyg)
- Newidiadau i reolau Yswiriant Gwladol, cynnydd o oddeutu 26%

Mae nifer o'r cynigion a gynhwysir yng Ngham 5 yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac felly nid oes ganddynt werthoedd amcangyfrifedig eto. Mae'r bwlch yn y gyllideb fel y'i cyfrifwyd yn cynnwys rhai elfennau o arian at raid. Fodd bynnag, mae rhai pwysau ychwanegol posibl yn dod i'r amlwg o'r sector gofal cymdeithasol a allai negyddu effaith gadarnhaol. Bydd cynigion a gyflwynir gan aelodau etholedig yn cael eu cynnwys fel rhan o gynigion Cam 5. Hyd yn hyn, mae gwasanaethau a'r adran gyllid wedi asesu pedwar o'r chwe chynnig.

Mae'r cynigion hyd yn hyn a nodir yng Ngham 5 wedi eu categoreiddio fel a ganlyn:

Dadansoddiad fesul Effaith	Nifer yr Eitemau	Gwerth (£000)
Gostyngiadau cyllidebol technegol - dim effaith ar lefelau gwasanaeth	9	964
Effeithlonrwydd - dim effaith negyddol ar lefelau gwasanaeth ond effaith ar staffio	21	1,219
Cynnydd mewn Ffioedd a Thaliadau neu gyfraniadau incwm allanol ychwanegol	2	320
Newid i lefel gwasanaeth a dderbynnir gan y cyhoedd	9	940
Lleihau gwasanaeth / tynnu gwasanaeth yn ôl	7	667
Anhysbys	8	68
<b>Cyfanswm</b>	<b>56</b>	<b>4,178</b>

Cynhaliwyd gweithdy cyllideb ar 5 Mehefin a oedd yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol a rhagolygon economaidd. Nodwyd rhai ystyriaethau cenedlaethol a fydd yn effeithio ar gynllunio cyllideb y Cyngor. Eglurwyd fod y bwlch a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 yn oddeutu £8.8 miliwn a, hyd yma (o ystyried y pecyn a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 7 Gorffennaf), mae gwerth £4 miliwn o gynigion wedi eu cymeradwyo. Rhoddwyd esboniad o'r tybiaethau ac amlygwyd mai'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw lefel y setliad i awdurdodau lleol ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw. Mae pob newid yn y ganran i werth y setliad yn cyfateb i oddeutu £1.4 miliwn. Ar hyn y bryd nid oes unrhyw arwydd o lefel y setliad tebygol, gallai fod yn well neu'n waeth na ffigur y cynllun canolog o -4%.

Fel rheol fe gyhoeddir setliad drafft Llywodraeth Leol Cymru ddechrau mis Hydref. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o ansicrwydd o hyd ynghylch lefel ac amseriad Setliad Llywodraeth Leol Cymru. Ni fydd union effaith cyhoeddiadau Cyllideb yr Haf ar gyllidebau gweinyddiaethau datganoledig yn glir hyd nes y

cyhoeddir yr Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 25 Tachwedd. Bydd hyn yn penderfynu ar lefel y Grant Bloc i Gymru. Yn dilyn hyn (am oddeutu mis) bydd Llywodraeth Cymru yn pennu ei chyllideb, gan gynnwys y setliad i Lywodraeth Leol. Gallai hyn olygu na fyddwn yn derbyn y setliad drafft tan ddechrau mis Ionawr.

O ran lefel y setliad, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi asesu y gallai setliadau gweinyddiaethau datganoledig Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod yn wastad yn nhermau arian parod yn ystod y ddwy flynedd nesaf, yn rhannol oherwydd meysydd 'gwarchoddedig' o wariant yn ffurfio rhan arwyddocaol o'r bloc cyffredinol o gyllid datganoledig (iechyd ac ysgolion yn bennaf). Felly, y mater yng Nghymru yw'r polisi ar lefel genedlaethol a fydd yn llywio dosbarthiad cyllid rhwng llywodraeth leol ac ieuchyd.

Bydd cyhoeddiad hwyr tebygol y setliad drafft yn golygu y bydd angen newid amserlen y gyllideb. Mae'r rhaid i'r Cyngor bennu ei gyllideb yn barod ar gyfer cynhyrchu ac anfon biliau Treth y Cyngor ym mis Mawrth. Mae'r amserlen gyfredol ynghlwm wrth Atodiad 1. Mae'n debygol y bydd angen cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor Llawn i gwblhau'r gyllideb ym mis Chwefror.

Mae amserlen y gyllideb yn dal yn tybio y bydd rhai cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor er cymeradwyaeth ym mis Rhagfyr. Tybir y bydd unrhyw gynnig a gyflwynir cyn cyhoeddir setliad yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd a moderneiddio, yn hytrach na lleihau gwasanaethau neu gynyddu ffioedd a thaliadau.

Mae cynigion yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyflwyno mewn gweithdai cyllideb. Cynhelir gweithdai cyllideb ar 26 Hydref ac 14 Rhagfyr, ond bydd dyddiad neu ddyddiadau pellach yn cael eu cynnig fis Tachwedd. Argymhellir bod y cynigion a gyflwynir mewn gweithdai cyllideb yn canolbwyntio ar y meysydd y mae'r effeithiau mwyaf yn debygol o fod, boed hynny mewn perthynas â lleihau neu newid gwasanaeth rheng flaen neu gynydd mewn ffioedd neu daliadau. Dylai cynigion sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac sy'n cynnwys ailstrwythuro gwasanaethau gael eu hadrodd fel rhan o'r papur cyllideb i'r Cyngor (gan gynnal yr asesiadau effaith priodol) oherwydd na ddylid trafod penderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo i benaethiaid gwasanaeth yn fanwl mewn gweithdai cyllideb.

Ni chafodd awgrym y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ei gyfarfod diwethaf, i gynnal gweithdai ychwanegol ym mis Medi, ei gymeradwyo gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol. Fodd bynnag, cytunwyd i ddarparu sesiynau briffio yn ôl yr angen pan fo newidiadau neu gyhoeddiadau sy'n effeithio ar y gyllideb.

Mae'r Adran Gyllid yn asesu pob cynnig i benderfynu ar effaith debygol y gyllideb yn 2016/17. Fe wneir hyn i sicrhau bod unrhyw gost ymlaen llaw neu gost amnewid yn cael ei chynnwys yn y cyfrifiad ac i ddarparu asesiad risg ariannol o ran a yw'r amserlenni'n rhesymol i gyflawni'r cynigion yn llawn neu'n rhannol yn 2016/17. Mae'r Adran Gyllid hefyd yn y broses o asesu nifer o

themâu ar draws pob maes cyllideb (nid gwasanaeth benodol). Bydd yr asesiadau hyn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Tâl a chyllidebu sy'n gysylltiedig â staff - archwilio cysondeb ar draws rhagdybiaethau cyllideb gwasanaeth a dadansoddiad manwl o gyhoeddiadau diweddar ynghylch cyflog byw ac amser teithio o'r cartref i'r gwaith
- Ffioedd a Thaliadau - asesu cyllidebau incwm a pholisïau codi tâl a, lle bo'n briodol, meincnodi i sefydliadau eraill
- Caffael – asesu cyflenwadau a gwariant gwasanaethau
- Grantiau – asesu ffynonellau grant refeniw, risgiau sy'n gysylltiedig â chyllid ansicr a data i lobïo am fwy o ddad-neilltuo grantiau i'r prif Grant Cynnal Refeniw
- Meincnodi ariannol - profi dangosyddion cost gwasanaethau allweddol ac archwilio amrywiadau sylweddol i arfer da
- Cyllideb Ariannu Cyfalaf - adolygiad llawn o gyfrifo'r gyllideb ar gyfer y rhagdybiaethau diweddaraf sy'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol, asesiad o gostau a gofynion benthyca yn y dyfodol a thrafodion sylweddol diweddar (fel terfynu'r contract y Cynllun Ariannu Preifat a phrynu system gymorthdalur Cyfrif Refeniw Tai). Diben yr asesiadau hyn yw nodi meysydd posibl o arbedion ar gyfer 2016/17 a 2017/18 a darparu rhywfaint o sicrwydd o ran gwerth am arian. Bydd y dadansoddiad hefyd yn bwydo i mewn i adolygiad nesaf y Cynllun Ariannol Tymor Canolog sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

Yn ystod mis Medi/Hydref, cynhelir adolygiad o gronfeydd wrth gefn a darpariaethau Cyngor. Diben yr adolygiad hwn yw canfod a yw'r risgiau ariannol neu'r rhesymau eraill dros gadw symiau penodol yn dal yn berthnasol. Bydd adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fis Tachwedd, ynghyd â'r effaith bosibl ar broses y gyllideb.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys siart diweddaraf proses y gyllideb ac mae Atodiad 2 yn cynnwys fersiwn ddiwygiedig.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllideb y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Efallai y bydd ar y Cyngor angen cyflawni gwerth £8.8 miliwn o arbedion a mesurau eraill yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau ar gyfer yr holl gynigion perthnasol wrth i'r broses fynd rhagddi.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i gyflawni cyllidebau 2015/16 a 2016/17.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd hon yn parhau'n broses heriol iawn gyda rhai penderfyniadau anodd i'w gwneud ar hyd y ffordd. Mae ymrwymiad a chefnogaeth aelodau etholedig wrth wneud penderfyniadau ac archwilio'r broses yn hanfodol.

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Wedi eu hymgorffori i mewn i'r broses mae nifer o bwyntiau adolygu er mwyn sicrhau ei bod yn aros ar y trywydd iawn a bod modd ei diwygio os nad ydyw. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel ac amseriad y setliad yn golygu y gall y bwlch amcangyfrifedig yn y gyllideb newid ar gyfer 16/17 ond mae'n rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun y tebygolrwydd y bydd setliadau negyddol yn parhau yn y tymor canolig.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r Cyngor wedi ei wynebu a byddai methu cyflawni strategaeth gyllidebol effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

Mae proses y gyllideb yn fesur rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion cyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae'r broses fel yr amlinellwyd yn cynnwys digon o gyfleoedd i adolygu a diwygio os oes angen. Bydd lefel y cynigion a nodwyd ym mis Mehefin drwy ymgynghori â gwasanaethau a'r cynigion a gyflwynwyd gan aelodau yn llywio gweddill y broses.


Mae rheoli risg proses y gyllideb yn ystyriaeth allweddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mae risgiau penodol wedi eu nodi mewn adroddiadau blaenorol. Mae'r risgiau ariannol a'r risgiau i wasanaethau yn cael eu nodi a'u hamlygu mewn gweithdai cyllideb wrth iddynt drafod y cynigion.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag


**PROPOSED BUDGET PROCESS 2016/17**



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag



**PROPOSED BUDGET PROCESS 2016/17**



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>28 Medi 2015</b>
<b>Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Steve Gadd, Prif Gyfrifydd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2014/15</b>

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae'n rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y Cyngor.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Cymeradwywyd datganiadau ariannol 2013/14, yn amodol ar archwiliad, gan y Prif Swyddog Cyllid ar 25 Mehefin 2015. Dosbarthwyd y cyfrifon drafft i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 23 Gorffennaf 2015 fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai.

Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig, gan gynnwys barn yr archwilydd allanol, yn ffurfiol erbyn diwedd mis Medi. Cafodd cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar IFRS ac mae'r Cyngor wedi paratoi cyfrifon 2014/15 yn unol â'r Cod hwnnw.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys barn gyfrifo a thystysgrif archwilio diamod.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr aelodau etholedig yn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2014/15 sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Bydd gofyn i'r Cadeirydd ac i'r Prif Swyddog Cyllid lofnodi'r Cyfrifon a'r Llythyr o Sylwadau yn y cyfarfod.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

Cafodd y cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno eu paratoi yn unol â'r safonau cyfrifo gofynnol.

Cyfes o safonau cyfrifo sy'n cael eu defnyddio ledled y byd yw'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Cafodd y Safonau eu datblygu ar gyfer y

sector breifat ond, mewn egwyddor, mae'r mwyafrif helaeth o drafodion yr un fath o ran cyfrifo beth bynnag yw'r sector. Gan fod yna rai meysydd lle mae triniaeth gyfrifo'r sector cyhoeddus yn wahanol i'r Safonau rhyngwladol (oherwydd, er enghraifft, gofynion deddfwriaethol) cafodd set ychwanegol o safonau eu cyflwyno ar eu cyfer sy'n cael eu galw yn Safonau Cyfrifo'r Sector Cyhoeddus.

Roedd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn ac maen nhw hefyd wedi bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Bu Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio'r cyfrifon a bydd trosolwg o'u canfyddiadau a'u hasesiad o'r broses yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i'r Pwyllgor.

Arweiniodd y broses archwilio at rai newidiadau technegol ac at gywiriadau a newidiadau eraill. Bydd rhagor o fanylion o'r rhain yn cael eu cyflwyno yn adroddiad yr archwiliwr.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cyhoeddi Datganiad Cyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Ddim yn berthnasol.

**8. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n agos â'r tîm Cyllid er mwyn sicrhau fod yr archwiliad yn cael ei gwblhau mewn pryd ac yn llwyddiannus.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Unwaith eto, mae'r Datganiad Cyfrifon wedi derbyn barn archwilio ddiamod. Mae hyn yn gryn lwyddiant o gofio am faint a chymhlethdod y cyfrifon. Bydd gweithdrefnau mewnol yn parhau i gael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn dal yn darparu datganiadau ariannol o ansawdd da. Bydd hyn yn ystyried y materion a godwyd yn yr archwiliad sydd wedi eu codi yn yr adroddiad archwilio.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai'r Cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliatedig erbyn 30 Medi.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# **DATGANIAD CYFRIFON 2014/15**

**DATGANIAD CYFRIFON**  
**CYNGOR SIR DDINBYCH**  
**2014/15**

**CYNNWYS:**

<b>ADRAN</b>	<b>TUDALEN</b>
<b>1. CYFLWYNIAD A RHAGYMDRODD EGLURHAOL</b>	<b>1-9</b>
<b>2. DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU</b>	<b>10-11</b>
<b>3. DATGANIADAU ARIANNOL A NODIADAU YNGLŶN Â'R CYFRIFON</b>  Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Y Fantolen Datganiad Llif Arian Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon	<b>15-16</b> <b>17-18</b> <b>19-21</b> <b>22</b> <b>23-114</b>
<b>4. DATGANIADAU ATODOL</b>  Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Atodol	<b>116</b> <b>117</b> <b>118-120</b>
<b>5. ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ALLANOL</b>	<b>121-122</b>
<b>6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL</b>	<b>125-148</b>
<b>7. GEIRFA</b>	<b>149-156</b>



**CYFLWYNIAD**

Awdurdod unedol yng Nghymru yw Cyngor Sir Ddinbych gyda phoblogaeth o dros 95,000. Mae Sir Ddinbych yn cynnwys cyrchfannau gwyliau'r Rhyl a Phrestatyn ar hyd arfordir gogledd Cymru, Dyffryn Clwyd, Corwen yn ne'r Sir a thref Llangollen, sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid. Mae hefyd yn cynnwys trefi castellog hanesyddol Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun, a dinas gadeiriol fechan Llanelwy. Mae 47 o gynghorwyr etholedig i gynrychioli amrywiol wardiau'r sir. Mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 4,500 o staff.

Daeth y Cyngor Sir i fodolaeth ym mis Ebrill 1996 ac mae'n gyfrifol am ystod fawr o wasanaethau gan gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, priffyrdd, casglu a gwaredu gwastraff, cynllunio, datblygu economaidd, twristiaeth, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a llawer yn rhagor.

Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac sy'n dangos ar be y gwariodd y Cyngor ei arian. Mae'r cyfrifon hyn yn mynd yn fwyfwy technegol ac yn anos eu deall. Pwrpas y Cyflwyniad yn yr adran nesaf yw ceisio cyflwyno rhai o'r rhifau mwyaf pwysig mewn dull mwy dealladwy.

Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyfrifon, byddai croeso i chi gysylltu â'r Prif Swyddog Cyllid, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN. At hynny, mae gennych hawl cyfreithiol i archwilio'r cyfrifon cyn cwblhau'r archwilio. Hysbysebwyd yn y wasg leol i ddweud fod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio.

**DATGANIAD CYFRIFON**

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn yn unol â gofynion cyfreithiol, safonau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Cod) yn y Deyrnas Unedig, gyda'r amcanion canlynol:

- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol.
- Rhoi gwybodaeth ynglŷn â chyllid y Cyngor i ddefnyddwyr gwasanaeth, etholwyr, trethdalwyr busnes, trethdalwyr lleol, Cynghorwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.
- Dangos stiwardiaeth o arian cyhoeddus

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

**Adran 1 - Rhagymadrodd Eglurhaol**

Mae'r Rhagymadrodd hwn gan y Prif Swyddog Cyllid yn darparu crynodeb o weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn.

**Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau**

Mae hyn yn amlinellu dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyllid wrth baratoi'r cyfrifon, a chyfrifoldebau'r Cyngor wrth gadw at y rheoliadau perthnasol.

**Adran 3 – Prif Ddatganiadau Ariannol a Nodiadau ynglŷn â'r Cyfrifon**

Mae Cod 2014 yn mynnu fod cyfrifon awdurdod lleol yn cydymffurfio gyda'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r prif ddatganiadau ariannol yn cynnwys:

**Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae hyn yn dangos yr addasiadau a wnaed i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i gyflawni gofynion cyfrifeg statudol, i'w alinio gyda'r sail gyfrifyddol y seiliwyd y lefel Treth y Cyngor am y flwyddyn arni.

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**

Mae'r cyfrif hwn yn grynodeb o'r arian a gynhyrchwyd ac a wariwyd wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth reoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys pob gwariant beunyddiol ac incwm perthynol ar sail groniadol, ynghyd â thrafodion sy'n mesur gwerth yr asedau a dreuliyd mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn dangos amcanestyniad o werth y buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn.

**Y Fantolen**

Mae'r Fantolen yn rhoi ciplun o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2015. Mae'n amlinellu gwerth yr eitemau y mae'n berchen arnynt (asedau) a gwerth yr hyn sy'n ddyledus i eraill (ymrwymadau). Mae' ymgorffori holl gyllid y Cyngor, o ran cyfalaf a refeniw.

**Datganiad Llif Arian**

Mae hyn yn rhoi crynodeb ynglŷn ag arian parod y Cyngor a thrafodion sy'n gyfwerth ag arian parod dros y flwyddyn, gan ddangos yr union arian parod a dderbyniwyd ac a wariwyd a'r newid a fu yn sefyllfa'r Cyngor o safbwynt arian parod.

**Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon**

Darperir nodiadau eglurhaol ar ôl y prif ddatganiadau ariannol ac ar ôl y datganiadau ariannol atodol. Mae'r nodiadau yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i roi cymorth er mwyn deall y cyfrifon.

**Adran 4 - Datganiadau Ariannol Atodol a Nodiadau**

**Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**

Mae gofyn ar i Gynghorau gyfrifo costau gwasanaeth tai'r cyngor ar wahân trwy gyfrwng Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau ym Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r cyfrif hwn yn dangos ymhle y caiff arian ei wario'n cynnal ac yn rheoli tai'r cyngor, yn talu cymhorthdal i Lywodraeth Cymru a sut y cyfarfyddir â'r costau hyn gyda rhenti ac incwm arall.

Mae'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau ym Malansau'r Cyfrif Refeniw Tai yn dod â'r holl symudiadau o fewn cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai ynghyd.

**Adran 5 - Adroddiad yr Archwiliwr Allanol**

Mae'r cyfrifon hyn yn amodol ar archwiliad allanol annibynnol gan archwilydd a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'r adroddiad hwnnw wedi ei gynnwys yn yr adran hon.

**Adran 6 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae hyn yn amlinellu dull gweithredu'r Cyngor wrth sicrhau ei fod yn cynnal system effeithiol o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol.

**Adran 7 - Geirfa**

Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr o rai o'r diffiniadau a fabwysiedir at ddiben cyfrifon a gwblheir yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

**ADRAN 1 - RHAGYMDRODD EGLURHAOL**

**1.1 ADOLYGIAD Y FLWYDDYN – GWARIANT REFENIW**

Bydd y Cyngor yn sefydlu cyllideb refeniw pob blwyddyn. Mae hon yn gyllideb ar gyfer y gwasanaethau y bydd yn eu darparu yn ystod y flwyddyn ac a fydd yn cael eu hariannu gan ddefnyddwyr gwasanaeth, Grantiau Llywodraeth Cymru a Threth y Cyngor a Threthdalwyr Busnes. Ar gyfer 2014/15, y gyllideb gros oedd £280.9m. Sefydlwyd a darparwyd targed cynilon o £7.1m yn 2014/15. Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion o bron i £13.5m yn y tair blynedd ddiwethaf ac mae'n debygol o wneud arbedion o dros £17m yn y tair blynedd nesaf.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Cyngor wedi gwario £1.3m yn llai nag yr oedd wedi cyllidebu ar ei gyfer ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol.

**Balansau, Darpariaethau a Chronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r sefyllfa refeniw derfynol eleni wedi golygu ei bod yn bosibl i wneud cyfraniad net o £5.3m i gronfeydd wrth gefn yn y cyfrifon.

Balansau cyffredinol y Cyngor erbyn hyn yw £7.6m. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr ei fod yn cadw digon o arian yn y balansau hyn i fod yn siŵr y gall ymdrin ag unrhyw broblemau annisgwyl y bydd yn eu hwynebu. Mae manylion yr holl ddarpariaethau a chronfeydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y Nodiadau i'r Datganiad Cyfrifon.

**Sut Rydym yn Rhoi Gwybod am ein Cyllideb**

Bob mis, bydd adroddiad cyllideb yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor (grŵp o 8 o Gynghorwyr sy'n gwneud nifer o benderfyniadau ar ran y Cyngor) sy'n esbonio sut y mae gwasanaethau yn gwario eu harian o'i gymharu â'u cyllideb. Ar ddiwedd y flwyddyn, bydd adroddiad terfynol (a elwir yn ganlyniad) yn dangos y sefyllfa diwedd blwyddyn.

Ond, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu ei Ddatganiad Cyfrifon mewn modd sy'n diwallu gofynion rhoi gwybod ariannol y DU a rhyngwladol. Yn anffodus, mae'r gofynion hyn yn gymhleth iawn ac yn dechnegol eu natur. Mae hyn yn golygu bod angen nifer o addasiadau cyfrifo ar gyfer yr adroddiadau cyllideb arferol i sicrhau y gall y Cyngor gynhyrchu ei Gyfrifon. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa derfynol y rhoddwyd gwybod i'r Cynghorwyr amdani. Yn y Nodiadau ynglŷn â'r Cyfrifon mae esboniad o'r addasiadau a wnaed rhwng y sefyllfa refeniw terfynol y rhoddwyd gwybod amdani a'r symiau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa refeniw terfynol y rhoddwyd gwybod amdani a'i chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mehefin 2015.

	<b>Adroddiad Canlyniad Refeniw Terfynol £000</b>
<b>Cyllidebau Gwasanaeth a Chorfforaethol</b>	
Gwella a Moderneiddio Busnes	3,706
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	2,358
Cyllid ac Asedau	7,343
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	18,733
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	2,597
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	32,044
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	8,142
Datblygiad Economaidd a Busnes	1,227
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden	6,069
Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg	2,455
Gwella Ysgolion a Chynhwysiant	4,346
Ysgolion	64,540
Corfforaethol	15,875
<b>Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth a Chorfforaethol</b>	<b>169,435</b>
<b>Arall</b>	
Arian Cyfalaf/ Llog Buddsoddi	13,330
Lefiau	4,342
<b>Cyfanswm Gwariant (ac eithrio CRT)</b>	<b>187,107</b>
Llai Cyllid	(188,418)
<b>Canlyniad Terfynol</b>	<b>(1,311)</b>
<b>Cyfraniad at Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau Cyffredinol y Rhoddwyd Gwybod Amdanynt i'r Aelodau:</b>	
<b>Dyrannwyd fel a ganlyn:</b>	
Balansau wedi'u Clustnodi - Gwasanaethau	(584)
Trosglwyddiadau Arfaethedig i Gronfeydd Wrth Gefn	(566)
Penodol	
Cronfa Buddsoddi i Arbed	(235)
Cronfa'r Cynllun Corfforaethol	(280)
Balansau Ysgolion	354
<b>Cyfanswm</b>	<b>(1,311)</b>

1.2 **ADOLYGIAD Y FLWYDDYN – GWARIANT CYFALAF**

Bob blwyddyn bydd y Cyngor yn gwario arian ar eitemau fydd yn bodoli am gyfnod hir fel tir, adeiladau, ffyrdd, cerbydau ac offer. Bydd yr eitemau hyn yn cael eu galw yn asedau a bydd y Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau am flynyddoedd i ddod. Bydd gwariant ar yr asedau hyn yn cael ei alw yn wariant cyfalaf.

Mae'r tabl isod yn dangos faint y gwnaeth y Cyngor ei wario ar ei asedau fesul bloc gwasanaeth yn 2014/15 a sut yr ariannwyd y gwariant:

<b>Gwariant</b>	<b>£000</b>
Cyllid ac Asedau	1,117
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	11,784
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	2,927
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	1,072
Datblygiad Economaidd a Busnes	3,520
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden	1,877
Gwella Busnes a Moderneiddio	363
Cefnogaeth Addysg a Chwsmeriaid	9,311
Gwella Ysgolion a Chynhwysiant	107
Cyfrif Refeniw Tai	3,585
<b>Cyfanswm</b>	<b>35,663</b>
<b>Ariannu</b>	
Grantiau	20,003
Benthyca â Chymorth	2,250
Benthyca Darbodus	9,026
Derbyniadau Cyfalaf	1,286
Gwariant Cyfalaf sy'n cael ei dalu o Gronfa'r Cyngor	3,098
<b>Cyfanswm</b>	<b>35,663</b>

Mae gwariant ar Brosiectau mawr yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Prosiect	Disgrifiad	2014/15 £000
Y Rhyl	Gwaith Atgyweirio Amddiffynfeydd Arfordirol	476
Y Rhyl	Gwaith Amddiffyn yr Arfordir Gorllewin Y Rhyl – Cam 3	2,909
Datblygiad Harbwr y Rhyl	Gwaith ar y Bont Beicio/Cerddwyr, Unedau ar y Cei, Sgwâr Cyhoeddus a Wal y Cei	239
Llanelwy	Gwaith ar Bont Elwy	423
Y Rhyl	Atgyweiriadau i Bont Y Foryd A548	1,838
Rhuthun	Gwaith Gwella Bwnd Llifogydd Glasdir	249
Corwen	Cynllun Lliniaru Llifogydd	357
Y Rhyl	Gorllwein Y Rhyl – Cam 2, Cyfleusterau i Gerddwyr a Beicwyr	600
Y Rhyl	Rheiliau Promenad Newydd	273
Y Rhyl	Buddsoddiad Gofal Iechyd Cefndy	301
Ysgol y Llys, Prestatyn	Adnewyddu, Ailfodelu ac Estyniad	753
Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych	Estyniad ac Adnewyddu'r Safle Presennol	896
Ysgol Bodnant, Prestatyn	Ysgolion yr 21ain Ganrif – Gwaith Estyniad ac Adnewyddu	423
Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy	Ysgolion yr 21ain Ganrif – Estyniad, Ailfodelu a Gwaith Adnewyddu (Dyluniad)	402
Y Rhyl	Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Newydd	4,202
Y Rhyl	Caffael/Dymchwel Eiddo a Gwaith Tir y Cyhoedd	2,869
Tai Cyngor	Gwelliannau Mawr	2,430
Tai Cyngor	Addasiadau i'r Anabl	240
Prestatyn, Canolfan Y Nova	Gwaith Ailddatblygu	1,163
Dinbych	Cyfraniad i Adeiladu Canolfan Fenter Ieuencid	210

### 1.3 MATERION ERAILL

#### **Pensiynau**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd

Yn unol â'r gyfraith, mae'n rhaid i'r gronfa pensiwn gyfrifo faint o arian fyddai'n ddyledus ganddo pe bai pob aelod unigol â hawl i gael eu taliad pensiwn yn syth. Yna, bydd rhaid iddo gyfrifo faint o arian sydd ganddo mewn buddsoddiadau. Oherwydd y problemau gyda'r economi a'i effaith ar gyfranddaliadau a buddsoddiadau a'r ffaith bod pobl yn byw yn hirach yn gyffredinol, mae gan y gronfa pensiwn lai mewn buddsoddiadau na'r swm y byddai'n gorfod ei dalu allan mewn theori. Gelwir hyn yn ddiffyg. Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd y Cyngor yn gorfod talu'r arian hwn, mae'n rhaid iddo ddangos y diffyg yn y cyfrifon. Mae'r nodiadau ynglŷn â'r cyfrifon yn dangos manylion pellach.

#### **Cynllun Busnes Tai**

Mae'r cyngor yn berchen ar 3,428 o dai cyngor – a elwir y stoc dai. Ers 2005, mae'r cyngor wedi buddsoddi bron i £60m i wella ei stoc dai a bydd yn cyflawni Safon

Ansawdd Tai Cymru yn 2014. Mae rhan o'r buddsoddiad hwn wedi bod drwy fenthycia ac mae gan y cyngor Gynllun Busnes Stoc Tai 30-mlunedd manwl sy'n helpu i sicrhau fod y buddsoddiad mewn tai y cyngor yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae Cynllun Busnes y Stoc Tai yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan gabinet y cyngor bob blwyddyn ac mae'n parhau i fod yn gryf yn ariannol.

Mae'n rhaid i'r cyngor gyfrifo am incwm a gwariant ar ei stoc dai ar wahân i weithgareddau eraill a gelwir hyn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Mae bob Cyfrif Refeniw Tai yn Nghymru ar hyn o bryd yn rhan o system gymhorthdal cenedlaethol sy'n golygu bod incwm rhent dros ben yn gorfod cael ei dalu i Lywodraeth y DU. Cynigir y bydd system gymhorthdal y CRT yn cael ei ddiddymu ym mis Ebrill 2015 ac er nad yw'r manylion wedi cael eu cwblhau eto, mae'n debygol y bydd y canlyniadau ariannol ar ran y cyngor yn gadarnhaol. Bydd Cynllun Busnes Stoc Tai newydd yn cael ei ddatblygu yn ystod 2014/15 i baratoi ar gyfer y newidiadau arfaethedig.

### **Benthycia a Buddsoddiadau**

Strategaeth y Cyngor yn 2013/14 oedd parhau i gadw balansau benthycia a buddsoddi mor isel â phosibl trwy ddefnyddio gweddill arian dros dro, ond cadw lefel arian sy'n ddigonol. Mae balansau buddsoddi yn cael eu monitro yn barhaus gyda'r nod o gynnal lefelau digonol i ddiwallu gofynion llif arian y Cyngor. Bu i'r Cyngor fenthycio £10m o'r newydd yn ystod y flwyddyn i gefnogi ei gynlluniau gwario cyfalaf ac i fanteisio ar gyfraddau benthycio ffafriol. Mae sefyllfa trysorlys y cyngor yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gydol y flwyddyn. Dyled y Cyngor ar 31 Mawrth 2014 oedd £142m a'r balansau buddsoddi oedd £32.5m.

### **Polisiâu Cyfrifo a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)**

Mae'r Polisiâu Cyfrifo wedi'u nodi yn llawn yn Nodyn 1 y cyfrifon. Dyma'r pumed flwyddyn y mae cyfrifon y Cyngor wedi'u cynhyrchu i gydymffurfio â safonau rhyngwladol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol. Mae'r Cod wedi mabwysiadu'r newidiadau i IAS 19 – Buddiannau Gweithwyr, ac, o ganlyniad, mae gofyn i'r Cyngor mewid ei bolisi cyfrifo ar gyfer Buddiannau Gweithwyr. Mae'r newid wedi cyflwyno dosbarthiadau newydd o gydrannau costau buddiannau diffiniedig i'w cydnabod yn y cyfrifon a diffiniadau newydd o feini prawf cydnabod ar gyfer costau gwasanaeth a buddiannau terfynu cyflogaeth. Nid yw'r newid hwn yn cael effaith ar sefyllfa ariannol y Cyngor na'r fantolen, fodd bynnag, mae addasiadau wedi eu gwneud, sy'n gofyn am ailddatgan Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn 2012/13, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r nodiadau priodol i'r cyfrifon. Mae'r newidiadau hyn wedi eu nodi yn Nodyn 50 y Cyfrifon.

### **Swyddogaethau Statudol**

Doedd dim newidiadau sylweddol i swyddogaethau statudol y Cyngor yn ystod 2014/15.

### **Digwyddiadau Tywydd Eithafol**

Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae'r Cyngor wedi gorfod delio â llifogydd sylweddol. Ym mis Rhagfyr 2013, dioddefodd rannau o'r Rhyl ddifrod sylweddol yn sgil llifogydd arfordirol. Cost delio'r â'r llifogydd oedd oddeutu £72k ond roedd angen gwaith



cyfalaf sylweddol i drwsio a gwella'r isadeiledd a'r amddiffynfeydd arfordirol. Derbyniwyd oddeutu £1m gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith yma.

**MMI**

Daeth Cwmni Yswiriant Mutual Municipal Insurance Co. (MMI) i ben yn 1992. MMI oedd prif yswiriwr tua 95% o gynghorau lleol yn y DU, gan gynnwys awdurdodau oedd yn bodoli cyn Sir Ddinbych. Gan fod MMI yn gwmni oedd o dan berchnogaeth gilyddol aelodau ei awdurdod lleol, yr aelodau sy'n gyfrifol am yr ymrwymadau (hawlio) sy'n codi o ddigwyddiadau cyn 1992. Mae effaith hawliau yn parhau i godi, ynghyd â'r dirywiad yn yr enillion o fuddsoddiadau gan olygu bod y rhai sy'n gweinyddu materion MMI yn rhagamcanu efallai na fydd gan y cwmni ddigon o adnoddau i ariannu'r holl hawliau yn y dyfodol, gan olygu y bydd yn rhaid i'r aelodau blaenorol gyfrannu at y diffyg.

Mae darpariaeth wedi'i wneud yng nghyfrifon 2014/15 i gynnwys yr ymrwymiad a ragwelwyd fel y cynghorwyd gan y rhai sy'n gweinyddu materion MMI ond mae posibilrwydd y bydd yr ymrwymadau yn cynyddu yn y dyfodol.

**Y Cynllun Corfforaethol**

Yn ystod 2012/13, ymrwymodd y Cyngor i gyflawni Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol oedd yn bwriadu darparu buddsoddiad o dros £120m mewn ysgolion, cyfleusterau gofal cymdeithasol a ffyrdd dros y pump i saith mlynedd i ddod. Bydd ariannu allanol yn cyfrannu at gyfanswm cost buddsoddiad mewn ysgolion a ffyrdd ond mae'r Cynllun yn dibynnu ar adnoddau mewnol i ariannu benthyciad ac i ddarparu arian. Bydd buddsoddiad o'r fath yn helpu i wella gwasanaethau allweddol ond nid yw hyn heb risg ac felly mae mesurau wedi'u sefydlu i asesu darpariaeth a fforddiadwyedd y cynllun yn barhaus.

Yn 2013/14, datblygwyd prosiectau unigol o fewn y Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys buddsoddiad mewn priffyrdd a phontydd ac ysgolion. Roedd y gwariant ar brosiectau'r Cynllun Corfforaethol yn £5.2m yn 2013/14 a rhagwelir y bydd yn £15.7m yn 2014/15.

**Edrych i'r Dyfodol**

Mae'n debygol y bydd setliadau cyllid y llywodraeth leol yn lleihau ymhellach yn y tair i bum mlynedd sydd i ddod felly bydd yn rhaid lleihau'r swm mae'r Cyngor yn ei wario bob blwyddyn yn unol â hynny. Bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd iawn i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ymdopi gyda'r arian sydd ar gael. Fel rhan o broses bennu cyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2015/16 ac i'r dyfodol, bydd yr holl wasanaethau yn cael eu hadolygu er mwyn penderfynu sut y bydd gwasanaethau yn cael eu darparu yn y dyfodol. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn disgrifio'r broses hon mewn mwy o fanylder.

**Richard Weigh**  
**Prif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151)**

**ADRAN 2 - DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU**

**Cyfrifoldebau'r Cyngor Sir**

Mae'n rhaid i'r Cyngor Sir:

- (i) wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y Prif Swyddog Cyllid yw'r unigolyn hwnnw;
- (ii) rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau a diogelu ei asedau;
- (iii) cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

**TYSTYSGRIF YR AWDURDOD**

Rwy'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ddinbych.

Llofnod..... Dyddiad:.....

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol â'r arferion priodol a nodwyd yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- (i) dewis polisiau cyfrifo addas a'u cymhwyso yn gyson;
- (ii) gwneud dyfarniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- (iii) cydymffurfio â Chod yr awdurdod lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

- (i) cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfredol;
- (ii) cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

**Tystysgrif: Prif Swyddog Cyllid**

Rwy'n tystio bod y cyfrifon a gyflwynwyd yn rhoi trosolwg gwirioneddol a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar y dyddiad rhoi gwybod a'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015.

**Richard Weigh**  
**Prif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151)**

**Dyddiad**

**ADRAN 3:  
DATGANIADAU  
ARIANNOL  
A  
NODIADAU  
YNGLŶN Â'R  
CYFRIFON  
2014/15**

## Cynnwys

Nodyn	Tudalen
Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn	15
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	17
Y Fantolen	19
Datganiad Llif Arian	22
Nodyn 1 Polisiâu Cyfrifo	23
Nodyn 2 Safonau Cyfrifo sydd wedi'u Cyflwyno ond heb eu Mabwysiadu eto	41
Nodyn 3 Dyfarniad Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifo	41
Nodyn 4 Tybiaethau am y Dyfodol a Ffynonellau Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif Mawr	42
Nodyn 5 Eitemau o Incwm a Gwariant Materol	44
Nodyn 6 Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen	44
Nodyn 7 Addasiadau Rhwng y Sail Cyfrifo ar Sail Ariannu dan y Rheoliadau	45
Nodyn 8 Gwariant Gweithredu Arall	50
Nodyn 9 Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	50
Nodyn 10 Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	50
Nodyn 11 Treth y Cyngor	50
Nodyn 12 Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)	51
Nodyn 13 Eiddo, Peiriannau ac Offer	52
Nodyn 14 Eiddo Buddsoddi	58
Nodyn 15 Offerynnau Ariannol	59
Nodyn 16 Dyledwyr	61
Nodyn 17 Arian a Chywerthoedd Arian Parod	62
Nodyn 18 Asedau ar Werth	62
Nodyn 19 Credydwyr	62
Nodyn 20 Darpariaethau	63
Nodyn 21 Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd	64
Nodyn 22 Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	67
Nodyn 23 Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio	70
Nodyn 24 Datganiad Llif Arian - Gweithgarwch Gweithredu	75
Nodyn 25 Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Buddsoddi	75
Nodyn 26 Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Ariannu	76
Nodyn 27 Symiau a Adroddwyd ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu adnoddau	76
Nodyn 28 Gweithgareddau Masnachu	82
Nodyn 29 Gwasanaethau Asiantaeth	84
Nodyn 30 Lwfansau Aelodau	85
Nodyn 31 Tâl Swyddogion	85
Nodyn 32 Costau Archwilio Allanol	89
Nodyn 33 Incwm Grant	90
Nodyn 34 Partïon Cysylltiedig	91
Nodyn 35 Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf	95
Nodyn 36 Prydlesau	96
Nodyn 37 Cynlluniau Ariannu Preifat a Chytundebau Tebyg	98
Nodyn 38 Cynlluniau Pensiwn y Rhoddir Cyfrif Amdanynt fel Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig	99
Nodyn 39 Cynlluniau Pensiwn Budd a Ddiffiniwyd	100
Nodyn 40 Rhwymedigaethau Amodol	106
Nodyn 41 Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol	107
Nodyn 42 Asedau Treftadaeth	111
Nodyn 43 Asedau Treftadaeth: Crynodeb Trafodion Pum Mlynedd	113

<b>Nodyn</b>	<b>Tudalen</b>
Nodyn 44 Asedau Treftadaeth: Gwybodaeth Bellach ar y Casgliad Amgueddfeydd	113

**Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yng ngwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi'u dadansoddi yn 'gronfeydd y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai sy'n cael eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r llinell (Arian dros ben) neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, ac mae'r manylion wedi'u dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n berthnasol i Falans Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer pwrpasau sefydlu treth y cyngor a rhent. Mae'r Cynnydd/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i'r llinell cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor statudol a'r Balans Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor.

	Nodyn	Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn			Cronfeydd Cyfalaf		Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000	Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000
		Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniada u Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000			
<b>Balans ar 31 Mawrth 2013</b>		<b>(9,798)</b>	<b>(34,524)</b>	<b>(1,046)</b>	<b>(2,797)</b>	<b>(3,577)*</b>	<b>(51,742)</b>	<b>(84,411)</b>	<b>(136,153)</b>
<b>Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2013/14</b>									
(Arian Dros Ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau	CI&E	2,836		903			3,739		3,739
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	CI&E							(19,756)	(19,756)
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		<b>2,836</b>		<b>903</b>			<b>3,739</b>	<b>(19,756)</b>	<b>(16,017)</b>
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	7	(10,065)		(1,144)	341	593	(10,275)	10,275	
Cynnydd/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	22	(7,229)		(241)	341	593	(6,535)	(9,481)	(16,017)
		7,111	(7,111)				0		
<b>Cynnydd/Lleihad yn 2013/14</b>		<b>(118)</b>	<b>(7,111)</b>	<b>(241)</b>	<b>341</b>	<b>593</b>	<b>(6,536)</b>	<b>(9,481)</b>	<b>(16,017)</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2014</b>		<b>(9,916)</b>	<b>(41,635)</b>	<b>(1,287)</b>	<b>(2,456)</b>	<b>(2,984)</b>	<b>(58,278)</b>	<b>(93,892)</b>	<b>(152,170)</b>

\*Mae balans agoriadol Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso ar gyfer 31 Mawrth 2013 wedi cael ei leihau gan £50k er mwyn gwahardd grant Cynllun Tai i Gartrefi, a ddylai fod wedi cael ei drin fel asiantaeth yng nghyfrifion 2012/13.

	Nodyn	Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn			Cronfeydd Cyfalaf		Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000	Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000
		Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniada u Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000			
<b>Balans ar 31 Mawrth 2014</b>		<b>(9,916)</b>	<b>(41,635)</b>	<b>(1,287)</b>	<b>(2,456)</b>	<b>(2,984)</b>	<b>(58,278)</b>	<b>(93,892)</b>	<b>(152,170)</b>
<b>Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2013/14</b> (Arian Dros Ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau	CI&E	7,104		4,438			11,542		11,542
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	CI&E							30,203	30,203
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		<b>7,104</b>		<b>4,438</b>			<b>11,542</b>	<b>30,203</b>	<b>41,745</b>
Adasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	7	(12,296)		(5,083)	(559)	1,349	(16,589)	16,589	
Cynydd/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		<b>(5,192)</b>		<b>(645)</b>	(559)	1,349	<b>(5,047)</b>	<b>46,792</b>	<b>41,745</b>
Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	22	5,954	(6,034)	80			0		
<b>Cynnydd/Lleihad yn 2014/15</b>		<b>762</b>	<b>(6,034)</b>	<b>(565)</b>	<b>(559)</b>	<b>1,349</b>	<b>(5,047)</b>	<b>46,792</b>	<b>41,745</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2015</b>		<b>(9,154)</b>	<b>(47,669)</b>	<b>(1,852)</b>	<b>(3,015)</b>	<b>(1,635)</b>	<b>(63,325)</b>	<b>(47,100)</b>	<b>(110,425)</b>



## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad yn dangos y gost gyfrifeg yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifeg a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifeg. Mae'r sefyllfa trethiant wedi'i dangos yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

2013/14				2014/15			
Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000		Nodyn	Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
13,152	(1,669)	11,483	Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd		13,179	(1,970)	11,209
19,502	(7,838)	11,664	Gwasanaethau Diwylliannol a Pherthnasol		18,060	(6,194)	11,866
116,552	(24,475)	92,077	Gwasanaethau Plant ac Addysg		122,148	(24,526)	97,622
18,379	(9,146)	9,233	Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddio		17,238	(7,273)	9,965
23,875	(11,223)	12,652	Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant		16,971	(6,821)	10,150
14,461	(12,749)	1,712	Tai Awdurdod Lleol (CRT)		18,349	(13,092)	5,257
39,788	(37,130)	2,658	Gwasanaethau Tai		40,012	(38,893)	1,119
53,685	(18,073)	35,612	Gofal Cymdeithasol Oedolion		52,917	(18,441)	34,476
5,017	(2,139)	2,878	Gwasanaethau Cynllunio		5,875	(2,238)	3,637
20,041	(6,387)	13,654	Craidd Corfforaethol a Democrataidd		11,481	(3,753)	7,728
277	0	277	Costau heb eu Dosbarthu		492		492
324,729	(130,829)	193,900	Cost y Gwasanaethau		316,722	(123,201)	193,521
15,517	0	15,517	Gwariant Gweithredu Arall	8	13,897	(407)	13,490
19,680	(698)	18,982	Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu	9	19,089	(786)	18,303
	(224,660)	(224,660)	Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	10		(213,772)	(213,772)
		<b>3,739</b>	<b>(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau*</b>				<b>11,542</b>

2013/14				2014/15			
Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000		Nodyn	Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
		7,355	(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar adbriso asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer	23			(20,796)
		2,955	Colledion amhariad ar asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n berthnasol i'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn				3,351
		(30,066)	Ail-fesur atebolwydd budd net a ddiffiniwyd /(Ased)	39			47,648
		<b>(19,756)</b>	<b>Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall</b>				<b>30,203</b>
		<b>(16,017)</b>	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>				<b>41,745</b>

\* Gellir dod o hyd i ddadansoddiad goddrychol o'r Incwm a'r Gwariant sydd wedi'u cynnwys yn yr (Arian Dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn Nodyn 27 Symiau y Rhoddwyd Gwybod Amdanynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau.

**Y Fantolen**

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r dyledion sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai dyledion) yn cael eu cydweddu â'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn eu dal. Adroddir ynglŷn â chronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn ac ar unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn na ellir ei defnyddio ond i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Mae'r ail gategori o gronfeydd wrth gefn yn rhai na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion sydd heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Adbriso Wrth Gefn), ble y deuai symiau ar gael i ddarparu gwasanaeth dim ond os gwerthir yr asedau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a gaiff eu dangos yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido o dan reoliadau' yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

31 Mawrth 2014 £000		Nodyn	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2015 £000
120,050	Anheddau Cyngor		107,187	
189,210	Tir ac Adeiladau Eraill		197,926	
6,937	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer		6,096	
106,422	Isadeiledd		113,786	
4,120	Asedau Cymunedol		2,647	
5,829	Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd		10,393	
1,799	Asedau Dros Ben na chânt eu Dal i'w Gwerthu		2,067	
434,367	Eiddo, Peiriannau ac Offer	13	440,102	
9,078	Asedau Treftadaeth	42	9,023	
10,042	Eiddo Buddsoddi	14	8,375	
7	Buddsoddiadau Hirdymor	15	5	
987	Dyledwyr Hirdymor	15	915	
<b>454,481</b>	<b>ASEDAU HIRDYMOR</b>			<b>458,420</b>
24,074	Buddsoddiadau Byrdymor	15	23,386	
1,121	Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu (<1bl)	18	5,168	
1,524	Rhestrau Eiddo		1,264	
23,714	Dyledwyr Byrdymor	16	32,264	
8,836	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	17	2,373	
<b>59,269</b>	<b>ASEDAU CYFREDOL</b>			<b>64,455</b>
(8,118)	Benthyciadau Tymor Byr	15	(5,135)	
(25,946)	Credydwyr Byrdymor	19	(25,454)	
(817)	Darpariaethau	20	(733)	
(2,441)	Darpariaeth ar gyfer Absenoldebau Cronedig	20	(2,834)	
(2,490)	Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw	33	(1,953)	
(1,731)	Grantiau Cyfalaf A Dderbyniwyd Ymlaen Llaw	33	(1,802)	
<b>(41,543)</b>	<b>DYLEDION PRESENNOL</b>			<b>(37,911)</b>

31 Mawrth 2014 £000		Nodyn	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2015 £000
(9,684)	Credydwyr Hirdymor	15	(9,528)	
(3,302)	Darpariaethau	20	(473)	
(134,090)	Benthyciadau Hirdymor	15	(140,202)	
(172,961)	Dyledion Hirdymor Eraill	23	(224,336)	
0	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw	33	0	
<b>(320,037)</b>	<b>DYLEDION HIRDYMOR</b>			<b>(374,539)</b>
<b>152,170</b>	<b>ASEDAU NET</b>			<b>110,425</b>
(9,916)	Cronfa'r Cyngor		(9,154)	
(41,635)	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi		(47,669)	
(1,287)	Cyfrif Refeniw Tai		(1,852)	
(2,456)	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf		(3,015)	
(2,984)	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso		(1,635)	
<b>(58,278)</b>	<b>Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio</b>	22		<b>(63,325)</b>
(62,878)	Y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn		(77,190)	
172,961	Y Gronfa Bensignau Wrth Gefn		224,336	
(206,756)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		(197,429)	
(1)	Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig		0	
341	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol		349	
2,441	Cyfrif Absenoldebau Digolledol Cronedig Byrdymor		2,834	
<b>(93,892)</b>	<b>Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio</b>	23		<b>(47,100)</b>
<b>(152,170)</b>	<b>CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN</b>			<b>(110,425)</b>

**Datganiad Llif Arian**

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newid mewn arian parod a chywerthoedd arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod rhoi gwybod. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chywerthoedd arian parod, drwy ddosbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu'n ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Cyngor yn cael eu hariannu drwy drethiant ac incwm grant, neu gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lifoedd arian parod wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau sydd wedi'u bwriadu i gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n codi o weithgareddau ariannol yn ddefnyddiol i ragweld hawliau ar lifoedd arian y dyfodol drwy ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthycia) i'r Cyngor.

Tudalen 100

2013/14 £000		Nodyn	2014/15 £000
3,739 (28,877)	Net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau Addasiadau i net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad yw'n arian parod		11,542 (21,182)
557	Addasiadau i eitemau a gynhwysir yn y net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu		2,036
<b>(24,581)</b>	<b>Llifoedd arian net gan Weithgareddau Gweithredol</b>	24	<b>(7,604)</b>
37,632 (10,833)	Gweithgareddau Buddsoddi Gweithgareddau Cyllido	25 26	15,241 (1,174)
<b>2,218</b>	<b>(Cynnydd) neu leihad net mewn arian parod neu gywerthoedd arian parod</b>		<b>6,463</b>
11,054 (2,218)	Arian parod neu drafodion sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod rhoi gwybod Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod		8,836 (6,463)
8,836	Arian parod neu gywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod rhoi gwybod	17	2,373

## **Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon**

### **1. Polisiau Cyfrifo**

#### **i. Egwyddorion Cyffredinol**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn o 31 Mawrth 2015. Mae gofyn i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon Blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, y mae'r Rheoliadau hynny'n gofyn iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014/15' (y Cod) yn bennaf, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Mae'r confensiwn cyfrifo a fabwysiadir yn y Datganiad Cyfrifon yn gost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbriso categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Adroddiadau Gwasanaeth 2014/15 (SERCOP), sy'n sefydlu arferion priodol mewn perthynas ag adrodd cyson ynghylch arian islaw lefel y Datganiad Cyfrifon a phenderfynu ar gyfanswm cost y gwasanaethau.

Mae cyflwyniad y Cyngor o'r cyfrifon yn cydymffurfio â mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r Prif Datganiadau yn cynnwys:

- Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn
- Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- Y Fantolen
- Datganiad Llif Arian

#### **ii. Cyfrifyddu ar gyfer Ysgolion yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cadarnhau bod y cydbwysedd rheoli ar gyfer ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol (h.y. y categorïau hynny o ysgol a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd) yn gorwedd gyda'r awdurdod lleol.

Mae y cod hefyd yn nodi bod asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llifau arian parod yr ysgolion yna yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol yr awdurdod lleol.

Felly mae trafodion, llifau arian parod a balansau ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol yr awdurdod fel pe baent yn drafodion, llifau arian a balansau yr awdurdod.

#### **iii. Croniadau Incwm a Gwariant**

Cyfrifir gweithgaredd ar gyfer y flwyddyn y caiff ei gynnal, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Caiff ffioedd, taliadau a rhenti gan gwsmeriaid eu cyfrif fel incwm ar y dyddiad y mae'r Cyngor yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.
- Caiff cyflenwadau o nwyddau a gwasanaethau eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio. Lle ceir bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a phryd y cânt eu defnyddio, cânt eu cario fel rhestr eiddo ar y Fantolen.
- Cyfrifir y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail cyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na llifoedd arian sydd wedi'u gosod neu eu penderfynu gan y contract.
- Lle cydnabyddir incwm a gwariant ond nad ydyw arian parod wedi'i dderbyn neu ei dalu, cofnodir y dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ar y Fantolen. Lle ceir amheuaeth y caiff dyledion eu setlo, ysgrifennir balans y dyledwyr i lawr a gwneir tâl i refeniw am yr incwm na fydd yn cael ei gasglu o bosibl.

#### **iv . Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod**

Caiff arian parod ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw ac arian parod a gedwir mewn cyfrifon adnau sy'n ad-daladwy ar orchymyn. Mae cywerthoedd arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth. Mae hyn yn golygu bod 'Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod' yn cynnwys arian parod a gedwir mewn banc, cyfrifon adnau ar alw a chyfrifon galw mynediad uniongyrchol.

#### **v. Codi taliadau ar Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol**

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cefnogi a chyfrifon masnachu eu debydu â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiad i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- colledion ailbrisiad a lleihad yng ngwerth asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronodig yn y Gronfa Adbrisiad wrth gefn y gall y colledion gael eu dileu yn eu herbyn
- amorteiddio asedau sefydlog annirweddol i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i ariannu dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae gofyn iddo roi cyfraniad ariannol o refeniw tuag at leihad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol sy'n gyfystyr â swm a gyfrifir ar sail darbodus a benderfynir gan y Cyngor yn unol â chanllaw statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio eu disodli gan gyfraniad ym Malans Cronfa'r Cyngor (MRP) drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.



**vi. Buddiannau Gweithwyr**

**Buddiannau'n daladwy yn ystod cyflogaeth**

Yn ogystal â chyflogau a thâl, gall y buddiannau tymor byr i weithwyr gynnwys gwyliau blynyddol â thâl i weithwyr cyfredol. O ganlyniad, gwneir cronriad ar gyfer cost hawliau gwyliau (neu unrhyw ffurf o absenoldeb, e.e. amser mewn llaw) a enillir gan weithwyr ond nid wedi'u cymryd cyn diwedd y flwyddyn, ac y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar y cyfraddau cyflog a thâl cymwys yn y flwyddyn gyfrifo ganlynol, sef y cyfnod y gall y gweithiwr gymryd y budd. Caiff y cronriad ei godi ar yr Arian dros Ben neu Ddiffyg yn Narpariaeth y Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth gefn fel bod buddiannau gwyliau'n cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd.

**Buddiannau Dod â Swydd i Ben**

Mae buddiannau dod â swydd i ben yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad gan y swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol, ac yn cael eu codi ar sail cronriad i'r llinell gwasanaeth addas yn unol â'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn gynt na phryd na chaiff yr awdurdod bellach dynnu'r cynigion buddion yn ôl neu bryd y bydd yr awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Lle bydd buddiannau dod â swydd i ben yn cynnwys codi pensiynau, mae darpariaethau statudol yn gofyn i falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn Natganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen dyraniadau i a gan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddion pensiwn wrth ddod â swydd i ben, a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn.

**Buddiannau ar ôl cyflogaeth**

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita neu ar ran yr Adran Addysg (DfE).
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Darparodd y ddau gynllun fuddiannau wedi'u diffinio i aelodau (cyfandaliadau a phensiynau ymddeoliad), a enillwyd gan weithwyr sydd wedi gweithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr athrawon yn golygu na all y rhwymedigaeth i'r buddiannau hyn gael eu pennu ar y Cyngor fel arfer. Cyfrifir y cynllun felly fel pe bai'n gynllun cyfrannu wedi'i ddiffinio, ac nid yw'r Fantolen yn nodi unrhyw rwymedigaeth i dalu'r buddiannau hyn yn y dyfodol. Caiff llinell y Gwasanaethau Plant

ac Addysg yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei chodi gyda chyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Pensiynau Athrawon yn y flwyddyn.

### **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Caiff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei gyfrif fel cynllun buddiannau wedi'i ddiffinio:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Clwyd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraiddd drwy ddefnyddio'r dull uned wedi'i rhagamcanu – h.y. asesiad o daliadau'r dyfodol a wneir mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiad gweithwyr ac ati, ac amcangyfrifon enillion wedi'u rhagamcanu ar gyfer gweithwyr cyfredol.
- Mae rhwymedigaethau yn cael disgownt i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.3%.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd sy'n cael eu priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen am eu pris teg:
  - gwarannau wedi'u dyfynnu – pris cynnig cyfredol
  - gwarannau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
  - gwarannau unedol – pris cynnig cyfredol
  - eiddo – gwerth y farchnad.
- Caiff y newid yn rhwymedigaeth pensiynau net ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

#### Cost gwasanaeth yn cynnwys

- cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillir eleni - wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau roedd y gweithwyr yn gweithio iddynt
- cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau yn codi o benderfyniadau'r flwyddyn hon y mae eu heffeithiau yn ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol – wedi'i debydu i'r Arian Dros Ben neu'r Diffyg mewn Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau Na Ddosbarthwyd.
- cost llog – y cynnydd disgwylidig yng ngwerth cyfredol y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth iddynt fod flwyddyn yn nes at gael eu talu - wedi'i debydu i'r Llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn unol â Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd ostyngol a ddefnyddiwyd i fesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod - gan ystyried unrhyw newid yn y rhwymedigaeth net budd diffiniedig yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniad a thalu buddion.

Ail-fesur yn cynnwys:

- Adenillion ar asedau cynlluniau - ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net ar yr atebolrwydd buddiannau diffiniedig net - tâl i'r Gronfa Bensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall
- Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad ydyw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwaraidd wedi diweddarau eu rhagdybiaethau - wedi'u codi i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall.
- cyfraniadau wedi'u talu i Gronfa Bensiwn Clwyd – arian parod wedi'i dalu fel cyfraniadau gweithiwr i'r gronfa bensiwn

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn i Falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod dyraniadau i a gan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn, felly'n mesur yr effaith fuddiol ar Gronfa'r Cyngor sydd angen cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llifoedd arian yn hytrach, na buddiannau a enillir gan weithwyr.

### **Buddiannau â Disgresiwn**

Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn, mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir iddynt godi o ganlyniad i roi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon), yn cael eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad, ac yn cael ei gyfrif drwy ddefnyddio'r un polisiau ag sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### **vii. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod rhoi gwybod a'r dyddiad yr awdurdoddir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth amodau a fodolodd ar ddiwedd y cyfnod rhoi gwybod – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod rhoi gwybod - nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith faterol, gwneir datgeliad yn nodiadau'r natur o ddigwyddiadau a'u heffaith ariannol fel y cawsant eu hamcangyfrif.

Nid yw digwyddiadau a gynhaliwyd ar ôl dyddiad awdurdodi'r cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

**viii. Offerynnau Ariannol****Dyledion Ariannol**

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg ac yn cael eu cario ar gost wedi'u hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd log effeithiol yw'r gyfradd sy'n union ddisgownt o'r taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn, i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Mae'r enillion a cholledion ar adbrynu neu setlo benthyciadau yn gynnar yn cael eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu'n digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu yn ôl eu trefn o gost wedi'i amorteiddio y benthyciad newydd neu'n un wedi'i addasu, ac mae'r ysgrifennu i lawr i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad drwy addasu'r gyfradd log effeithiol.

Lle mae premiymau neu ddisgowntiau wedi cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o ledaenu'r enillion neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu. Mae'r cysoniad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

**Asedau Ariannol**

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu i ddau fath:

- benthyciadau a symiau derbyniadwy – asedau gyda thaliadau sy'n sefydlog neu wedi'u penderfynu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol
- asedion sy'n barod i'w gwerthu – asedau gyda phris wedi'i ddyfynnu ar y farchnad a/neu ddim gyda thaliadau sefydlog neu wedi'u penderfynu

**Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy**

Cydnabyddir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg. Maent yn cael eu mesur wedyn ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau mae'r Cyngor wedi'i wneud, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ddyledus ac yn dderbyniadwy (ynghyd â llog cronodig) a'r llog sydd wedi'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a dderbynnir ar gyfer y flwyddyn yn y cytundeb benthyciad.

Pan amharwyd ar asedau oherwydd y tebygolrwydd sy'n codi o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei ysgrifennu i lawr a thâl yn cael ei godi ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw) neu'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hwn. Mae colled yr amhariad yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio ar gyfradd log wreiddiol yr ased.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ddatgydnabod yr ased yn cael ei gredydu neu ei ddebydu i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Benthyciad Meddal**

Mae benthyciad meddal yn fenthyciad y mae'r Cyngor wedi'i roi i gorff allanol am gyfradd llog sy'n is na chyfradd y farchnad. Yn yr achos hwn, mae angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Fodd bynnag, os ystyrir bod maint y trafodyn yn de-minimis, nid oes angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Mae'r Cyngor wedi gosod y lefel de-minimis hon am £150k ar gyfer bob benthyciad unigol a roddir.

**ix. Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau**

Os ydynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti a rhoddion yn cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor pan mae sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u hatodi i'r taliadau
- y derbynnir y grant neu'r cyfraniadau.

Nid yw'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bydd amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Amodiad yw'r amodau sy'n nodi bod y manteision economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sydd wedi'u hymgorffori yn yr ased a gafwyd drwy ddefnyddio'r grant neu gyfraniad sy'n gorfod cael ei ddefnyddio gan y derbynnydd fel y nodir, neu bydd yn rhaid dychwelyd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddwyd fel blaendal fel grantiau a chyfraniadau lle nad yw'r amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau wedi'u bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredu i'r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli), neu Drethiant ac Incwm Grant nad ydyw'n Benodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad ydyw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle bydd wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

#### **x. Asedau Treftadaeth**

##### **Asedau Treftadaeth Diriaethol ac Anniriaethol (disgrifir yn y crynodeb hwn o bolisiau cyfrifo sylweddol fel Asedau Treftadaeth)**

Cedwir Asedau Treftadaeth y Cyngor mewn nifer o safleoedd. Mae gan Amgueddfa'r Rhyl (o fewn Llyfrgell y Rhyl), Carchar Rhuthun a Phlas Newydd gasgliadau parhaol. Mae'r ddau ddiwethaf yn benodol i safle, gan adrodd straeon am yr eiddo a'u preswylwyr, tra bod casgliad y Rhyl yn archwilio pob agwedd ar y dref a'i hamgylchedd. Mae arddangosfa Treftadaeth flynyddol yn cael ei chodi am fis yn Llyfrgell Dinbych. Mae ardal arddangos dros dro yn Amgueddfa'r Rhyl, a newidir bob chwarter, ac un yn Nantclwyd y Dre. Mae cofadail rhestredig, Castell Dinas Brân, hefyd yn Sir Ddinbych.

Cedwir casgliadau o Asedau Treftadaeth i gefnogi prif amcan amgueddfeydd y Cyngor h.y. gofalu am dreftadaeth Sir Ddinbych, ei gwneud yn hygyrch i bawb drwy ysbrydoli, dysgu a mwynhau.

Cydnabyddir Asedau Treftadaeth a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbriso) yn unol â pholisiau cyfrifo'r Cyngor ar eiddo, cyfarpar ac offer. Fodd bynnag, mae rhai o'r rheolau mesur wedi'u llacio mewn perthynas ag Asedau Treftadaeth wrth i'r Cyngor ystyried y byddai cael prisiadau ar gyfer casgliadau yn cynnwys cost anghyfartal o'i gymharu â'r buddion a ddarperir i ddefnyddwyr datganiadau ariannol. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau a gedwir a'r diffyg mewn gwerthoedd tebyg. Mae'r casgliadau'n gymharol sefydlog ac nid oes unrhyw gaffaeliadau diweddar neu roddion.

Mae'r holl waith gofalu am gasgliadau yn cydymffurfio â safonau Comisiynu Amgueddfeydd a Galerïau. Ystyrir oes asedau'r casgliadau yn amhenodol oherwydd gwaith ataliol a gynhaliwyd gan Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych, ac oherwydd natur yr eitemau dan sylw. Felly nid ydyw'n addas newid y dibrisiad.

Mae'r Cyngor yn cadw at ganllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar waredu.

**xi. Cysylltiadau â Chwmnïau ac Endidau Eraill**

Mae gan y Cyngor hwn ddiddordebau mewn sawl cwmni, fodd bynnag ni ystyrir unrhyw un o'r rhain yn faterol ac nid yw cyfrifo grŵp wedi'u paratoi. Dangosir manylion pellach yn y nodiadau i'r cyfrifon.

**xii. Rhestrau Eiddo**

Caiff storfeydd y Gwasanaethau Amgylcheddol eu prisio am bris prynu cyfartalog. Cydnabyddir nad ydyw hyn yn cydymffurfio â'r Cod, sydd angen rhestrau eiddo i gael eu prisio ar raddfa is y gost a gwerth sylweddoladwy net. Mae hyn oherwydd y cyfyngiadau gyda'r feddalwedd gyfrifiadurol a ddefnyddir gan y storfeydd ac sy'n annhebygol o newid yn y tymor byr. Mae'r rhestr eiddo yng Ngofal Iechyd Cefndy yn cael ei phrisio ar bris y gost ddiweddaraf yn hytrach na'i hasesu rhwng y gost a gwerth sylweddoladwy net ac sydd felly'n gwyo o'r Cod. Mae hyn i adlewyrchu'r anwadalrwydd gyda rhai o'r gwerthoedd nwyddau dan sylw, ac ystyrir ei fod yn ddull prisio rhesymol. Mae Storfa Offer y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i ddatblygu gyda'r GIG. I gydymffurfio gydag arfer cyffredinol ar gyfer offer o'r fath, caiff y rhestr eiddo ei thrin fel eitem referniw.

Caiff pob Rhestr Eiddo arall ei chynnwys yn y Fantolen ar raddfa is y gost a gwerth sylweddoladwy.

**xiii. Eiddo Buddsoddi**

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent a/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

Mesurir eiddo buddsoddi ar y dechrau ar sail cost ac yn ddiweddarach ar sail gwerth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased rhwng partion gwybodus hyd braich. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond fe'u hadbrisir yn flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae unrhyw enillion neu golledion yn cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn berthnasol i enillion a cholledion ar waredu.

Mae rhent a dderbynnir mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrisio a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly caiff enillion a cholledion eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau gwerthiant dros £10,000), i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

**xiv. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd**

Gweithrediadau ar y cyd yw gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw gan y Cyngor ar y cyd â mentrwyr eraill, sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr, yn hytrach

na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn nodi yn ei Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwariant a'r incwm o weithgaredd unrhyw weithrediad o'r fath.

#### **xv. Prydlesau**

Caiff prydlesau eu dosbarthu fel prydlesau cyllid, lle bydd telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol pob risg a gwobr sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, peiriannau neu offer gan y prydleswr i'r prydlesai. Caiff pob prydles arall ei dosbarthu fel prydles weithredu.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladu, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân er mwyn eu dosbarthu.

Caiff trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl eu cyfrif dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

#### **Y Cyngor fel Prydlesai**

##### Prydlesau Ariannol

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol taliadau isafswm y brydles, os ydynt yn is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei baru gan ddyled am y rhwymedigaeth i dalu'r prydleswr. Caiff costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor eu hychwanegu at swm cludo'r ased. Caiff premiymau a delir wrth ddechrau prydles eu rhoi wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles. Caiff rhenti amodol eu nodi fel treuliau yn y cyfnodau perthnasol.

Caiff taliadau prydlesau eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles, a
- thâl cyllid (caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir dan brydlesau ariannol eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisiâu a ddefnyddir yn gyffredinol gydag asedau o'r fath, yn amodol ar godi tâl dibrisio dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol a amcangyfrifir yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i dalu dibrisiad neu ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth sy'n codi ar asedau ar brydles. Yn hytrach, gwneir cyfraniad doeth blynyddol o gyllid refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor, drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.



### Prydlesau Gweithredu

Caiff rhent a delir dan brydlesau gweithredu eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost y gwasanaethau sy'n manteisio ar ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer ar brydles.

### **Y Cyngor fel Prydleswr**

#### Prydlesau Ariannol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu beiriannau neu offer, caiff yr ased perthnasol ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau neu Offer neu Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei ddiddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu), wedi' baru gan ased prydles (dyledwr hirdymor) ar y Fantolen.

Caiff rhent prydlesau derbyniadwy eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer - fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles yn gynnwys unrhyw breimymau a dderbyniwyd, a
- incwm cyllid (caiff ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaiff yr enilliad a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth ei waredu ei ganiatáu drwy statud i gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae angen ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi'i dderbyn, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan gaiff y swm dyledus o ran ased y brydles ei setlo gan daliad rhent mewn blynyddoedd ariannol y dyfodol, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan dderbynnir rhent y dyfodol, defnyddir yr elfen ar gyfer y derbyniadau cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr dyledwr y brydles. Yn y cam hwn, caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau anghyfredol yn cael eu talu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

### Prydlesau Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo neu beiriant neu offer, caiff yr ased ei gadw yn y Fantolen. Caiff incwm rhentu ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**xvi. Refeniw Anghyfnewid***Cydnabod Refeniw o Draffodion Anghyfnewid*

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o draffodion anghyfnewid eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 Cyfrifo Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ar wahân i pan gânt eu dehongli neu eu haddasu i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus fel y cânt eu hegluro yn y Cod a/neu IPSAS 23, "Refeniw o Draffodion Digyfnewid (Trethi a Throsglwyddiadau)

Traffodion trethi

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o draffodion trethi eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r digwyddiad trethadwy'n digwydd, cyn belled â bod yr asedau yn bodloni diffiniad ased ac yn bodloni meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel ased.

Traffodion anhrethadwy

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o draffodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod y bydd y trefniad trosglwyddo yn rhwymo. Ni chaiff gwasanaethau mewn nwyddau eu cydnabod.

Pan fo trosglwyddiad yn amodol ar amodau sy'n golygu bod angen dychwelyd yr adnoddau a drosglwyddwyd os na chânt eu bodloni, bydd yr awdurdod yn cydnabod dyled nes i'r amod gael ei fodloni.

*Sail Mesur Dosbarthiadau Refeniw Mawr o Draffodion Anghyfnewid*

Caiff refeniw trethu ei fesur ar werth enwol arian parod, a chywerthoedd arian parod.

Caiff asedau a refeniw a gydnabyddir o ganlyniad i drosglwyddiad eu mesur ar werth teg yr asedau a gydnabyddir ar ddyddiad y cydnabod:

- Caiff asedau ariannol eu mesur ar eu gwerth enwol oni bai bo gwerth amser arian yn berthnasol, a phryd hynny, defnyddir gwerth presennol, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ostyngol sy'n adlewyrchu'r risg cynhenid o gadw'r ased; a
- Caiff asedau anariannol eu mesur ar eu gwerth teg, a bennir drwy gyfeirio at werthoedd arsylladwy'r farchnad neu drwy arfarniad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Caiff symiau derbyniadwy eu cydnabod pan fo trefniant trosglwyddo sy'n rhwymo ar waith ond nad yw arian parod neu asedau eraill wedi'u derbyn.

**xvii. Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**

Caiff costau gorbenion a gwasanaethau cymorth eu codi ar y rhai sy'n manteisio ar gyflenwad neu wasanaeth yn unol ag egwyddorion prisio *Cod Ymarfer Adrodd Gwasanaeth CIPFA 2014/15* (SERCOP). Caiff costau llawn gorbenion a gwasanaethau cymorth eu rhannu rhwng defnyddwyr mewn cyfrannedd â'r manteision a ddefnyddir

gan sawl methodoleg gan gynnwys cofnodi amser, nifer yr eitemau a ddefnyddir ac ati. Yr unig gostau na chodir ar y gwasanaethau yw:

- Y Craidd Corfforaethol a Democrataidd – costau sy'n gysylltiedig â statws y Cyngor fel sefydliad amlswyddogaeth a democrataidd.
- Costau Heb Eu Dosbarthu – cost manteision dewisol a roddir i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar a cholledion amhariad y gellir eu codi ar Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Mae'r ddau gategori cost hyn yn cael eu diffinio yn SERCOP a chânt eu cyfrif fel penawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Wariant Net ar Wasanaethau Parhaus.

### **xviii. Addasiadau Cyfnodau Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall addasiadau cyfnodau blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo eu cyfrif yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd presennol a'r dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau i bolisiâu cyfrifo oni bai bo angen drwy arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i ddefnyddio bob amser.

Caiff gwallau materol yn ffigurau'r cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

### **xix. Eiddo, Peiriannau ac Offer**

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac y'u cedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail cronadau, cyn belled â'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial y gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal potensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu ato (h.y. trwsio a chynnal a chadw) ei godi fel gwariant pan fydd yn digwydd.

Mesuriad

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, gan gynnwys:

- pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu yn y modd y mae'r rheolwyr yn ei fwriadu
- amcangyfrif cychwynnol costau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae wedi'i leoli arno.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ddaw tra bo asedau yn cael eu hadeiladu.

Bernir bod cost asedau a gafaelir ar wahân i'w prynu yn werth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan fo ased yn cael ei gaffael drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cludo'r ased a roddir gan y Cyngor.

Yna caiff asedau eu cludo yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol dibrisiedig
- anheddau – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol
- pob ased arall – gwerth teg, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol).

Pan nad oes tystiolaeth o'r farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir costau amnewid dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo, oes ddefnyddiol fyr neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel dirprwy ar gyfer gwerth teg.

Mae adbriso dilynol o ran asedau anghyfredol wedi'u cynllunio fel rhan o asesiad parhaus er mwyn i bob ased gael ei adbriso cyn pen pum mlynedd o'i brisiad blaenorol, er y bydd newidiadau materol i brisiad asedau yn cael eu haddasu yn y cyfnod dros dro wrth iddynt ddigwydd. Cafodd 20% o asedau'r Cyngor eu hadbriso yn ystod 2014/15. Caiff cynnydd o ran prisiadau eu paru gan gredydau i'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i gydnabod enillion na wireddwyd. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi o wrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth o'r blaen.

Pan nodir lleihad o ran gwerth, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwynnw (hyd at swm yr enillion cronodig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Adbrisió Wrth Gefn yn cynnwys enillion adbrisió a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae enillion a godwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

### Amhariad

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai amhariad fod ar ased. Pan fo arwyddion yn bodoli a phan amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn faterol, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif, a phan fo hyn yn llai na swm cludo'r ased, caiff swm amhariad ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbrisió ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbrisió Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronodig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbrisió Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan gaiff colled amhariad ei wrthdroi o ganlyniad, caiff y gwrthdroi ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiad a fyddai wedi'i godi pe na bai'r golled wedi'i chydabod.

### Dibrisiad

Darperir ar gyfer dibrisiad ar bob ased Eiddo, Peiriannau ac Offer gan ddyraniad systematig eu symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau nad oes ganddynt oes ddefnyddiol feidraidd y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliad ac asedau cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiad ar y sail ganlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill - dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo yn ôl amcangyfrif y prisiwr
- cerbydau, peiriannau, dodrefn ac offer – dull llinell syth
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros 40 mlynedd.

### Cydrannu

Pan fo gan ased Eiddo, Peiriant ac Offer gydrannau mawr sydd â chost sylweddol o ran cyfanswm cost yr eitem, caiff y gydrannau eu dibrisio ar wahân.

Ar asedau dros £750,000 byddem yn ystyried cydrannu elfen os yw'n ymddangos yn briodol i roi gwerth ar wahân h.y. os yw elfen o'r ased hwnnw yn heneiddio ar gyfradd anghymesurol sylweddol o gymharu â gweddill yr adeilad a lle mae cost y gydran yn sylweddol (h.y. 20% o gyfanswm cost yr ased) mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased.

Caiff enillion adbriso eu dibrisio hefyd, gyda swm sydd gyfwerth â'r gwahaniaethau rhwng dibrisiad gwerth presennol a godir ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a gânt eu Dal i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cludo ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a gaiff ei Dal i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbriso'n syth cyn eil ailddosbarthu ac yna caiff ei gario ar y swm isaf a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo lleihad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion o ran gwerth teg eu cydnabod hyd at swm unrhyw golledion blaenorol yn unig a gydnabyddir yn y Gwarged neu Golled ar Darpariaeth Gwasanaethau. Ni chaiff dibrisiad ei godi ar Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Os na fydd asedau yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu bellach, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol a'u prisio ar swm isaf eu swm cludo cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau a gânt eu dal i'w Gwerthu; cânt eu haddasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddio neu adbriso a fyddai wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adenilladwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Ni chaiff asedau a gaiff eu gadael neu eu sgrapio eu hailddosbarthu fel Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddatgomisiynu, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriant, Offer neu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei diddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff derbyniadau o warediadau (os oes rhai), eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu). Caiff unrhyw enillion adbriso a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad mwy na £10,000 eu dosbarthu fel derbyniadau cyfalaf. Mae angen i dderbynebau gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir eu defnyddio, neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu (y Nawdd Cyfalaf Gofynnol). Caiff derbynebau eu hadfeddu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael ei dalu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

**xx. Menter Cyllid Preifat (PFI)**

Mae contractau PFI yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau lle mae'r cyfrifoldeb am ddarparu'r eiddo, peiriannau ac offer sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn trosglwyddo i gontractwr y PFI. Oherwydd y bernir bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan ei gynlluniau PFI, ac oherwydd y bydd perchnogaeth yr eiddo, peiriannau ac offer yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contractau am ddim tal ychwanegol, mae'r Cyngor yn cario'r asedau a ddefnyddir dan y contractau ar ei Fantolen fel rhan o Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Llofnodwyd contract PFI ar gyfer darparu llety swyddfa i'r Cyngor yn Rhuthun am 25 mlynedd yn 2002/03. Dechreuodd y gwasanaeth ym mis Mai 2004. Cydbwyswyd cydnabod yr asedau anghyfredol hyn trwy gydnabod atebolrwydd am symiau'n ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau.

Mae'r asedau anghyfredol a gydnabyddir ar y Fantolen yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un dull ag eiddo, peiriannau ac offer y mae'r Cyngor yn berchennog arnynt.

Mae'r symiau sy'n daladwy i weithredwyr y PFI bob blwyddyn yn cael eu dadansoddi dan 5 pennawd:

- gwerth teg y gwasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn – debydwyd i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- tâl cyllid – tâl llog o 6.19% ar y ddyled sy'n ddyledus ar y Fantolen, caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- rhent amodol – cynnydd yn y swm i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, a ddebydir i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- taliad tuag at ddyled – sy'n berthnasol i ysgrifennu i lawr dyled y Fantolen tuag at weithredwr y PFI (caiff proffil ysgrifennu i lawr ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un egwyddorion ag ar gyfer prydles ariannol)
- costau disodli cylch oes - caiff cyfran o'r symiau taladwy ei phostio i'r Fantolen fel rhagdaliad ac yna caiff ei chydabod fel ychwanegiadau i Eiddo, Peiriannau ac Offer pan gaiff y gwaith perthnasol ei wneud.

**xxi. Darpariaethau, Dyledion Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn****Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, y mae'n fwy na thebyg, angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm y rhwymedigaeth honno.

Codir tâl am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, fe'u codir o'r ddarpariaeth sydd eisoes yn y Fantolen. Caiff setliadau a amcangyfrifwyd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol - pan ddaw'n llai na thebygol y bydd bellach angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu fod setliad is na'r hyn a ddisgwylid yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei dychwelyd a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl i beth, neu'r cyfan, o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth gael ei adfer gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), dim ond pan fo'n bron yn sicr y caiff ad-daliad ei dderbyn os bydd y cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y caiff hyn ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol.

### **Darpariaeth ar gyfer Ôl-daliadau Cyflog yn deillio o Hawliadau am Dâl Anghyfartal**

Mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaeth am gostau setlo achosion am ôl-dâl sy'n deillio o daliadau gwahaniaethol a wnaed cyn i'r Awdurdod weithredu ei strategaeth cyflogau cyfartal.

### **Dyledion Digwyddiadol**

Mae dyled ddigwyddiadol yn digwydd pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Awdurdod na ellir cadarnhau ei bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Mae dyledion digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau pan wneid darpariaeth fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw dyledion digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond yn cael eu datgelu mewn nodyn ynglŷn â'r cyfrifon.

### **Asedau Digwyddiadol**

Mae ased digwyddiadol yn digwydd pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased bosibl i'r Awdurdod na ellir cadarnhau ei bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Nid yw asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond yn cael eu datgelu mewn nodyn ynglŷn â'r cyfrifon pan fydd yn debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

## **xxii. Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol wrth gefn er dibenion polisïau yn y dyfodol neu ar gyfer treuliau annisgwyl. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy ddosrannu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

## **xxiii. Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud**

Codir am wariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei wneud yn gyfalaf o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant i



gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol yn ystod y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chostau'r gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycia, yna bydd trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau y codwyd amdanynt yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oed unrhyw effaith ar lefel treth y cyngor.

#### **xxiv. TAW**

Caiff TAW taladwy ei gynnwys fel gwariant dim ond cyhyd ac nad oes modd ei adfer gan Adran Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW derbyniadwy ei eithrio o'r incwm.

### **2. Safonau Cyfrifo sydd wedi'u Cyflwyno ond heb eu Mabwysiadu eto**

Mae Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015/16 (y Cod) wedi cyflwyno nifer o newidiadau i bolisiau cyfrifeg. Bydd y newidiadau canlynol yn dod i rym 1 Ebrill 2015:

- SAARh 13 Mesur Gwerth Teg – mae'r safon hon, sy'n gofyn am gymhwysiad arfaethedig, yn cyflwyno diffiniad cyson o Werth Teg. Bydd angen cynnwys datgeliadau o fewn datganiadau ariannol yr awdurdodau os yw'r safon yn cael effaith faterol ar y Datganiad o Gyfrifon. Bydd mabwysiadu'r safon hon yn golygu mesur Asedau Dros Ben yn ôl gwerth y farchnad yn hytrach na'u gwerth defnydd presennol, fel y maent ar hyn o bryd. Bydd Eiddo ac Offer gweithredol yn parhau i gael eu prisio yn ôl eu gwerth defnydd presennol -tai cymdeithasol neu gost adnewyddu a ddibrisiwyd. O ganlyniad, oherwydd gwerth isel yr Asedau Dros Ben a ddelir gan y Cyngor, nid yw'r safon hon yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Datganiad o Gyfrifon, er y gall fod datgeliadau ychwanegol.
- Ardollau IFRIC 21 – Mae'r dehongliad hwn yn rhoi canllawiau ynghylch pryd y dylid cydnabod atebolrwydd ar gyfer ardoll a osodir gan lywodraeth. Mae'n cwmpasu cyfrifeg ar gyfer all-lifau a osodir ar endidau gan lywodraeth. Nid yw'r newid hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Datganiad o Gyfrifon.
- Gwelliannau Blynyddol i'r SAARhau (Cylch 2011 – 2013). Man welliannau yw'r rhain, yn bennaf i ddarparu eglurhad, ac nid ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

### **3. Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiau Cyfrifo**

Wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifo a amlinellir yn Nodyn 1, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud rhai dyfarniadau ynglŷn â thrafodaethau cymhleth neu'r rheiny sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau'r dyfodol. Y dyfarniadau beirniadol a wneir yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- **Cynllun Ariannu Preifat** – Ystyrir bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau Cynlluniau Ariannu Preifat a hefyd ei fod yn rheoli gwerth gweddilliol yr ased ar ddiwedd y contract. Mae'r polisi cyfrifo ar gyfer y Cynllun Ariannu Preifat (Swyddfeydd Neuadd y Sir) a chontractau tebyg wedi cael ei gymhwyso i'r trefniadau hyn a chaiff yr asedau eu cydnabod fel Eiddo,

Peiriannau ac Offer ym Mantolen y Cyngor. Mae'r nodyn 37 ynglŷn â'r cyfrifon yn rhoi manylion pellach.

- **Dosbarthiad Prydlesau** – Yn flaenorol mae'r Cyngor wedi cynnal dadansoddiad i ddsbarthu'r prydlesau y mae'n eu dal, fel prydlesai ac fel prydleswr, naill ai'n gweithredu neu'n ariannu prydlesau. Mae'r polisi cyfrifo ar gyfer prydlesau wedi cael ei gymhwysu i'r trefniadau hyn a chaiff asedau ychwanegol eu cydnabod fel Eiddo, Peiriannau ac Offer ym Mantolen y Cyngor. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn Nodyn 36 ynglŷn â'r Cyfrifon.
- **Prisio'r Stoc Tai** – Y sail prisio a gafodd ei fabwysiadu at ddibenion cyfrifo o dan Safon Cyfrifo Rhyngwladol 16 (Eiddo, Peiriannau ac Offer) yw Gwerth Teg ac ystyrir o dan God Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mai Gwerth Defnydd Presennol fel Tai Cymdeithasol yw hyn. Y fethodoleg prisio a gymhwyswyd yw'r Gwerth Meddiant Gwag Wedi'i Addasu (a adwaenir fel y Dull Goleufa).

Mae'r dull hwn yn ceisio gosod gwerth ar gyfer yr ased, yn seiliedig ar Werth Teg (gwerth y farchnad) gan gymryd fod 'meddiant gwag' o'r ased sydd yna'n cael ei amrywio i adlewyrchu defnydd yr ased fel tŷ cymdeithasol sydd eisoes â thenant. Egwyddorion gwaelodol y dull hwn yw:

- Caiff ased cynrychioladol ei defnyddio fel arfer fel sail i brisio set o asedau tebyg.
- Penderfynir ar Werth Teg yr ased (gwerth y farchnad) o dystiolaeth ynglŷn â gwerthiant eiddo cymharol. Mae hyn yn rhoi gwerth 'meddiant gwag'.
- Caiff elfen o ddisgownt ei roi ar werth y farchnad i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng rhenti / arenillion y sector preifat a rhenti / arenillion y sector tai cymdeithasol. Bwriedir i hyn adlewyrchu'r llifoedd arian gwahaniaethol a fyddai'n digwydd rhwng y ddau fath o landlord o ystyried fod eisoes denant yn yr eiddo a bod unrhyw werth datblygol yn cael ei anwybyddu (fel y caiff parhad y defnydd presennol ei gymryd yn ganiataol o dan Gwerth Defnydd Presennol).

Mae'r Cyngor wedi ei fodloni fod y cyfrannau a ddefnyddir i gyfrifo'r gwerthoedd yn defnyddio'r Dull Goleufa yn rhesymol ac yn gyson â phrisiadau blaenorol. Ar hyn o bryd nid oes canllawiau yng Nghymru sy'n diffinio'r cyfrannau o fewn y fethodoleg hon yn benodol, y mae rhai ohonynt yn dibynnu ar ddyfarniadau proffesiynol sy'n benodol i amgylchiadau lleol.

O ran y datganiadau ariannol, mae gan Dai Cyngor werth llyfr net o £107,187k fel ar 31 Mawrth 2015 (£120,050k ar 31 Mawrth 2014) yn unol â Nodyn 13 - *Eiddo, Peiriannau ac Offer*.

#### 4. Tybiaethau a Wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif Mawr

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys rhai ffigyrau wedi'u hamcangyfrif sydd wedi eu seilio ar dybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynglŷn â'r dyfodol neu sydd fel arall ag ansicrwydd yn perthyn iddynt. Amcangyfrifir trwy roi cyfrif o brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu'r

balansau â sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau a oedd ym Mantolen Y Cyngor ar 31 Mawrth 2015 y mae rhyw gymaint o risg y byddant yn addasu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf fel a ganlyn:

### **Eiddo, Peiriannau ac Offer**

Dibrisir asedau yn ystod eu hoes ddefnyddiol sy'n ddibynnol ar dybiaethau ynglŷn â lefelau atgyweirio a chynnal a chadw a wneir yn y dyfodol mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn ansicr y bydd modd i'r Cyngor gynnal ei wariant presennol ar atgyweirio a chynnal a chadw, gan beri amheuaeth ynglŷn â hyd yr oes ddefnyddiol sydd wedi ei bennu i rai o'r asedau. Os cwtogir oes ddefnyddiol ased, mae'r dibrisiad yn cynyddu ac mae swm cario'r ased yn gostwng. Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu hailbrizio yn ysbeidiol a'u profi'n flynyddol am ddangosyddion o amhariad. Mae angen dyfarniadau i wneud asesiad p'un ai bod dangosydd o amhariad neu beidio. Mae'r profiad amhariad yn cynnwys archwilio'r gwariant cyfalaf a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol i ganfod p'un ai i hynny arwain at gynnydd yng ngwerth ased neu at amharu â'r gwerth hwnnw. Cafodd cyngor ei roi i briswyr y cyngor. Os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r tybiaethau, bydd gwerth asedau Eiddo Peiriannau ac Offer wedi cael eu datgan yn rhy uchel neu'n rhy isel. Byddai hyn yn cael ei amrywio y tro nesaf y byddai'r asedau'n cael eu prisio.

Gwerth yr Eiddo, y Peiriannau a'r Offer a ddatgelir ar y Fantolen yw £436,185k a cheir rhagor o wybodaeth o fewn Nodyn 13.

### **Dyled Pensiwn**

Mae'r amcangyfrif o'r ddyled net er mwyn talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau yn ymwneud â chyfradd y disgownt a ddefnyddir, y gyfradd yr amcanestynir y bydd cyflogau'n cynyddu, newid mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwoldeb a'r adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiynau. Defnyddir cwmni o actiwariaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol i'r Cyngor ynglŷn â'r tybiaethau y dylid eu cymhwyso.

Gwerth y ddyled pensiwn a'r gronfa pensiynau wrth gefn gyfatebol sydd wedi ei datgelu ar y Fantolen yw £224,336k. Mae gwybodaeth fanwl wedi ei chynnwys o fewn Nodiadau 23, 38 a 39.

### **Croniad Buddiannau Gweithwyr**

Cyfrifwyd croniad buddiannau gweithwyr (gwyliau blynyddol ac amser hyblyg) ar sail sampl o weithwyr. Balans y Cyfrif Absenoldeb Cronnol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2015 oedd £2,834k a manylir ynglŷn â hynny yn Nodyn 23.

### **Ôl-ddyledion**

Cynhaliwyd adolygiad o ddyled sydd heb ei thalu a gwnaed lwfans ar gyfer dyledion ag amheuaeth yn eu cylch. Rhaid i unrhyw lwfans a wneir ar gyfer dyledion i'r dyfodol y mae amheuaeth yn eu cylch fod wedi eu seilio ar amcangyfrif. Mae'r lwfans a wnaed yn

un doeth ond gan nad yw'r holl newidiadau i'r gyfundrefn les wedi'u gweithredu hyd yn hyn efallai y bydd angen adolygu'r lwfans y flwyddyn nesaf.

Mae'r cyngor yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer drwgddyledion a darpariaethau penodol mewn perthynas â Threth y Cyngor (Nodyn 11), Trethi Annomestig Cenedlaethol (Nodyn 12) a Rhenti Tai (Nodyn 2 y Cyfrif Refeniw Tai)

#### **5. Eitemau o Incwm a Gwariant Materol**

Pan na ddatgelir eitemau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r nodiadau perthnasol, mae natur a swm yr eitemau materol yn ymddangos yn y nodyn hwn ynglŷn â'r cyfrifon. Nid oes eitemau o'r fath i adrodd yn eu cylch gogyfer â 2014/15.

#### **6. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon gan y Prif Swyddog Cyllid ym mis Medi 2015. Nid yw digwyddiadau sydd wedi digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol nac yn y nodiadau. Pan fo digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag amodau a oedd mewn bodolaeth ar 31 Mawrth 2015, yna bydd y ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r rhai o fewn y nodiadau wedi cael ei hamrywio ym mhob ffordd yn faterol i adlewyrchu traweffaith yr wybodaeth hon.

Rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad adrodd mae y trafodiad canlynol wedi digwydd.

#### **Cyfrif Refeniw Tai - Adolygiad Cymhorthdal Tai**

Ar Ebrill 2, 2015, gorffenodd y system Cymhorthdal Tai yng Nghymru. O dan y system gymhorthdal, penderfynodd y Llywodraeth faint o rent y dylid ei gadw yn lleol gan gyngorhau, gyda'r gweddill yn cael ei dalu fel cymhorthdal i Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi wedi dod i gytundeb i ganiatau i'r un ar ddeg o awdurdodau yng Nghymru sydd gyda stoc o dai cyngor i ddod allan o system gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (C.R.T.) ac i ddod yn hunan-gyllidol o Ebrill 2015.

Mae gan y cytundeb dwy ran; yn gyntaf roedd yn ofynnol i awdurdodau i brynu eu ffordd allan o system gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai bresennol drwy dalu ffigur setliad unwaith ac am byth i Drysorlys Ei Mawrhydi, ac yn ail mae Awdurdodau wedi cytuno i gap ar fenthyca C.R.T.

Mae pob un o'r un ar ddeg o awdurdodau tai wedi i ymrwymo i'r cytundeb a daeth y system gymhorthdal i ben yn Ebrill 2015. Ffigur setliad y cymgor oedd £40,045k, ac yn unol â gofynion Trysorlys E.M. benthycwyd y swm gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar Ebrill 2, 2015.

#### **Cytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat**

Daeth y Cytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat sy'n cwmpasu Neuadd y Sir, Rhuthun ac adeiladau cysylltiedig i ben ar Ddydd Gwener, Medi 4ydd. Cymerodd y Cyngor y camau hyn i arbed arian dros weddill tymor y contract a oedd yn dod i ben yn 2029. O ganlyniad i derfynu'r Cytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat, mae swm o iawndal yn daladwy i'r cwmni a ddelir y Cytundeb Menter Cyllid Preifat. Nid oedd y swm terfynol

wedi ei gytuno eto ond disgwylir iddo fod o fewn ystod o werthoedd ariannol disgwyliedig yn unol â achos busness y Cyngor ar gyfer terfynu.

## **7. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau**

Mae'r nodyn hwn yn manylu ynglŷn â'r addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr y mae'n Cyngor yn eu cydnabod yn ystod y flwyddyn yn unol â'r arferion cyfrifeg priodol ynglŷn â'r adnoddau hynny sydd wedi eu pennu gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod eu defnyddio i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw.

Mae'r canlynol yn amlinellu disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu haddasu.

### **Balans Cronfa'r Cyngor**

Cronfa'r Cyngor yw'r gronfa statudol y mae'n rhaid talu holl dderbyniadau'r awdurdod iddi ac y mae'n rhaid cwrdd â holl ddyledion yr awdurdod ohoni, ar wahân i'r graddau y bod rheolau statudol yn dweud yn wahanol. Gall y rheolau hyn hefyd nodi ym mha flwyddyn ariannol y dylai dyledion a thaliadau effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor, nad yw o anghenraid yn unol â'r arfer gyfrifeg briodol. Mae Balans Cronfa'r Cyngor felly'n crynhoi'r adnoddau y mae gan y Cyngor y grym statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiadau cyfalaf yn niwedd y flwyddyn ariannol. I awdurdodau tai, fodd bynnag, nid yw'r balans ar gael i'w gymhwyso i ariannu gwasanaethau'r Cyfrif Refeniw Tai.

### **Balans y Cyfrif Refeniw Tai**

Mae Balans y Cyfrif Refeniw Tai yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth statudol i gynnal cyfrif refeniw ar gyfer darpariaeth tai cyngor awdurdod lleol yn unol â Rhan VI Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'n cynnwys balans yr incwm a'r gwariant fel sydd wedi ei ddiffinio gan Ddeddf 1989 sydd ar gael i ariannu gwariant mewn perthynas â swyddogaeth y Cyngor fel landlord.

### **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf**

2013/14 £000		2014/15 £000
<b>336</b>	<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>341</b>
5	Cyfran y premiymau/gostyngiadau a wariwyd/a gafwyd yn y blynyddoedd ariannol blaenorol i'w bilio/credydu i Falans Cronfa'r Cyngor yn unol â'r gofynion statudol	8
5	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng costau ariannu y codir tâl amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r costau ariannu y codir tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.	8
<b>341</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>349</b>

**Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn**

Mae'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn cynnwys gwahaniaeth amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifo ar gyfer buddion ar ôl cyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fuddion ar ôl cyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r buddion gael eu hennill gan weithwyr dros flynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddarau'r atebolrwydd i adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Ond, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i ariannu manteision a enillwyd oherwydd bod y Cyngor yn gwneud cyfraniad y cyflogwr i'r gronfa bensiwn neu'n talu unrhyw bensiwn y mae'n gyfrifol amdano yn uniongyrchol. Felly, mae balans debyd y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y manteision a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i'w diwallu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod arian wedi'i neilltuo erbyn amser talu'r buddion.

2013/14 £000		2014/15 £000
<b>196,202</b>	<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>172,961</b>
(30,066)	Ailfesur y rhwymedigaeth buddiannau net a ddiffinnir	47,648
21,822	Newid eitemau mewn perthynas â buddiannau ymddeol sydd wedi eu debydu neu eu credydu i'r arian dros ben neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:	19,907
(14,997)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn daladwy yn y flwyddyn	(16,180)
<b>172,961</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>224,336</b>

### Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Mae Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn ymwneud ag incwm y dyfodol fydd yn cael ei dderbyn gan ddyledwyr tymor hir lle nad oedd y blaenswm gwreiddiol wedi'i ariannu gan fenthyca. Mae'r rhain wedi codi pan mae'r Cyngor wedi rhoi morgeisi i gyn denantiaid Tai Cyngor i'w galluogi i brynu eu cartrefi dan y cynllun 'Hawl i Brynu'. Ad-dalwyd y morgeisi terfynol yn ystod 2014/15.

2013/14 £000		2014/15 £000
<b>(6)</b>	<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>(1)</b>
	Trosglwyddiad enillion gwerthiannau gohiriedig a gredydwyd fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	
5	Trosglwyddiad i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ar dderbyn arian parod	1
<b>(1)</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>0</b>

### Cyfrif absenoldebau cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn cynnwys y gwahaniaethau fyddai'n codi fel arall ar Falans Cronfa'r Cyngor sy'n deillio o absenoldebau a enillwyd, ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod yr effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor wedi'i niwtralu gan drosglwyddiadau i neu o'r cyfrif.

2013/14 £000		2014/15 £000	2014/15 £000
<b>2,551</b>	<b>Balans ar 1 Ebrill</b>		<b>2,441</b>
(2,551)	Setlo neu ganslo'r cronid a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	(2,441)	
2,441	Symiau cronedig ar ddiwedd y flwyddyn bresennol	2,834	
(110)	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng tâl swyddogion y codir amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronnu, a'r tâl y codir amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.		393
<b>2,441</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth</b>		<b>2,834</b>

## 24. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredol

2013/14 £000		2014/15 £000
3,739	<b>Net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau Addasiadau i net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad yw'n arian parod</b>	11,542
(247)	Cynnydd/(Lleihad) Rhestrau Eiddo	(260)
(69)	Cynnydd/(Lleihad) Dyledwyr Hirdymor	(72)
(3,591)	Cynnydd/(Lleihad) Dyledwyr/Taliadau ymlaen llaw	5,442
60	Cynnydd/(Lleihad) mewn croniant llog buddsoddi	12
(456)	(Cynnydd)/Lleihad mewn Credydwyrr/Derbynebaw ymlaen llaw	1,679
(29)	(Cynnydd)/Lleihad mewn Croniant Llog Benthyciad	(27)
333	Trosglwyddiadau (i)/o'r Darpariaethau	2,520
(617)	Darpariaethau Dyledion Drwg	(346)
(21,996)	Dibrisiad	(21,232)
(8,786)	Colledion ailbriso Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Amhariad	(15,314)
(2,551)	Symudiadau yng ngwerth marchnad yr Eiddo Buddsoddi	(2,549)
(6,825)	Addasiadau i'r Gronfa Bensiwn	(3,727)
15,921	Arall	12,692
557	<b>Addasiadau i eitemau a gynhwysir yn y net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu</b>	
	Gwerthu Eiddo, Peiriannau ac Offer	2,036
<b>(24,581)</b>	<b>Llifoedd arian net gan Weithgareddau Gweithredol</b>	<b>(7,604)</b>

## 25. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi

2013/14 £000		2014/15 £000
40,680	Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	33,108
102,000	Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir.	231,600
149	Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau buddsoddi	78
(557)	Elw o werthiant eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol.	(2,036)
(78,000)	Elw o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir.	(232,302)
(26,640)	Derbynebaw eraill o weithgareddau buddsoddi	(15,207)
<b>37,632</b>	<b>Llifoedd arian net o Weithgareddau Buddsoddi</b>	<b>15,241</b>

## 26. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu

2013/14 £000		2014/15 £000
(10,015)	Derbynebau cyfalaf benthycu tymor byr a thymor hir	(10,000)
(2,586)	Derbynebau eraill o weithgareddau ariannu	
116	Taliadau i leihau'r ddyled sy'n weddill mewn perthynas â phrydlesau ariannol a chytundebau Cynllun Ariannu Preifat y fantolen	89
1,652	Ad-dalu benthycu tymor byr a thymor hir	6,908
0	Taliadau eraill ar gyfer gweithgarwch ariannu	1,829
<b>(10,833)</b>	<b>Llif arian net o weithgarwch ariannu</b>	<b>(1,174)</b>

## 27. Symiau y Rhoddwyd Gwybod Amdanynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau

Y dadansoddiad incwm a gwariant gan y gwasanaeth ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r hyn a nodwyd gan y Cod Ymarfer Rhoi Gwybod am Wasanaeth. Ond, bydd penderfyniadau ynglŷn â dyrannu adnoddau yn cael eu gwneud gan Gabinet y Cyngor ar sail yr adroddiadau cyllideb sy'n cael eu dadansoddi ar draws blociau gwasanaeth. Mae'r adroddiadau yn cael eu paratoi ar sail wahanol i'r polisiau cyfrifo a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol. Yn benodol:

- ni fydd ffioedd mewn perthynas â gwariant cyfalaf (lle bydd dibrisiadau, adbriso a cholledion nam sy'n fwy na'r balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn ac amorteiddiad yn cael eu codi ar wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)
- mae cost buddiannau ymddeol yn seiliedig ar lif arian (tal cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) yn hytrach na chostau gwasanaeth cyfredol buddiannau a gronnwyd yn y flwyddyn.
- mae gwariant ar rai gwasanaethau cefnogi wedi'u cyllidebu yn ganolog ac ni chodir tâl ar flociau gwasanaeth

Dyma incwm a gwariant prif flochiau gwasanaeth y Cyngor a gofnodwyd yn yr adroddiadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn:

<b>Incwm a Gwariant Bloc Gwasanaeth</b>	<b>Ysgolion</b>	<b>Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>	<b>Corfforaethol</b>	<b>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</b>	<b>Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Datblygiad Economaidd a Busnes</b>	<b>Cefnogaeth Addysg a Chwsmeriaid a Gwella Ysgolion a Chynhwysiant</b>	<b>Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden a Chynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b>	<b>Pob Bloc Gwasanaeth Arall</b>	<b>Cyfanswm</b>
<b>2014/15</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaeth	(5,190)	(14,645)	(35,154)	(10,667)	(1,556)	(8,042)	(8,878)	(7,880)	(92,012)
Grantiau llywodraeth	(7,243)	(772)	(273)	(1,961)	(1,576)	(2,677)	(562)	(422)	(15,486)
<b>Cyfanswm incwm</b>	<b>(12,433)</b>	<b>(15,417)</b>	<b>(35,427)</b>	<b>(12,628)</b>	<b>(3,132)</b>	<b>(10,719)</b>	<b>(9,440)</b>	<b>(8,302)</b>	<b>(107,498)</b>
Trefniant gweithwyr	59,219	15,093	2,417	7,000	5,253	9,212	10,501	14,255	122,950
Costau gwasanaeth eraill	17,754	32,368	48,885	24,361	7,248	8,308	7,605	7,454	153,983
Adaliadau gwasanaeth cefnogi									
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>76,973</b>	<b>47,461</b>	<b>51,302</b>	<b>31,361</b>	<b>12,501</b>	<b>17,520</b>	<b>18,106</b>	<b>21,709</b>	<b>276,933</b>
<b>Gwariant Net</b>	<b>64,540</b>	<b>32,044</b>	<b>15,875</b>	<b>18,733</b>	<b>9,369</b>	<b>6,801</b>	<b>8,666</b>	<b>13,407</b>	<b>169,435</b>

Incwm a Gwariant Bloc Gwasanaeth	Ysgolion	Gwasanaethau Oedolion a Busnes	Corfforaethol	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Tai a Datblygu Cymunedol	Cefnogaeth Addysg a Chwsmeriaid a Gwella Ysgolion a Chynhwysiant	Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden a Chynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Pob Bloc Gwasanaeth Arall	Cyfanswm
2013/14	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaeth	(2,960)	(10,794)	(34,529)	(13,987)	(2,042)	(6,723)	(7,981)	(8,704)	(87,720)
Grantiau llywodraethol	(7,190)	(3,035)	(33)	(497)	(448)	(2,240)	(416)	(3,314)	(17,173)
<b>Cyfanswm incwm</b>	<b>(10,150)</b>	<b>(13,829)</b>	<b>(34,562)</b>	<b>(14,484)</b>	<b>(2,490)</b>	<b>(8,963)</b>	<b>(8,397)</b>	<b>(12,018)</b>	<b>(104,893)</b>
Treuliau gweithwyr Cwm	56,310	14,657	2,336	8,729	5,898	8,217	9,835	13,967	119,949
Costau gwasanaeth eraill	16,956	32,539	49,530	25,656	6,351	7,523	7,273	9,625	155,453
Ad-daliadau gwasanaeth cefnogi	0	0	45	59	0	0	0	0	104
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>73,266</b>	<b>47,196</b>	<b>51,911</b>	<b>34,444</b>	<b>12,249</b>	<b>15,740</b>	<b>17,108</b>	<b>23,592</b>	<b>275,506</b>
<b>Gwariant Net</b>	<b>63,116</b>	<b>33,367</b>	<b>17,349</b>	<b>19,960</b>	<b>9,759</b>	<b>6,777</b>	<b>8,711</b>	<b>11,574</b>	<b>170,613</b>

### Cysoni Incwm a Gwariant Bloc Gwasanaeth gyda Chost Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cysoniad hwn yn dangos sut mae'r ffigyrau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant bloc gwasanaeth yn perthnasu â'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

	2013/14 £000	2014/15 £000
Gwariant net yn y Dadansoddiad Bloc Gwasanaeth	170,612	169,435
Gwariant net gwasanaethau a gwasanaethau cefnogi heb eu cynnwys yn y Dadansoddiad	26,643	25,051
Cyfrif Refeniw Tai	1,712	5,257
Symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr heb eu hadrodd i'r rheolwyr yn y Dadansoddiad	479	(2,690)
Symiau a gynhwyswyd yn y Dadansoddiad heb eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(5,546)	(3,532)
<b>Cost Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>193,900</b>	<b>193,521</b>

### Cysoni Dadansoddiadau Goddrychol

Mae'r cysoniad hwn yn dangos sut mae'r ffigyrau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant bloc gwasanaeth yn perthnasu â'r dadansoddiad goddrychol o'r Arian Dros Ben neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae pob grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi ei gynnwys yn y Llinell Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth: am fanylion pellach cyfeiriwch at Nodyn 33 – Incwm Grant os gwelwch yn dda. Mae'r grantiau, cyfraniadau a chymorthdaliadau a dderbyniwyd gan bob corff arall wedi eu cynnwys yn y llinell 'Ffioedd, Taliadau & Incwm Arall'.

2014/15	Dadansoddiad Bloc Gwasanaeth £000	Gwasanaethau a Gwasanaethau Cefnogi nad ydynt yn y Dadansoddiad £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Symiau yn y CI&ES Ond heb eu hadrodd i'r rheolwyr yn y Dadansoddiad £000	Symiau heb eu cynnwys yn y CI&ES £000	Dyranriad Ad-daliadau £000	Cost y Gwasanaethau £000	Symiau Corfforaethol £000	Cyfanswm £000
Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaeth	(92,012)	(15,738)	(13,092)	(22,067)	1,672	44,612	(96,625)		(96,625)
Incwm llog a buddsoddiadau								1,880	1,880
Incwm o dreth y cyngor				172			172	(53,810)	(53,638)
Grantiau a chyfraniadau Llywodraeth	(15,486)			(10,496)			(25,982)	(159,962)	(185,944)
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(107,498)</b>	<b>(15,738)</b>	<b>(13,092)</b>	<b>(32,391)</b>	<b>1,672</b>	<b>44,612</b>	<b>(122,435)</b>	<b>(211,892)</b>	<b>(334,327)</b>
Trefnoliau gweithwyr	122,950	(3,305)	2,640	4,924	(117)	(8,004)	119,088		119,088
Costau gwasanaeth eraill	153,983	643	5,262	24,322	(3,914)	(31,763)	148,533	(571)	147,962
Ad-daliadau Gwasanaeth Cefnogi		15,641	689	415		(3,969)	12,776		12,776
Dilosiad, amorteiddiad a nam		27,810	9,758			(876)	36,692		35,282
Taliadau llog				40	(1,173)		(1,133)	16,423	15,290
Praeseptau ac Lefiau								14,621	14,621
Enillion neu Golledion ar werthu Asedau nad ydynt yn Gyfredol								(560)	(560)
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>276,933</b>	<b>40,789</b>	<b>18,349</b>	<b>29,701</b>	<b>(5,204)</b>	<b>(44,612)</b>	<b>315,956</b>	<b>29,913</b>	<b>344,459</b>
<b>Arian Dros Ben neu Diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau</b>	<b>169,435</b>	<b>25,051</b>	<b>5,257</b>	<b>(2,690)</b>	<b>(3,532)</b>	<b>0</b>	<b>193,521</b>	<b>(181,979)</b>	<b>10,132</b>



2013/14	Dadansoddiad Bloc Gwasanaeth £000	Gwasanaethau a Gwasanaethau Cefnogi nad ydynt yn y Dadansoddiad £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Symiau yn y CI&ES Ond heb eu hadrodd i'r rheolwyr yn y Dadansoddiad £000	Symiau heb eu cynnwys yn y CI&ES £000	Dyraniad Ad-daliadau £000	Cost y Gwasanaethau £000	Symiau Corfforaethol £000	Cyfanswm £000
Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaeth	(87,720)	(3,771)	(12,749)	2,323	2,401	(15,912)	(115,428)		(115,428)
Incwm llog a buddsoddiadau								2,031	2,031
Incwm o dreth y cyngor				193			193	(51,946)	(51,753)
Grantiau a chyfraniadau Llywodraeth	(17,173)				1,579		(15,594)	(172,714)	(188,308)
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(104,893)</b>	<b>(3,771)</b>	<b>(12,749)</b>	<b>2,516</b>	<b>3,980</b>	<b>(15,912)</b>	<b>(130,829)</b>	<b>(222,629)</b>	<b>(353,458)</b>
Treuliau gweithwyr	119,953	(7,385)	2,203			12,408	127,179		127,179
Costau gwasanaeth eraill	155,448	16,676	5,696	(2,074)	(8,185)	(564)	166,997	325	167,322
Ad-daliadau Gwasanaeth Cefnogi	104	(2,063)	689			2,373	1,103		1,103
Dilysiad, amorteiddiad a nam		23,186	5,873			1,695	30,754		30,754
Taliadau llog				37	(1,341)		(1,304)	16,949	15,645
Præseptau ac Lefiau								14,560	14,560
Enillion neu Golledion ar werthu Asedau nad ydynt yn Gyfredol								634	634
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>275,505</b>	<b>30,414</b>	<b>14,461</b>	<b>(2,037)</b>	<b>(9,526)</b>	<b>15,912</b>	<b>324,729</b>	<b>32,468</b>	<b>357,197</b>
<b>Arian Dros Ben neu Diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau</b>	<b>170,612</b>	<b>26,643</b>	<b>1,712</b>	<b>479</b>	<b>(5,546)</b>	<b>0</b>	<b>193,900</b>	<b>(190,161)</b>	<b>3,739</b>

## 28. Gweithrediadau Masnachu

Ymgorfforir gweithrediadau masnachu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae rhai yn rhan greiddiol o un o wasanaethau'r Awdurdod i'r cyhoedd (ee casglu ysbwriel), tra bod eraill yn wasanaethau cefnogi i wasanaethau'r Awdurdod i'r cyhoedd (ee arlwyio ysgolion). Dyrennir ad-delir gwariant y gweithrediadau hyn i'r penawdau yng Ngwariant Gweithredu Net y Gweithrediadau Parhaus. Dim ond swm gweddillol o'r arian net dros ben ar weithrediadau masnachu gaiff ei dalu fel Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi (gweler Nodyn 9):

2013/14				2014/15		
Trosiant	Gwariant	(Arian dros ben) /Diffyg	GWEITHGARWCH	Trosiant	Gwariant	(Arian dros ben) /Diffyg
£000	£000	£000		£000	£000	£000
(508)	542	34	Gwasanaethau Amgylcheddol	(445)	453	8
(1,213)	1,198	(15)	Sign Shop	(1,210)	1,124	(86)
(2,895)	2,894	(1)	Glanhau Adeiladau	(2,818)	2,768	(50)
(4,616)	4,634	18	Arlwyio	(4,473)	4,345	(128)
			Cyfanswm Gwasanaethau Amgylcheddol			

Trefniadau Partneriaeth

Rheolir **Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (PPCC)** gan y Cyngor ac mae'n gyfrifol am weinyddu Rhybuddion Talu Cosb ar ran Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam, Sir Benfro, Powys, Ceredigion, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Sir y Fflint.

Mae'r Cyngor yn derbyn yr holl incwm ac yn talu symiau i bartneriaid yn seiliedig ar y nifer o Rybuddion a roddir. Mae'n cadw ffi weinyddol am y gwasanaeth hwn. Yn 2014/15 cododd y Cyngor £307k i weithredu'r Uned PPCC. Ad-dalwyd y swm fel a ganlyn: Sir Ddinbych £28k, Gwynedd £46k, Ynys Môn £5k, Wrecsam £18k, Sir Benfro £48k, Powys £19k, Ceredigion £35k, Pen-y-bont ar Ogwr £50k, Bro Morgannwg £33k a Sir y Fflint £25k.

**Prosiect Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru (PTGGGC)** - mae 5 awdurdod lleol (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd) wedi dod ynghyd i gaffael datrysiadau ar gyfer trin gwastraff gweddillol. Cyngor Sir y Fflint sy'n arwain ar y prosiect. Gan fod hwn yn drefniant pwyllgor ar y cyd, mae datganiadau ariannol ar wahân yn cael eu paratoi gan Gyngor Sir y Fflint. Yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol, dylai pob awdurdod gyfrifo eu rhan o'r asedau, dyledion, incwm a gwariant yn eu Datganiad Cyfrifon. Gwariant gros a wnaed gan y cydbwyllgor yn 14/15 oedd £419k (£783k yn 13/14). Cafwyd cyllid cyfatebol gan gyfraniadau cyfartal gan yr holl awdurdodau sy'n cyfranogi o £83.8k a grant gan Lywodraeth Cymru o £200k. Mae cyfran Sir Ddinbych o'r gwariant gros yn cael ei gofnodi dan Cost Net Gwasanaethau yn y Datganiad

Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnwys ei gyfran o'r asedau net o fewn ei ddatganiadau ariannol 2014/15 ar y sail bod y symiau hyn yn cael eu hystyried i fod yn amherthnasol

**Hwb Gwastraff Bwyd Dwyrain Gogledd Cymru** – Daeth cyfleuster gwastraff bwyd Biogen Y Waen yn gwbl weithredol ar ddiwedd mis Gorffennaf 2014. Mae'r 3 awdurdod lleol sy'n ffurfio'r Hwb (Conwy, Sir Ddinbych, a Sir Y Fflint) yn anfon tunelldd Isafswm Gwarantiedig cyfunol blynyddol dan gontract o 11,000 tonnelli i gael eu trin yng nghyfleuster y Waen. Yn 2014/15 gwariwyd cyfanswm a £627k o gostau cysylltiedig (mae hyn yn cynnwys y Cyfnod Gwasanaethau Interim cyn i'r prif safle ddod yn weithredol a Chyfnod y Prif Gontract). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £109k Cymorth Refeniw yn ystod 2014/15. Ym mis Gorffennaf 2014, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru £1,134k i'r Hwb ar gyfer Cyn-daliad am Wasanaethau, a drosglwyddwyd yn uniongyrchol ym mis Awst i Biogen Waen Cyfyngedig.

**Uned Cynllunio Rhag Argyfwng** – mae Sir Ddinbych yn cyfrannu tuag at gostau cynnal yr Uned Cynllunio Rhag Argyfwng a weithredir gan Gyngor Sir y Fflint. Cyfraniad Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2015 oedd £103k.

**Tîm Dyletswydd Brys Gogledd Cymru** – Mae'r Tîm Dyletswydd Brys yn ceisio darparu gwaith cymdeithasol brys o ansawdd uchel er mwyn ymateb i argyfyngau sy'n digwydd tu allan i oriau swyddfa arferol. Mae'r Tîm yn darparu gwasanaeth i bobl (plant ac oedolion) sydd mewn argyfwng ac yn byw yn siroedd Wrecsam, Sir y Fflint neu Sir Ddinbych. Yn 14/15 cyfraniad Sir Ddinbych oedd £236k.

**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych** – Partneriaeth statudol aml-asiantaeth yw Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych sy'n cael ei gynnal yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ei bwrpas yw atal plant a phobl ifanc rhag troseddu a diogelu eu lles, gwarchod y cyhoedd a chynorthwyo i adfer y difrod a achoswyd i ddiodefwyr eu troseddau. Yn 14/15 cafwyd cyfanswm o gostau ychwanegol o £168k.

**Taith (Consortiwm Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru)** – Cyngor Sir y Fflint yw'r corff arweiniol sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol y Cydbwyllgor hwn. Mae cyfran y Cyngor o'r incwm a'r gwariant (£16k) wedi ei nodi dan Cost Net Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ar sail poblogaeth. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnwys ei chyfran o'r asedau net hyn o fewn ei ddatganiadau ariannol 2014/15 ar y sail bod y symiau hyn yn cael eu hystyried i fod yn anfaterol.

**GwE** – Cyngor Gwynedd yw'r corff arweiniol sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol y Cydbwyllgor hwn. Cyfraniad y Cyngor ar gyfer 2014/15 oedd £539k. Mae'r datganiadau ariannol drafft 2014/15 ar gyfer GwE yn nodi diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau o £482k. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnwys ei chyfran o'r asedau net hyn o fewn ei ddatganiadau ariannol 2014/15 ar y sail bod y symiau hyn yn cael eu hystyried i fod yn anfaterol. Byddai cyfran y Cyngor o'r asedau net yn gyfartal i £666k yn seiliedig ar ganran o gyfraniad y Cyngor i'r cyd-bwyllgor (15.14%).

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy –** Sefydlwyd y cyd-bwyllgor hwn yn Mai 2015 gan 3 awdurdod lleol (Sir Ddinbych, Sir Y Fflint a Wrecsam) er mwyn hybu a gwella gwaith y A.H.N.E. Cyngor Sir Ddinbych yw'r corff arweiniol ar gyfer paratoi datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor. Cyfraniad Sir Ddinbych ar gyfer 2014/15 oedd £168k. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnwys ei gyfran o'r asedau net o fewn ei ddatganiadau ariannol yn 2014/15 ar y sail bod y symiau hyn yn cael eu hystyried i fod yn amherthnasol.

## **29. Gwasanaethau Asiantaeth**

Mae gwaith asiantaeth yr Awdurdod wedi'i fanylu isod: nid yw'r gwariant hwn wedi'i gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae Priffyrdd a Gwasanthaethau Amgylcheddol yn cyflawni gwaith Asiantaeth Gefnffyrdd Gogledd & Chanolbarth Cymru (AGGCC) ar ran Llywodraeth Cymru. Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer yr AGGCC. Cyngor Sir Ddinbych sy'n gyfrifol am gynnal a chadw rhwydwaith y cefnffyrdd yn y Sir ac mae Cyngor Sir Gwynedd yn ad-dalu'r Awdurdod am y gwaith hwn. Amcangyfrifir bydd yr Awdurdod yn derbyn £2,291k mewn perthynas â gwaith AGGCC a wnaed yn 2014/15 (£2,510k yn 2013/14): o hyn roedd £232k yn ymwneud â gwasanaethau goruchwyllo a gweinyddol a ddarparwyd (£326k yn 2013/14).

Mae chwe chyngor Gogledd Cymru'n gweithredu fel asiantau i Lywodraeth Cymru i ddarparu benthyciadau y gellir eu hailgylchu dan y cynllun Troi Tai'n Gartrefi, ar gyfer trwsio eiddo sydd wedi bod yn wag dros y tymor hir, gyda'r bwriad i'w defnyddio unwaith eto. Cyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod arweiniol/ bancio ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru ac yn gyfrifol am weinyddu'r gronfa. Derbyniodd Cyngor Sir Ddinbych un ad-daliad o £25k yn 2014/15, a dosbarthwyd benthyciadau pellach o £170k.

**Benthyciadau Gwella Cartrefi –** Datblygwyd y cynllun benthyciadau gwella cartrefi mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru, sy'n gweithredu fel asiantau Llywodraeth Cymru, fel ffordd o ddarparu arian ychwanegol i berchnogion/landlordiaid i dodd â'u hadeiladau i fyny i safon ar gyfer perchnogaeth, gwerthu neu rent barhaus. Bydd yr arian ar gael am uchafswm o 15 mlynedd a bydd engen ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2030. Derbyniwyd incwm o £223k gan Gyngor Sir Ddinbych oddiwrth Llywodraeth Cymru yn ystod 2014/15.

## 30. Lwfansau Aelodau

Mae'r holl Aelodau'n derbyn cyflog sylfaenol bob blwyddyn. Mae rhai o'r Aelodau'n ymgymryd â swyddi uwch ac felly'n derbyn cyflog uwch. Mae'r holl lefelau cyflog yn cael eu gosod gan gorff cenedlaethol o'r enw Panel Tâl Annibynnol

	2014/15 £000	2013/14 £000
Cyflogau	812	808
Treuliau	31	37
<b>Cyfanswm</b>	<b>843</b>	<b>845</b>

## 31. Tâl Swyddogion

a) Nifer y gweithwyr oedd â thâl, ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, o £60,000 neu fwy.

2013/14		2014/15			
Cyfanswm Gweithwyr	Band Tâl	Staff Mewn Ysgolion	Staff Tu Allan i Ysgolion	Cyfanswm y Gweithwyr	Gadael yn ystod y flwyddyn
14	£60,000 - £64,999	8	10	18	4
6	£65,000 - £69,999	3	2	5	0
5	£70,000 - £74,999	4	5	9	2
3	£75,000 - £79,999	1	0	1	0
0	£80,000 - £84,999	1	1	2	0
1	£85,000 - £89,999	2	1	3	0
1	£90,000 - £94,999	0	0	0	0
3	£95,000 - £99,999	1	1	2	0
0	£100,000 - £104,999	0	0	0	0
0	£105,000 - £109,999	0	0	0	0
0	£110,000 - £114,999	0	0	0	0
0	£115,000 - £119,999	0	0	0	0
0	£120,000 - £124,999	0	0	0	0
0	£125,000 - £129,999	0	0	0	0
1	£130,000 - £134,999	0	1	1	0
<b>34</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>20</b>	<b>21</b>	<b>41</b>	<b>6</b>

Dylid nodi bod y tabl hwn yn cynnwys yr Uwch Swyddogion a fanylir yn y tablau isod.

Gadawodd nifer o swyddogion yn ystod y flwyddyn felly bydd eu tâl yn cynnwys unrhyw daliadau derbyniadwy wrth derfynu eu cyflogaeth.

b) Mae'r tablau a ganlyn yn amlinellu'r datgeliadau tâl ar gyfer Uwch Swyddogion sydd â chyflogau o lai na £150,000 ond yn hafal i neu'n fwy na £60,000 y flwyddyn. Nid oes unrhyw Uwch Swyddogion gyda chyflogau o £150,000 neu fwy.

Mae'r golofn "Lwfans treuliau" yn cynnwys unrhyw dâl adleoli a lwfansau ceir.

2014/15 Teitl y Swydd	Cyflog, ffioedd, lwfansau a chyflog ar sail performiad Nodyn 1 £	lawndal am golli swydd £	Lwfans Treuliau £	Cyfanswm gan eithrio cyfraniadau pensiwn £	Cyfradd cyfraniadau pensiwn cyfredol ar 11.8% Nodyn 2 £	Cyfanswm gan gynnwys cyfradd cyfraniadau pensiwn cyfredol £	Adennill diffygion cyfraniadau pensiwn Nodyn 3 £	Cyfanswm tâl gan gynnwys cyfraniadau pensiwn £
Prif Weithredwr	132,144		0	132,144	16,583	148,727	14,328	163,055
Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cwsmeriaid	82,112		0	82,112	11,647	93,759	10,063	103,822
Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol	95,022		0	95,022	11,890	106,912	10,273	117,185
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol	81,282		8,000	89,282	10,171	99,453	8,787	108,240
Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	63,795		0	63,795	7,962	71,757	6,879	78,636
Addysg	74,832		0	74,832	9,363	84,195	8,090	92,285
Priffyrdd & Amgylchedd	74,832		0	74,832	9,363	84,195	8,090	92,285
Cyllid ac Asedau	64,867		0	64,867	8,117	72,984	7,013	79,997
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	63,391		0	63,391	8,117	71,508	7,013	78,521
Cynllunio Busnes a Pherfformiad	67,358		0	67,358	8,428	75,786	7,282	83,068
Cwsmeriaid a Chymorth Addysg	61,549		0	61,549	7,701	69,250	6,654	75,904
AD Strategol tan 31/07/2014	20,270		0	20,270	2,542	22,812	2,196	25,008
Tai a Datblygiad Cymunedol tan 21/11/2014	45,185	18,322	0	63,507	5,175	68,682	4,471	73,153
Gwasanaethau Oedolion a Busnes	70,121		0	70,121	8,773	78,894	7,580	86,474
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	68,617		0	68,617	8,585	77,202	7,417	84,619
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden	61,549		0	61,549	7,701	69,250	6,654	75,904
	<b>1,126,926</b>	<b>18,322</b>	<b>8,000</b>	<b>1,153,248</b>	<b>142,118</b>	<b>1,295,366</b>	<b>122,790</b>	<b>1,418,156</b>

Tudalen 164

Nodyn 1: Mae gan y Prif Weithredwr hawl i Gyflog ar Sail Perfformiad (CSP). Mae hyn yn cael ei ystyried gan banel tâl sydd yn cynnwys cynghorwyr a chynghorydd allanol. Yn 2013/14 a 2014/15 dyfarnwyd y Prif Weithredwr £8k. Cyn 2013/14, mae'r Prif Weithredwr wedi hepgor yr hawl hon. Nid oes gan unrhyw swyddog arall yr hawl i CSP.

Nodyn 2: Mae'r golofn hon yn cynnwys cost buddiannau pensiwn i'r awdurdod gan yr unigolion yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Nodyn 3: Mae'r golofn hon yn cynnwys cost i'r awdurdod er mwyn adennill swm diffygion pensiwn. Mae'n rhaid i'r awdurdod godi swm bob blwyddyn i Gronfa'r Cyngor er mwyn lleihau diffygion pensiwn. Mae'r pris hwn yn cael ei ddyrannu ar draws y gwasanaethau yn seiliedig ar gostau pensiwn y swyddi yn y gwasanaethau hynny ac felly nid yw'n rhan o unrhyw daliad i swyddogion.

Nodyn 4: Mae'r Prif Weithredwr yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am ei rôl fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau lleol a chyffredinol (gyda chostau yn cael eu had-dalu ymhob achos heblaw am Etholiadau Cyngor Sir). Yn 2014/15 roedd hyn yn dod i £4,413 ynghyd â chostau pensiwn o £994: roedd yr ad-daliad a dderbyniwyd yn (£5,109). Y ffigurau ar gyfer 2013/14 oedd £55 a £12, gyda ad-daliad o (£55).

## Cynqor Sir Ddinbych

## Datganiad Cyfrifon 2014/15

2013/14 Teitl y Swydd	Cyflog, ffioedd, lwfansau a chyflog ar sail perfformiad Nodyn 1 £	lawndal am golli swydd £	Lwfans Treuliau £	Cyfanswm gan eithrio cyfraniadau pensiwn £	Cyfradd cyfraniadau pensiwn cyfredol ar 11.8% Nodyn 2 £	Cyfanswm gan gynnwys cyfradd cyfraniadau pensiwn cyfredol £	Adennill diffygion cyfraniada u pensiwn Nodyn 3 £	Cyfanswm tâl gan gynnwys cyfraniadau pensiwn £
Prif Weithredwr	132,411		161	132,572	15,222	147,794	13,932	161,726
Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cwsmeriaid	94,901		161	95,062	11,202	106,264	10,253	116,517
Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles tan 31/03/2014	94,931		161	95,092	11,202	106,294	10,253	116,547
Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol	94,901		0	94,901	11,202	106,103	10,253	116,356
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol o 10/03/2014	4,781		0	4,781	566	5,347	518	5,865
Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	79,746		161	79,907	9,413	89,320	8,615	97,935
Addysg	74,747		0	74,747	8,823	83,570	8,075	91,645
Priffyrd & Amgylchedd	74,747		161	74,908	8,823	83,731	8,075	91,806
Cyllid ac Asedau	64,750		161	64,911	7,643	72,554	6,995	79,549
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	63,274		161	63,435	7,643	71,078	6,995	78,073
Cynllunio Busnes a Pherfformiad	65,375		0	65,375	7,717	73,092	7,063	80,155
Cwsmeriaid a Chymorth Addysg	61,438		0	61,438	7,252	68,690	6,637	75,327
AD Strategol	61,438		161	61,599	7,252	68,851	6,638	75,489
Tai a Datblygiad Cymunedol	64,750		161	64,911	7,643	72,554	6,995	79,549
Gwasanaethau Oedolion a Busnes	68,642		141	68,783	8,102	76,885	7,416	84,301
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd	64,750		141	64,891	7,643	72,534	6,995	79,529
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden	60,223		161	60,384	7,252	67,636	6,638	74,274
	<b>1,225,805</b>	<b>0</b>	<b>1,892</b>	<b>1,227,697</b>	<b>144,600</b>	<b>1,372,297</b>	<b>132,346</b>	<b>1,504,643</b>

- c) Amlinellir y nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chost llawn diswyddiadau gorfodol ac eraill yn y tabl isod:

Band cost pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer o ddiswyddiadau gorfodol		Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd		Nifer llawn o becynnau ymadael fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau ymadael fesul band	
	2013/14	2014/15	2013/14	2014/15	2013/14	2014/15	2013/14	2014/15
£0 - £20,000	16	22	49	51	65	73	£364,810	£558,694
£20,001 - £40,000	1	6	9	8	10	14	£272,559	£389,473
£40,001 - £120,000	1	4	1	4	2	8	£126,055	£441,527
<b>Cyfanswm</b>	<b>18</b>	<b>32</b>	<b>59</b>	<b>63</b>	<b>77</b>	<b>95</b>	<b>£763,424</b>	<b>£1,389,694</b>

Mae'r costau a ddangosir yn y tabl uchod yn cynnwys costau diswyddo a phob cost ymadael arall. Mae'r rhain yn cynnwys cost straen pensiwn. Mae straen pensiwn yn codi pan fod gweithiwr yn ymddeol yn fuan heb ostyngiad pensiwn actiwaraid. Mae'r straen pensiwn yn daladwy dros dair blynedd ond mae'r Cyngor yn dewis talu'r costau hyn yn ystod blwyddyn gyntaf ymddeoliad.

- d) Mae'nofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu cymhareb tâl rhwng tâl canolrifol pob gweithiwr yr awdurdod yn ystod y flwyddyn a'r un ar gyfer Prif Weithredwr yr awdurdod. Yn 2014/15 roedd tâl y Prif Weithredwr yn £133,000. Tâl canolrifol y gweithlu oedd £21,530. Felly, roedd y gymhareb yn 6.18:1. Yn 2014/15 roedd tâl ar gyfer staff yn amrywio o £5,267 i £97,128. Mae'r tâl yn cynnwys cyflog a chyflog ar sail perfformaid ac nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo neu gyfraniadau pensiwn y cyflogwr.



**32. Costau Archwilio Allanol**

Mae'r Cyngor yn wynebu'r costau canlynol mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad Cyfrifon, ardystio ceisiadau grant, arolygiadau statudol ac i wasanaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio, a ddarperir gan archwilyr allanol yr Awdurdod

	2014/15 £000	2013/14 £000
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd a benodwyd am y flwyddyn	178	178
Ffioedd yn daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliadau statudol a'r Mesur Llywodraeth Leol	94	94
Ffioedd yn daladwy am ardystio ceisiadau grant a ffurflenni am y flwyddyn	93	110
Ffioedd yn daladwy mewn perthynas â gwasanaethau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn	0	1
	<b>365</b>	<b>383</b>
Ad-daliad ffi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013/14	0	(58)
<b>Costau Archwilio Allanol</b>	<b>365</b>	<b>325</b>

Mae ad-daliad ffi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013/14 yn ymwneud ag ad-daliad o oddeutu 15% o ffi archwilio 2012/13 mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a ffioedd a dalwyd mewn perthynas â'r mesur Llywodraeth Leol. Nid yw'r ad-daliad yn ymwneud â ffioedd a dalwyd mewn perthynas ag ardystio hawliau grantiau a ffurflenni.

## 33. Incwm Grant

Fe greydodd y Cyngor y grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2014/15

	2014/15 £000	2013/14 £000
<b>Credydwyd i Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol</b>		
Grantiau a chyfraniadau eraill	(316)	(399)
Llywodraeth Cymru – Grant Lliniaru Llifogydd	(788)	(2,267)
Llywodraeth Cymru – Grant Cyfalaf Cyffredinol	0	(1,844)
Llywodraeth Cymru – Trawsnewid Addysg Gyfrwng Cymraeg 3-18 yng Ngogledd Sir Ddinbych	0	(1,741)
Llywodraeth Cymru – Grantiau Ardal Adfywio Strategol (W.R.H.I.P)	(3,105)	(5,976)
Llywodraeth Cymru – Grant Cludiant Rhanbarthol	0	(853)
Llywodraeth Cymru – Lwfans Atgyweiriadau Mawr	(2,410)	(2,400)
Llywodraeth Cymru – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	(4,427)	(1,170)
Llywodraeth Cymru – Grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol	0	(557)
Llywodraeth Cymru – Datblygiad Harbwr y Rhyl	0	(2,441)
Llywodraeth Cymru – Llywybrau mwy diogel mewn Cymunedau	(356)	0
Llywodraeth Cymru – Cronfa Cludiant Lleol	(264)	0
Llywodraeth Cymru – Gwaith Amddiffyn yr Arfordir Gorllewin – Y Rhyl – Cam 3	(2,909)	0
Grantiau Eraill Llywodraeth Cymru	(217)	(666)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(14,792)</b>	<b>(20,314)</b>
<b>Credydwyd i Wasanaethau</b>		
Grant Ôl-16 APADGOS Llywodraeth Cymru	(4,051)	(3,859)
Grant Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru	(3,099)	(3,103)
Grant Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru	(1,924)	(1,521)
Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru	(1,302)	(1,302)
Grantiau Addysg Eraill gan Lywodraeth Cymru	(643)	(505)
Grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru	(5,975)	(6,359)
Grant Gwasanaethau Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru	(44)	(119)
Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill gan Lywodraeth Cymru	(1,078)	(836)
Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy Llywodraeth Cymru	(2,202)	(2,376)
Grant Tocynnau Teithio Rhatach Llywodraeth Cymru	(1,821)	(465)
Grant Cydgyfeirio Llywodraeth Cymru	(113)	(2,256)
Grant Cytundeb Canlyniadau Llywodraeth Cymru	(1,039)	(1,057)
Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru	(2,691)	(1,660)
Grant Amddifadedd Disgyblion (derbyniwyd trwy Gyngor Gwynedd 13/14)	(2,242)	(1,087)
Grant Effeithiolrwydd Ysgol (derbyniwyd trwy Gyngor Gwynedd 13/14)	(874)	(986)
Grant Gweinyddu Budd-daliadau Tai / Treth y Cyngor DWP	(502)	(736)
Grantiau Eraill	(4,986)	(6,661)
<b>Cyfanswm Grantiau a Greddydwyd i Wasanaethau</b>	<b>(34,586)</b>	<b>(34,888)</b>

Yn ogystal â'r grantiau a nodir yn y tabl uchod, derbyniodd y Cyngor y cymhorthdaliadau canlynol o'r Adran Gwaith a Phensiynau: £25,817k mewn perthynas â Lwfansau Rhent (£25,375k yn 2013/14) a £7,920k mewn perthynas â Ad-daliadau Rhent (£7,802k yn 2013/14). Datgelir y rhain yn Nodyn 27 o dan Ffioedd, Taliadau & Incwm Gwasanaeth Arall.

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion nad ydynt eto wedi'u cydnabod fel incwm, gan eu bod ag amodau sydd ynghlwm wrthynt y byddai angen dychwelyd yr arian neu eiddo i'r rhoddwr pe na fodlonir unrhyw amodiad o'r fath. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2014 £000
<b>Derbyniadau Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw</b>		
Symiau Gohiriedig	(1,802)	(1,731)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(1,802)</b>	<b>(1,731)</b>
<b>Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw</b>		
Grant Cronfa Goffa Treftadaeth Genedlaethol	(12)	0
Grant Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru	0	(54)
Grant Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru	(123)	(99)
Grantiau Addysg Eraill gan Lywodraeth Cymru	0	(107)
Grant Ieithoedd Ethnig Lleiafrifol Llywodraeth Cymru	(13)	(14)
Grant Potensial CGE	(96)	(96)
Grant Llwyddo'n Lleol	(12)	(13)
Grant Effeithiolrwydd Ysgolion gan Lywodraeth Cymru	(11)	0
Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru	0	(1)
Cronfa Cynllun Darlledu Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru	(1)	(3)
Cymhorthdal Budd-daliadau Tai yr Adran Gwaith a Phensiynau	(1,078)	(1,656)
Grant Adsefydlu Anabledd Dysgu Bryn y Neuadd Llywodraeth Cymru	0	(2)
Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill gan Lywodraeth Cymru	0	(18)
Grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru	(428)	(291)
Cyllid Ychwanegedd Llywodraeth Cymru	(99)	(81)
Grant Tocynnau Teithio Rhatach Llywodraeth Cymru	(7)	0
Grant Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru	(16)	(16)
Grant Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Llywodraeth Cymru	(20)	(12)
Grant Iaith a Chwarae Llywodraeth Cymru	0	(2)
Grant Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru	(1)	(1)
Grant Addysg Plant Teithwyr	0	(13)
Grant Cronfa Fuddsoddi Leol	0	(11)
Grant Canolfan Ragoriaeth mewn Beicio Llywodraeth Cymru	(28)	0
Grantiau Eraill Llywodraeth Cymru	(8)	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>(1,953)</b>	<b>(2,490)</b>

#### 34. Partïon Cysylltiedig

Mae'r Cyngor yn gorfod datgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor, neu i'w rheoli neu eu dylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu darllenwyr i asesu'r graddau y gallai'r Cyngor fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu efallai wedi diogelu'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i ymdrin yn rhydd â'r Cyngor.

#### Llywodraeth Ganolog

Mae gan y Lywodraeth Ganolog ddylanwad statudol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor - mae'n gyfrifol am ddarparu fframwaith strategol y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo, yn darparu'r mwyafrif o'i gyllid ar ffurf grantiau, ac yn rhagnodi

telerau sawl trafodyn sydd gan y cyngor â phartion eraill (e.e. biliau treth y cyngor, budd-daliadau tai). Mae grantiau a dderbyniwyd gan adrannau'r llywodraeth wedi'u trafod mewn mwy o fanylder yn Nodyn 33.

### **Aelodau Etholedig**

Gofynnwyd i'r holl Aelodau Etholedig cyfredol i gwblhau datganiad ac i ddatgelu unrhyw drafodion yn ymwneud â pharti yn yr awdurdod. Dychwelodd bob un ddatganiad heblaw am dri.

Gwnaethpwyd y datganiadau materol canlynol ar gyfer 2014/15:

- Mae priod aelod etholedig yn Brif Weithredwr Asiantaeth Menter Sir Ddinbych (gweler y cwmnïau cysylltiedig isod).
- Datganodd aelod etholedig gysylltiad gyda chwni y mae'r Cyngor wedi talu £1,800k i yn 2014/15.
- Datganodd aelod etholedig aelodaeth o Gyngor Cymuned Llanarmon-yn-lâl a rhoddwyd benthyciad tymor byr a grant iddynt yn ystod 2014/15.

Cynhelir rhestr o ddiddordebau aelodau etholedig gan Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, ac mae'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd. Mae nifer o aelodau etholedig hefyd wedi'u penodi gan y Cyngor i wasanaethu ar gyffwrdd eraill sydd â pherthynas ariannol gyda'r Cyngor. Caiff y rhain eu manylu yn yr adran Cwmnïau isod.

### **Swyddogion**

Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaeithiaid Gwasanaeth gwblhau datganiad i ddatgelu unrhyw drafodion yn ymwneud â pharti sydd ganddynt â'r awdurdod. Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiad.

### **Cyffwrdd Cyhoeddus Eraill**

#### **Asiantaeth Pensiynau Athrawon**

Mae'r costau pensiwn a godir yn y gyfradd gyfrannu a osodwyd gan yr Adran Addysg ar sail cronfa dybiannol. Mae manylion pensiwn athrawon wedi'u nodi yn nodyn 38.

#### **Cronfa Bensiynau Clwyd**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gorff a dderbyniwyd i Gronfa Bensiynau Clwyd. Mae manylion o'r trafodion a wnaed gyda Cronfa Bensiwn Clwyd wedi'u cynnwys yn nodyn 39.

**Cynghorau Cymuned/Tref**

Mae Cyfanswm y praeseptau a dalwyd i'r 37 o gynghorau cymuned/tref wedi'u cynnwys yn nodyn 8 ac yn dod i gyfanswm o £1,550k (£1,488k yn 23013/14).

**Comisiynydd Heddlu & Throseddu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

Mae Comisiynwyr Heddlu & Throseddu ac Awdurdodau Tân ac Achub yn gosod eu ffioedd eu hunain i dalwyr treth y cyngor, sydd wedyn yn cael eu cynnwys ar bil treth y cyngor - mae'r taliadau hyn yn cael eu hadnabod fel y praesept. Mae cyfanswm y praeseptau a'r ardollau a dalwyd i Gomisiynydd Heddlu & Throseddu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn dod i gyfanswm o £13,071k (£13,072k yn 2013/14). Mae dadansoddiad wedi ei ddarparu yn nodyn 8.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae gan yr Awdurdod ddau drefniant cyllideb ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: un ar gyfer darparu storfa Offer Cymunedol; a sefydlwyd yr ail gyda'r nod o sicrhau darpariaeth gwasanaeth integredig o weithiwr cefnogi lechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn y gymuned. Roedd cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych i'r storfa Offer Cymunedol yn £211k (£211k yn 213/14) a chyfrannodd yr Awdurdod £50k i'r Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol (£50k yn 2013/14).

**Cymdeithas Llynwodraeth Leol (CLIL)/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

Mae'r Cyngor yn aelod o CLIL/CLILC a gwnaed taliadau iddynt o £89k yn 2014/15 (£89k yn 2013/14), a derbyniodd y Cyngor incwm o £40k ganddynt (£8k yn 2013/14).

**Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)**

Mae CBAC yn fwrdd arholi, sydd yn darparu cymwysterau ac asesiad arholiadau i ysgolion Sir Ddinbych. Mae is-gadeirydd ei Fwrdd yn Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ddinbych. Yn 2014/15 talodd Cyngor Sir Ddinbych £552k i CBAC (£570k yn 2013/14).

**Cwmnïau**

Mae Cod Ymarfer Cyfrifo yn gofyn i awdurdod sydd â chysylltiadau materol mewn un neu fwy o is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig baratoi cyfrif refeniw grŵp a mantolen. Nid yw cysylltiadau'r Cyngor â'r cwmnïau perthnasol naill ai'n diwallu'r meini prawf ar gyfer bod yn is-gwmni neu'n gwmni cysylltiedig fel y nodir yn y Cod, neu lle maent yn diwallu'r meini prawf, ni ystyrir eu bod yn faterol mewn perthynas â graddfa gyffredinol gweithrediadau'r Cyngor, ac o ganlyniad nid yw Cyfrifon Grŵp wedi'u paratoi.

Mae manylion y cwmnïau perthnasol fel a ganlyn:

**Clwydfro Cyfyngedig (yn masnachu fel Asiantaeth Menter Sir Ddinbych)**

Mae Clwydfro yn gwmni cyfyngedig drwy warant, heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Amcan y cwmni yw hyrwyddo ac annog gweithgaredd diwydiannol a masnachol neu fenter yn y sir, gyda'r bwriad o leihau diweithdra. Mae datganiadau ariannol Clwydfro a archwiliwyd ar gyfer 2013/14 yn dangos bod asedau net y cwmni ar 31 Mawrth 2014 yn £424,101 a'r golled net ar gyfer y flwyddyn oedd £9,390.

Roedd Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 31 Mawrth 2014 yn cynnwys cyfanswm o bum aelod, pob un ohonynt yn Gynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych.

Nid oes unrhyw atebolrwydd cyfreithiol i'r cyngor gyfrannu at golledion neu ddiffygion y cwmni.

Ystyrir bod y cwmni'n is-gwmni ar y sail bod Sir Ddinbych yn dal mwy na 20% o'r hawliau pleidleisio, fodd bynnag, ar sail perthnasedd, mae'r tebygolrwydd o risg yn isel ac nid yn debygol o effeithio ar y penderfyniadau a wnaed gan ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, ac nid yw'r gweithgaredd yn arwyddocaol i amcanion strategol cyffredinol yr awdurdod.

Gellir cael gwybodaeth ychwanegol gan Asiantaeth Menter Sir Ddinbych, Canolfan Fusnes Clwyd, Ystâd Ddiwydiannol Lôn Parcwr, Rhuthun, LL15 1NJ.

**Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan a Mentrau Castell Bodelwyddan Cyf.**

Mae Grŵp Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan yn gwmni cyfyngedig drwy warant, heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Mae'n elusen gofrestredig a sefydlwyd yn Chwefror 1994. Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw datblygu addysg drwy gaffael, cynnwys a dangos gwrthrychau a chasgliadau o natur addysgol, a drwy sefydlu, caffael a rheoli amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd i'w defnyddio ar gyfer dibenion o'r fath. Mae'r Ymddiriedolaeth yn caffael arteffactau y mae'n eu hadfer, eu cadw a'u harddangos. Mae hefyd yn rheoli parc cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau hamdden ac yn hyrwyddo gwerthfawrogiad o'r byd naturiol. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi grant blynyddol i Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan ac yn ystod 2014/15, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth £144,681. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu ei wasanaethau cyflog. Roedd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cynnwys cyfanswm o un ar ddeg aelod, gyda un ohonynt yn Gynghorydd Cyngor Sir Ddinbych.

Nid yw'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 ar gael eto. Fodd bynnag, roedd asedau net y Grŵp ar 31 Mawrth 2014 yn £728,596 ac roedd yr adnoddau sy'n mynd allan am y flwyddyn yn dod i gyfanswm o £11,378.

Ni ystyrir bod y cwmni'n is-gwmni neu'n gwmni cysylltiedig yr Awdurdod, ar sail er gwaethaf bod yn fuddsoddwr yn y cwmni, mae Sir Ddinbych yn dal llai na 20% o'r hawliau pleidleisio, sydd felly'n aelodaeth leiafrifol. Felly nid oes cyfrifon grŵp wedi'u paratoi.

Nid oes unrhyw atebolrwydd cyfreithiol i'r cyngor gyfrannu at golledion neu ddiffygion y cwmni.

Gellir cael gwybodaeth bellach gan Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan Cyf., Bodelwyddan, LL18 5YA.

### **Hamdden Clwyd Cyf.**

Sefydlwyd Hamdden Clwyd Cyfyngedig 1 Ebrill 2001 fel Sefydliad Nad yw'n Dosbarthu Elw.

Rhoddodd y cwmni orau i fasnachu ddydd Gwener 7 Chwefror 2014 ac mae ymarferydd ansolfedd yn rheoli'r gwaith o ddirwyn y cwmni i ben. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Dan delerau dyledeb, ystyriwyd y Cyngor fel credydwr ffafriol a hyd yma derbyniodd daliad o £252,547. Mae'r Cyngor yn warantwr ymrwymadau pensiwn y cwmni a amcangyfrifir i fod yn £845,000. Bydd goblygiadau ariannol y Cyngor yn llai na hyn a bydd yn cael ei gadarnhau ar ôl i'r cwmni gael ei ddirwyn i ben.

### **Cwmni Scala Prestatyn Cyf.**

Cafodd y Cwmni ei redeg fel elusen ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant ddielw. Caiff gymorth grant gan Gyngor Sir Ddinbych, ac yn ystod 2014/15 derbyniodd Cwmni Scala Prestatyn Cyf. ddyraniad grant o £42,470. Yn 2009/10 cytunodd y Cyngor i roi benthyciad o £80,000 i'r Cwmni ac o ran y benthyciad nodwyd y gall barhau am hyd at ddeng mlynedd. Roedd dechrau'r ad-daliadau wedi'i ohirio tan 2014/15. Fel o 31ain Mawrth, 2015 roedd gan y Cwmni ddyledion yn ystod y flwyddyn sy'n ddyledus i'r Cyngor o £60,721.

## **35. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf**

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth yr asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau ariannol a chontractau PFI/PP), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn y dyfodol drwy daliadau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn golygu bod cynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), mesuriad o'r gwariant cyfalaf a wnaed yn hanesyddol gan y Cyngor nad ydyw wedi'i ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn ail ran y nodyn hwn.

	2014/15 £000	2013/14 £000
<b>Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol</b>	<b>185,835</b>	179,463
<b>Buddsoddiad Cyfalaf</b>		
Eiddo, Peiriannau ac Offer	31,070	37,357
Eiddo Buddsoddi	185	0
Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud	4,409	4,646
<b>Ffynonellau o Arian</b>		
Derbyniadau cyfalaf	(1,478)	(903)
Grantiau a chyfraniadau eraill y Llywodraeth	(21,935)	(23,828)
Symiau a roddwyd o'r neilltu o refeniw:		
Cyfraniadau refeniw uniongyrchol	(1,167)	(1,594)
MRP a Dyledwyr Hirdymor	(8,062)	(9,306)
<b>Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol</b>	<b>188,857</b>	<b>185,835</b>

	2014/15 £000	2013/14 £000
<b>Esboniad o symudiadau mewn blwyddyn</b>		
Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthyca (a gefnogir gan gymorth ariannol y llywodraeth)	2,250	5,418
Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthyca (heb gefnogaeth cymorth ariannol y llywodraeth)	9,026	10,427
MRP a Dyledwyr Hirdymor	(7,973)	(9,190)
Derbyniadau Cyfalaf a neilltuwyd	(192)	(168)
Asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau ariannol	0	(4)
Asedau a gaffaelwyd o dan gontractau PFI	(89)	(111)
<b>Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf</b>	<b>3,022</b>	<b>6,372</b>

### 36. Prydlesau

#### Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn prydlesu rhai o'i eiddo, cerbydau ac eitemau o offer, yn ogystal â phrydlesu rhai o'r eiddo y mae'n berchen arnynt. Mae trefniadau'r prydlesau wedi'u hadolygu a'u dosbarthu fel prydlesau gweithredol neu ariannol fel y disgrifir mewn mwy o fanylder isod.



**Awdurdod fel Lesddeiliad**Prydlesau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi caffael rhai eiddo o dan brydlesau ariannol.

Caiff yr asedau a gafaelir o dan y prydlesau hyn eu cario yn y Fantolen ar y symiau net canlynol:

	31 Mawrth 14 £000	31 Mawrth 15 £000
Tir ac Adeiladau Eraill	3,408	3,351
	<b>3,408</b>	<b>3,351</b>

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor wedi caffael eiddo, cerbydau ac eitemau eraill o offer drwy wneud prydlesau gweithredol. Y taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 14 £000	31 Mawrth 15 £000
Dim hwyrach na blwyddyn	2	2
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	10	9
Hwyrach na 5 mlynedd	13	12
	<b>25</b>	<b>23</b>

Roedd y taliadau prydles lleiaf a godwyd ar wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn yn £2k yn 2014/15 ac yn £35k yn 2013/14.

**Awdurdod fel Prydlesydd**Prydlesau Weithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo i unigolion o dan brydlesau gweithredol ar gyfer dibenion amrywiol, fel datblygiad economaidd, i ddarparu unedau i fusnesau lleol. Y taliadau prydles lleiaf sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 14 £000	31 Mawrth 15 £000
Dim hwyrach na blwyddyn	783	798
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	2,479	2,469
Hwyrach na 5 mlynedd	12,131	11,645
	<b>15,393</b>	<b>14,912</b>

## 37. Cynlluniau Ariannu Preifat a Chytundebau Tebyg

Fe wnaeth y Cyngor ymrwymo i gynllun PFI dau ddeg pum mlynedd gyda Neptune PFI Ruthin Ltd, gan ddechrau o ddyddiad dechrau'r gwasanaeth, Mai 2004. Roedd y contractwr am ddylunio, adeiladu, ariannu, gweithredu a rheoli cyfleusterau cyhoeddus i ddarparu gofod dinesig a swyddfa ar gyfer cyfarfodydd, gweithrediadau a swyddogaethau'r Cyngor, ac ar gyfer cyfarfodydd a chynulliadau cyhoeddus eraill. Mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli ar nifer o safleoedd ar wahân yn Rhuthun ac yn cynnwys Neuadd y Sir, Neuadd y Dref a storfa'r Sir. Mae gofyn i Neptune PFI Ruthin Ltd drosglwyddo'r adeiladau ar ddiwedd y contract, mewn cyflwr penodol, am ddim.

*Eiddo, Peiriannau ac Offer*

Cydnabyddir yr asedau a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaethau ar Fantolen yr Awdurdod. Manylir ar symudiadau yn eu gwerth dros y blynyddoedd fel y manylir yn y dadansoddiad o'r symudiad ar Eiddo, Peiriannau ac Offer yn Nodyn 13.

*Dyledion prydles ariannol*

Ar ddechrau'r brydles, cafodd gwerth teg yr asedau sefydlog eu cyfateb gyda dyled prydles ariannol. Y ddyled gychwynnol oedd £12,195k, a ostyngodd drwy gyfraniad cyfalaf gan Gyngor Sir Ddinbych o £300k. Mae'r tabl isod yn dangos yr ysgrifennu i lawr o ddyled y brydles yn 2013/14 a 2014/15.

2013/14 £000		2014/15 £000
(9,884)	Balans ar ddechrau'r flwyddyn	(9,773)
111	Ad-dalu Credydwr Prydles	89
(9,773)	Dyledion Prydles Ariannol terfynol	(9,684)
(9,684)	Rhannu rhwng:-	
(89)	Dyled Prydles Ariannol Tymor Hir	(9,305)
	Dyled Prydles Ariannol Tymor Byr	(379)
<b>(9,773)</b>		<b>(9,684)</b>

*Taliadau Unedol*

Mae'r swm blynyddol a delir i weithredwyr y PFI wedi ei ddadansoddi dan y pedwar pennawd isod:

- Gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – debydwyd i'r gwasanaeth perthnasol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Yn 2014/15, £503k oedd hyn (£550k yn 2013/14) a thaliadau am gyfleustodau ac yswiriant.
- Cost ariannol - £1236k yn 2014/15 (£1231k yn 2013/14).
- Taliad tuag at ddyled - sy'n berthnasol i ysgrifennu i lawr dyled y Fantolen tuag at weithredwr y PFI fel y dangosir yn y tabl uchod.
- Costau disodli cylch oes – cydnabyddir fel asedau sefydlog ar y Fantolen os ydynt wedi digwydd neu fel rhagdaliad. Roedd balans ar ddechrau'r flwyddyn ar y rhagdaliadau o £611k. Yn 2014/15 roedd £39k o gostau cylch oes. Gosodwyd

balans o £415k fel rhagdaliad. Ar ddiwedd 2014/15, cyfanswm y rhagdaliad ar y fantolen yw £1,026k.

Mae manylion y taliadau a gaiff eu gwneud yn ystod oes y cynllun fel a ganlyn.  
Taliadau a wneir dan y contract PFI

	Gwerth Teg Tâl Gwasanaeth (gan gynnwys costau Hyd oes) £000	Llog a Rhenti Amodol £000	Ad-dalu Dyled £000	Cyfanswm £000
O fewn blwyddyn	676	1,175	378	2,229
O fewn dwy i bum mlynedd	4,118	4,647	1,228	9,993
O fewn chwech i ddeg mlynedd	5,261	4,422	3,142	12,825
O fewn un mlynedd ar ddeg i un mlynedd ar bymtheg	4,025	1,305	4,935	10,265
	<b>14,080</b>	<b>11,549</b>	<b>9,683</b>	<b>35,312</b>

#### *Grantiau a Chronfeydd wrth gefn*

Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant refeniw PFI i'r Cyngor o £19,000k dros 25 mlynedd gyda chyfradd gyfun o 6.7% felly caiff £35,549k ei dalu i Sir Ddinbych dros y 25 mlynedd. Yn 2014/15, yn lle rhoi taliad arian blynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y grant PFI fel rhan o'r Setliad Refeniw. Yn 2014/15 talwyd grant o £1,528k (£1,579k yn 2013/14).

Mae pwysiad y grant PFI yn fwy yn y blynyddoedd cynharach felly mae unrhyw warged o ran cronfeydd wedi'i ddyrannu i gronfa wrth gefn i'w ddefnyddio i osod yn erbyn taliadau yn y blynyddoedd diweddarach. Balans y gronfa wrth gefn ar ddiwedd 2014/15 yw £6,040k (£3,684k yn 2013/14).

### **38. Cynlluniau Pensiwn y Rhoddir Cyfrif Amdanynt fel Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig**

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon pan fyddant yn ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu at y costau drwy wneud cyfraniadau ar sail canran o gyflogau pensiynadwy aelodau. Yn dechnegol, mae'r Cynllun yn gynllun â buddion diffiniedig. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun wedi'i gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol i gyfrifo cyfradd gyfraniadau cyflogwyr a delir gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu nodi ei gyfran o sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y Cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifeg. At ddiben y Datganiad Cyfrifon hwn, caiff ei gyfrif ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn 2014/15, talodd y cyngor sir £4,853k i Bensiynau Athrawon o ran buddiannau ymddeol athrawon, sy'n gyfwerth â 14.1% o gyflog pensiynadwy. Y ffigurau ar gyfer 2013/14 oedd £4,826k ac 14.1%. Yn ogystal, gwnaed taliadau o ran ymddeoliadau cynnar cyfwerth â £390k (£585k yn 2013/14). Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £1k i fod i gael ei adennill oddiwrth Pensiynau Athrawon o ganlyniad i addasiadau ganslo cyflog. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a

roddir wrth ymddeol yn gynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig ac fe'u nodir yn Nodyn 39.

### **39. Cynlluniau Pensiwn â Buddiannau Diffiniedig**

#### **Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gost buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn cael eu talu nes i'r gweithwyr ymddeol, mae ymrwymiad ar y Cyngor i wneud y taliadau (ar gyfer y buddiannau hyn) a datgelu pryd y gall gweithwyr gael eu hawliad yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun ar ôl cyflogaeth.

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae hwn yn gynllun cyflog terfynol â buddiannau diffiniedig a gaiff ei gyllido, sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriedir i gydbwysio dyledion pensiynau gydag asedau buddsoddi.
- Trefniadau ar gyfer rhoi buddiannau â disgrisiwn ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn gynnar – mae hwn yn drefniant buddiannau diffiniedig na chaiff ei gyllido, lle caiff dyledion eu cydnabod pan gaiff y buddiannau eu rhoi. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi'u cronni i dalu'r dyledion pensiynau hyn, a rhaid creu arian parod i dalu taliadau pensiwn gwirioneddol pan fyddant yn daladwy.

- Mae rheolaeth y Gronfa yn cael ei freinio yng Nghyngor Sir y Fflint, sef Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Bensiwn sy'n cynnwys pum Cynghorydd o Gyngor Sir y Fflint a phedwar aelod cyfetholedig.

Mae'r Pwyllgor, gyda chymorth ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa, yn ymgymryd â rolau megis penderfynu ar bolisïau mewn perthynas â'r strategaeth fuddsoddi, gweinyddu llywodraethu, cyfathrebu, strategaeth ariannu a darpariaethau rheoli risg.

Am fanylion pellach ynglŷn ag egwyddorion llywodraethu a buddsoddi Cronfa Bensiwn Clwyd, ewch i [www.clwydpensionfund.org](http://www.clwydpensionfund.org) neu cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd yn:

Cronfa Bensiwn Clwyd  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint  
CH7 6NA

- Y prif risgiau i awdurdod y cynllun yw'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. codi arian ar raddfa fawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, llog bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi tâl ar Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn y symiau sy'n ofynnol yn ôl statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifeg.

## Trafodion sy'n gysylltiedig â Buddiannau ar ôl Cyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae angen i ni eu gwneud yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ar ôl cyflogaeth/buddiannau ymddeol ei dynnu allan o Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai drwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau â Disgresiwn	
	2014/15 £000	2013/14 £000	2014/15 £000	2013/14 £000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cost y Gwasanaethau <i>Cost gwasanaeth, yn cynnwys:</i>				
• Costau Gwasanaeth Cyfredol	11,943	13,372		
• Costau Gwasanaeth y Gorffennol / (Enillion)	492	277		
• (Enillion)Colled o Setliadau a Chwtogiadau	0	0		
<i>Gwariant Gweithredu Arall:</i>				
• Treuliau Gweinyddu	299	295		
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:				
• Treuliau Llog Net	6,800	7,521	373	357
Cyfanswm y Buddiannau ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	19,534	21,465	373	357
Buddiannau eraill ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
• Adenillion ar Asedau Cynlluniau (ac eithrio'r swm a nodir yn y Gwariant Llog Net)	(28,376)	9,285		
• (Enillion) a Cholledion Actiwari yn sgil Newidiadau mewn Rhagdybiaethau Demograffig	0	10,362		335
• (Enillion) a Cholledion Actiwari yn sgil Newidiadau mewn Rhagdybiaethau Ariannol	75,482	(38,551)	542	(404)
• Arall	0	(10,694)		(399)
Cyfanswm Buddiannau ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	<b>66,640</b>	<b>(8,133)</b>	<b>915</b>	<b>(111)</b>
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
• Gwrthdroi costau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Ddyled ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer Buddiannau ar ôl Cyflogaeth yn unol â'r Cod	(19,534)	(21,465)	(373)	(357)
Swm gwirioneddol a godir yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn.				
• Cyfraniadau gweithiwr sy'n daladwy i'r cynllun	15,324	14,144		
• Buddiannau ymddeol sy'n daladwy i bensiynwyr			856	853

**Asedau Pensiwn a Rhwymedigaethau a Gydabyddir yn y Fantolen**

Mae'r swm a nodir yn y Fantolen yn sgil rhwymedigaeth yr awdurdod o ran ei gynlluniau buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau â Disgresiwn	
	2014/15 £000	2013/14 £000	2014/15 £000	2013/14 £000
Gwerth Presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	535,985	440,953	9,162	9,103
Gwerth teg yr Asedau Cynlluniau	(320,811)	(277,095)		
Is-gyfanswm	215,174	163,858	9,162	9,103
Symudiadau eraill yn y rhwymedigaeth (ased)				
<b>Rhwymedigaeth net yn sgil y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig</b>	<b>215,174</b>	<b>163,858</b>	<b>9,162</b>	<b>9,103</b>

**Cysoni Symudiadau yn yr Asedau'r Cynllun Gwerth Teg**

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2014/15 £000	2013/14 £000
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	277,095	272,720
Incwm llog	12,763	11,506
Treuliau gweinyddu	(299)	(295)
Enilliad/(colled) ailfesuriad:		
• Yr elw ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm a gynhwysir yn y gwariant llog net	28,376	(9,285)
• Arall		
Effaith newidiadau yng nghyfraddau'r gyfnewidfa dramor		
Cyfraniadau gan y cyflogwr	15,324	14,144
Cyfraniadau gan weithwyr	3,774	3,722
Buddiannau a dalwyd	(16,222)	(15,417)
Arall		
<b>Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun</b>	<b>320,811</b>	<b>277,095</b>

**Cysoni Gwerth Presennol y Cynllun Rhwymedigaethau (Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig)**

	Rhwymedigaethau a Ariennir Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaeth nas Ariennir Trefniadau Buddiannau Disgresiwn	
	2014/15 £000	2013/14 £000	2014/15 £000	2013/14 £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	440,953	458,855	9,103	10,067
Cost gwasanaeth presennol	11,943	13,372		
Cost llog	19,563	19,027	373	357
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	3,774	3,722		
(Enillion) a cholledion ailfesuriad:				
▪ (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	0	10,362		335
▪ (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	75,482	(38,551)	542	(404)
▪ Arall	0	(10,694)		(399)
Cost gwasanaeth blaenorol	115	142		
Colledion/(enillion) a chwtogiad	377	135		
Rhwymedigaethau a ragdybir ar gyfuniad endidau				
Buddiannau a dalwyd	(16,222)	(15,417)	(856)	(853)
Rhwymedigaethau wedi eu dileu ar setliadau				
<b>Balans terfynol ar 31 Mawrth</b>	<b>535,985</b>	<b>440,953</b>	<b>9,162</b>	<b>9,103</b>

## Asedau Cynwysedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

	Gwerth Teg Asedau'r Cynllun 2014/15 £000	2013/14 £000
<b>Arian Parod a Symiau Cywerth ag Arian Parod</b>	<b>9,624</b>	<b>8,313</b>
<b>Ecwitiau</b>		
• DU a ddyfynnwyd	0	27,707
• Byd-eang a ddyfynnwyd	24,061	16,626
• Byd-eang a ddyfynnwyd	11,228	11,084
• UDA	0	8,313
• Japan	0	8,313
• Ewrop	0	8,313
• Marchnadoedd datblygol	19,249	16,626
• Cyffindir	3,208	2,771
• Dwyrain Pell	0	16,626
<b>Is-gyfanswm Ecwiti</b>	<b>57,746</b>	<b>116,379</b>
<b>Bondiau</b>		
Bondiau Tramor Eraill	41,705	38,793
LDI	73,788	0
<b>Is-gyfanswm Bondiau</b>	<b>115,493</b>	<b>38,793</b>
<b>Eiddo:</b>		
• DU	9,624	8,313
• Tramor	12,832	13,855
<b>Is-gyfanswm Eiddo</b>	<b>22,456</b>	<b>22,168</b>
<b>Eraill:</b>		
• Cronfeydd Diogelu	12,832	11,084
• Ecwiti preifat	35,289	33,251
• Isadeiledd	6,416	5,542
• Coed ac Amaeth	6,416	5,542
• Nwyddau	6,416	8,313
• GTAA	48,123	27,710
<b>Is-gyfanswm Eraill</b>	<b>115,492</b>	<b>91,442</b>
<b>Cyfanswm Asedau</b>	<b>320,811</b>	<b>277,095</b>

## Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Dyledion

Mae dyledion wedi'u hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynnyddoedd i ddod yn dibynnu ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog ac ati.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a dyledion buddiannau â Disgresiwn wedi'u hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, cwmni o



actiwariad, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa'r Cyngor Sir yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2013.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddion Disgresiwn	
	2014/15 £000	2013/14 £000	2014/15 £000	2013/14 £000
Rhagdybiaethau Marwolaeth: Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr presennol:				
• Dynion	23.4 blwyddyn	23.3 blwyddyn	23.4 blwyddyn	23.3 blwyddyn
• Merched	25.9 blwyddyn	25.8 blwyddyn	25.9 blwyddyn	25.8 blwyddyn
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:				
• Dynion	26.3 blwyddyn	26.2 blwyddyn		
• Merched	29.3 blwyddyn	29.2 blwyddyn		
Cyfradd Chwyddiant	2.00%	2.40%	2.00%	2.40%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.50%	3.90%		
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.00%	2.40%	2.00%	2.40%
Cyfradd disgowntio buddiannau'r cynllun	3.30%	4.50%	3.10%	4.30%

Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth budd ddiffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwari a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi eu pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac mae'n rhagdybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth wedi dadansoddi newidiadau tra mae'r holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn rhagdybio bod disgwylid oes yn cynyddu neu'n lleihau ar gyfer dynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai rhagdybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifo'r cynllun h.y. ar sail actiwari yn defnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir. Nid yw'r dulliau na math y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r dadansoddiad sensitifrwydd isod wedi eu newid ers y cyfnod blaenorol.

Newid mewn rhagdybiaethau 31 Mawrth 2014	Effaith ar y rhwymedigaeth net yn sgil y Rhwymedigaeth Budd Ddiffiniedig yn y Cynllun
Hirhoedledd (cynnydd mewn 1 flwyddyn)	10,554
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%)	10,234
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%) heb ei ddarparu	2,516
Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaeth y cynllun (cynnydd o 0.1%)	(10,045)

**Risgiau a'r Strategaeth Fuddsoddi**

Mae'r Gronfa yn cynnal sefyllfaoedd yn defnyddio amrywiaeth o offerynnau ariannol ac felly mae'n agored i nifer o risgiau ariannol gan gynnwys risgiau credyd a gwrthrannol, risg hylifedd, risg marchnad a risg cyfraddau cyfnewid.

Mae gweithdrefnau rheoli risg yr Awdurdod Gweinyddu yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol a gweithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hynny. Mae'r Gronfa Bensiwn yn adolygu ei Ddatganiad Egwyddorion Buddsoddi, a'r Datganiad Strategaeth Ariannu cysylltiedig, yn flynyddol, sy'n gosod polisi'r Gronfa Bensiwn ar faterion fel y math o fuddsoddiadau i'w dal, y balans rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau, cyfyngiadau buddsoddi a'r ffordd y rheolir risg. Mae'r Gronfa yn cynnal adolygiadau ffurfiol ar ei strwythur, ac elfen allweddol o'r broses adolygu yw risg. Mae'r Gronfa yn dilyn polisi o leihau risg drwy amrywio buddsoddiadau ar draws dosbarthiadau asedau, rhanbarthau buddsoddi a rheolwyr cronfa.

**Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod**

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel gyllido 100% dros y 19 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro yn flynyddol. Bydd y prisiad tair blynedd nesaf yn cael ei gwblhau ar 31 March 2016.

Bydd yn rhaid i'r cynllun ystyried newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Dan y Ddeddf, efallai na fydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr, a'r prif gynlluniau pensiwn eraill, yn darparu buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 31 March 2014. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau, o fewn fframwaith cyffredin, i sefydlu cynlluniau cyfartaledd enillion gyfa newydd i dalu pensiynau a buddiannau eraill i weision cyhoeddus penodol.

Rhagwelir y bydd yr awdurdod yn talu £15,575k i'r cynllun yn 2015/16.

Cyfartaledd pwysol hyd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 19 mlynedd, 2014/15 (19 mlynedd 2013/14).

**40. Rhwymedigaethau Amodol**

Gall dyled ddigwyddiadol gael ei diffinio fel naill ai:

- Rhwymedigaeth ddichonadwy sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol, na ellir cadarnhau ei bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y sefydliad;

neu

- rhwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol ond na chaiff ei gydnabod oherwydd:

- (i) Nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth;  
neu
- (ii) Ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth gyda digon o ddibynadwyedd.

Municipal Mutual Insurance Cyf. (MMI) oedd prif yswiriwr cyrff y sector cyhoeddus cyn iddo roi'r gorau i ddarparu yswiriant busnes ym mis Medi 1992. Er mwyn sicrhau bod MMI yn rheoli ei fusnes yn drefnus, rhoddwyd cynllun trefniant gyda'i gredydwy'r ar waith. O fewn y Ddarpariaeth Yswiriant a fanylir yn Nodyn 21 mae elfen mewn perthynas â'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw daliad yn y dyfodol a wneir gan MMI ar ôl gosod yr ardoll gychwynnol yn cael ei wneud ar y gyfradd is o 85%. Mae rhagweld hawliadau yn y dyfodol yn ansicr oherwydd natur ddiweddaraf nifer yr hawliadau y mae MMI yn parhau i'w derbyn. Mae'r ardoll yn destun adolygiad gan weinyddwr y cynllun o leiaf bob 12 mis. Er gwaethaf gosod ardoll gychwynnol o 15%, wrth fodelu canlyniadau disgwylidig ar gyfer rheoli busnes MMI yn ddiddyled, nododd y gweinyddwr y gallai'r ardoll amrywio rhwng 9.5% a 28%.

Dylid nodi rhwymedigaeth digwyddiadau o ran costau sy'n parhau sef £1,890k o ran hawliadau Clwyd a £335k o ran hawliadau Rhuddlan.

Rhoddodd Hamdden Clwyd Cyf. y gorau i fasnachu ddydd Gwener 7 Chwefror 2014. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo o ran dirwyn y cwmni i ben, felly nid yw'r goblygiadau cost terfynol i'r Cyngor yn hysbys. Cyfeiriwch at nodyn 34, Partïon Cysylltiedig, ar gyfer y sefyllfa bresennol.

#### **41. Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Fel rhan o fabwysiadu Cod Rheoli'r Trysorlys, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2014/15 ar 25 Chwefror 2014. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Reoli'r Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol â Chyfarwyddyd Buddsoddi Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn egluro y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Arferion Rheoli'r Trysorlys, yn seiliedig ar geisio cyfradd uchaf dychweliadau sy'n gyson â lefelau priodol diogelwch a hylifedd.

Y prif risgiau a gaiff eu cwmpasu yw:

Risg Credyd: Y posibilrwydd y bydd un ochr offeryn ariannol yn methu â bodloni'i rhwymedigaethau cytundebol, gan achosi colled i'r ochr arall.

Risg Hylifedd: Y posibilrwydd na fydd un ochr yn gallu codi arian i dalu'r ymrwymadau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol

Risg Marchnad: Y posibilrwydd y bydd gwerth offeryn yn amrywio oherwydd y newidiadau yn y cyfraddau llog, prisiau marchnad ayyb.

### Risg Credyd

#### Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg trwy sicrhau bod buddsoddiadau wedi'u lleoli gyda'r llywodraeth ganolog, awdurdodau eraill neu Fanciau a Chymdeithasau Adeiladu sydd â sgorau credyd digon uchel fel y nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys. Bydd cyfyngiad o £8,000k yn cael ei roi ar swm yr arian y gellir ei fuddsoddi gyda pharti unigol. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £10,000k am gyfnod hirach na blwyddyn.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw brofiad hanesyddol o ddiffygdlu gan barti arall. Mae'r Cyngor yn defnyddio amryw o ddangosyddion yn ogystal â sgorau credyd i benderfynu pwy i fuddsoddi gyda nhw. Mae'r rhain yn cynnwys gwarantau'r Llywodraeth, cryfder ariannol y Wlad a phrisiau cyfranddaliadau. Bydd y Cyngor a'i ymgynghorydd trysorlys yn parhau i ddadansoddi a monitro'r dangosyddion hyn a datblygiadau credyd yn rheolaidd ac yn ymateb yn ôl yr angen i sicrhau diogelwch y symiau a fuddsodwyd.

#### Dyledwyr

Cydnabyddir yn yr amgylchedd economaidd presennol y bydd casglu arian dyledus yn anoddach, ond mae'r Awdurdod eisoes wedi buddsoddi mewn methodoleg Rheoli Credyd cryf gyda staff hyfforddedig wedi'u cefnogi gan drefnau effeithiol a ddylai gynnal llif arian a lleihau enghreifftiau o droseddau cytundebol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth nominal portffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

		Sgôr Tymor Hir ar adeg Buddsoddi	Sgôr Tymor Hir ar 31/03/2015	Balans a fuddsoddwyd ar 31/03/2015 £000	Dyddiad Ad-dalu			
					0-3 Mis £000	4-6 Mis £000	7-9 Mis £000	10-12 Mis £000
Banciau'r DU	Bank of Scotland	A+	A+	5,000	5,000			
	NatWest	BBB+	BBB+	300	300			
	Barclays	A	A	8,000	8,000			
	Close Brothers	A	A	5,000	5,000			
Llywodraeth y DU	Swyddfa Rheoli							
	Dyled Cyngor	AA+	AA+	4,000	4,000			
Awdurdodau Lleol	Dinas Birmingham			6,300	6,300			
	<b>Cyfanswm</b>			<b>28,600</b>	<b>28,600</b>			

Diffiniad		
Graddau Tymor Hir	AA	<b>Ansawdd Credyd Uchel iawn</b> Disgwyliad o risg credyd isel iawn. Gallu cryf iawn i dalu ymrwymadau ariannol, sydd ddim yn agored yn sylweddol i ddigwyddiadau rhagweladwy.
	A	<b>Ansawdd Credyd Uchel</b> Disgwyliad o risg credyd isel. Gallu cryf i dalu ymrwymadau ariannol, a all fod yn fwy agored i amodau busnes neu economaidd anffafriol nag sy'n wir ar gyfer graddau uwch.
	BBB	<b>Ansawdd Credyd Da</b> Disgwyliad o risg credyd isel ar hyn o bryd. Gallu digonol i dalu ymrwymadau ariannol, ond mae amodau busnes neu economaidd anffafriol yn fwy tebygol o effeithio ar y gallu hwn.

### Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad at gyfleusterau benthyca gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Does dim risg yn cael ei adnabod na fydd y Cyngor yn gallu dod o hyd i'r arian i dalu ei ymrwymadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gorfod rheoli'r risg na fydd yn agored i ailgyflenwi cyfran helaeth o'r arian a fenthycwyd ar adeg pan mae cyfraddau llog yn anffafriol.

Roedd dadansoddiad aeddfedrwydd dyled PWLB y Cyngor ar 31 Mawrth 2015 fel a ganlyn:

	Blynyddoedd	31-Maw-14 £000	31-Maw-15 £000	%
<b>Benthyciadau Tymor Byr</b>	<b>Llai na 1 blwyddyn</b>	(6,662)	(3,652)	2.52
<b>Benthyciadau Tymor Hir</b>	Dros 1 dan 6	(16,260)	(17,326)	11.97
	Dros 6 dan 10	(9,756)	(10,957)	7.56
	Dros 10 dan 15	(8,763)	(10,891)	7.52
	Dros 15 dan 20	(6,256)	(6,719)	4.64
	Dros 20 dan 25	0	(1,277)	0.88
	Dros 25 dan 30	(6,000)	(6,000)	4.14
	Dros 30 dan 35	0	0	0
	Dros 35 dan 40	(19,125)	(24,250)	16.76
	Dros 40 dan 45	(63,826)	(58,700)	40.56
	Dros 45 dan 50	(5,000)	(5,000)	3.45
<b>Cyfanswm Benthycia Tymor Hir</b>		<b>(134,986)</b>	<b>(141,120)</b>	<b>97.48</b>
<b>Cyfanswm Benthycia ar Swm Nominal</b>		<b>(141,648)</b>	<b>(144,772)</b>	<b>100.00</b>
Llog a Gronnwyd		(1,423)	(1,450)	
Premiwm a Ohiriwyd		983	974	
<b>Cyfanswm Benthycia ar Gost Amorteiddio</b>		<b>(142,088)</b>	<b>(145,248)</b>	

### Risg Marchnad

(1) Risg Cyfradd Llog:

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n deillio o symudiadau yn y cyfraddau llog. Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw lliniaru'r risgiau hyn trwy osod terfyn uchaf o 40% ar ddyled allanol a all fod yn destun cyfraddau llog amrywiol. Ar 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2015, roedd 100% o'r portffolio dyledion mewn offerynnau cyfradd sefydlog.

Mae buddsoddiadau hefyd yn amodol ar symudiadau mewn cyfraddau llog. Oherwydd bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud ar gyfraddau sefydlog, ond ar gyfer cyfnodau amser byrrach, maent yn fwy agored i symudiadau cyfraddau llog. Mae'n rhaid cydbwyso'r risg yn erbyn y camau gweithredu a gymerwyd i liniaru'r risg credyd.

(2) Risg pris:

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly ni fydd unrhyw risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Cyngor yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhrys yr offerynnau ariannol).

(3) Risg cyfnewid tramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na dyledion ariannol mewn arian tramor. Felly, nid yw'n agored i risg o golli arian o ganlyniad i symudiadau anffafriol yn y cyfraddau cyfnewid.

**42. Asedau Treftadaeth**

Cysoni Gwerth Asedau Treftadaeth sydd gan yr Awdurdod.

	<b>Cofeb Hynafol Cofrestredig</b>	<b>Plas Newydd</b>	<b>Carchar Rhuthun</b>	<b>Nant Clwyd Y Dre</b>	<b>Cyfanswm Asedau Treftadaeth</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Cost neu Brisiad 1 Ebrill 2014	361	1,146	4,557	3,014	9,078
Dibriadau	0	(8)	(32)	(15)	(55)
31 Mawrth 2015	361	1,138	4,525	2,999	9,023

	<b>Cofeb Hynafol Cofrestredig</b>	<b>Plas Newydd</b>	<b>Carchar Rhuthun</b>	<b>Nant Clwyd Y Dre</b>	<b>Cyfanswm Asedau Treftadaeth</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Cost neu Brisiad 1 Ebrill 2013	361	3,009	4,834	3,594	11,798
Adbrisiad - Enillion	0	86	4	0	90
Adbrisiad - Colledion	0	(1,941)	(248)	(565)	(2,745)
Dibriadau	0	(8)	(33)	(15)	(56)
31 Mawrth 2014	361	1,146	4,557	3,014	9,078

**Cofebion Hynafol Cofrestredig**

Mae Castell Dinas Bran yn gastell canoloesol sy'n sefyll yn uchel ar fryn uwchben tref Llangollen. Mae hefyd yn safle bryngaer o'r Oes Haearn. Mae wedi'i brisio yn ôl ei gost. Mae Archeolegwyr y Sir wedi dosbarthu cofebion rhestredig eraill ac adeiladau rhestredig fel asedau treftadaeth ond nid oes gwerth ariannol wedi'i neilltuo ar gyfer y rhain. Maent yn cynnwys Tŵr Jiwbilî, Moel Fenlli, Moel y Gaer Llanbedr, Caer Drewyn, Tŷ Baddon Rufeinig Prestatyn. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Archeolegydd y Sir.

**Regalia Dinesig**

Nid yw Regalia Dinesig wedi'i gynnwys ar y fantolen eto oherwydd bod angen rhagor o wybodaeth. Credir bod y rhan fwyaf o'r Regalia Dinesig yn berchen i'r Cynghorau Tref unigol.

## Adeiladau Treftadaeth

Mae gan Sir Ddinbych yr adeiladau treftadaeth a ganlyn. Adbrisiwyd yr adeiladau yn 2013/14 fel rhan o raglen adbrisiio flynyddol. Nid oes prisiad, ar hyn o bryd, ar gyfer yr arteffactau a gedwir yn yr adeiladau.

### *Plas Newydd – Adeilad Gradd 2\* a Thirwedd Rhestredig*

Mae Plas Newydd yn eiddo dau lawr ar wahân sydd wedi'i adeiladu gyda ffrâm bren a drychiadau brics a charreg wedi'u rendro a'u paentio. Mae gan yr amgueddfa tua 400 o arteffactau gan gynnwys dodrefn, eitemau cymdeithasol a domestig (llyfrau, medalau, cerameg a gwisgoedd), effemera a chasgliadau amrywiol.

### *Carchar Rhuthun – Carchar Fictoraidd Gradd 2\**

Caeodd Carchar Rhuthun fel carchar yn 1916. Prynodd y Cyngor Sir yr adeiladau yn 1926 a'u defnyddio ar gyfer swyddfeydd, archifau'r sir a llyfrgell y dref. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd adeiladau'r carchar fel ffatri arfau, cyn ei dychwelyd i'r Cyngor Sir fel pencadlys Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych. Yn 2002, ailwampwyd y carchar yn helaeth a'i ailagor fel amgueddfa. Mae rhai o'r eitemau yn y casgliad yn rhannau annatod o'r adeilad, fel y baddonau carreg, ac mae eraill yn eitemau 2D a 3D sy'n ymwneud â hanes y carchar. Mae hefyd eitemau sy'n cael eu benthyg gan y Galerïau Cyfiawnder yn Nottingham.

### *Nant Clwyd Y Dre – Adeilad Graddfa 1\* a Gerddi Rhestredig*

Prynwyd yr eiddo gan Gyngor Sir Clwyd yn 1984. Roedd yn adfail ond roedd rhaglen i adnewyddu a diogelu'r rhannau allanol a gwblhawyd yng nghanol y 1990au. Cafodd yr eiddo ei adnewyddu yn llawn a'i agor i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2007 fel amgueddfa oherwydd ei deilyngdod hanesyddol.

Mae'r eiddo yn cynnwys Tŷ 14eg Ganrif a ehangwyd yn helaeth. Mae'r eiddo yn strwythur rhestredig gradd 1 gyda gardd hanesyddol cofrestredig, gazebo rhestredig gradd 1 a waliau gardd rhestredig. Mae'r mwyafrif o'r eitemau sy'n cael eu harddangos yn atgynhyrchiadau neu o ffynhonnell anhysbys y tu allan i Sir Ddinbych.

## Casgliadau Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych

Mae'r casgliad yn dyddio o'r 1960au pan, cyn bodolaeth gwasanaeth amgueddfa neu dreftadaeth, roedd deunydd yn cael ei gasglu gan amryw o adrannau o'r hen awdurdodau lleol. Mae tua 10,000 o wrthrychau yn y casgliad gan gynnwys hanes cymdeithasol a diwydiannol, archif a deunydd archeolegol.

## Amgueddfeydd

Mae tua 1,000 o eitemau yn gysylltiedig â'r hen amgueddfa yn Ninbych a tua 3,000 o eitemau unigol yn gysylltiedig ag Amgueddfa'r Rhyl.



**Asedau Treftadaeth Anniriaethol**

Mae rhai cofnodion hanesyddol yn cael eu cadw yn Swyddfa Cofnodion Sir Ddinbych, ond mae angen ymchwil pellach ar gyfer perchnogaeth rhai o'r cofnodion.

**Arall**

Yn ystod y flwyddyn, canfuwyd fod gan Ysgol Uwchradd Iun Sir John "Kyffin" Williams. Nid yw'r llun wedi ei brisio'n ffurfiol ond amcangyfrifir bod gwerth y llun rhwng £14,000 a £20,000.

**Prisio**

Mae'r Gwasanaeth Treftadaeth wedi nodi bod angen prosiect mawr i adolygu'r casgliad. Nes y bydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau nid oes gwybodaeth union ar gael ynglŷn â gwerth y casgliad.

**43. Asedau Treftadaeth: Crynodeb Trafodion Pum Mlynedd**

Ar hyn o bryd, nid yw'n ymarferol i roi crynodeb pum mlynedd o'r trafodion.

**44. Asedau Treftadaeth: Gwybodaeth Bellach ar y Casgliad Amgueddfeydd****Gwasanaeth Treftadaeth**

Mae'r Gwasanaeth Treftadaeth yn gyfrifol am reoli a datblygu darpariaeth treftadaeth y Sir yn barhaus. Yn 2012/13 gadawodd Swyddog Datblygu Amgueddfeydd yr Awdurdod. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn cyllid yn ddiweddar ar gyfer adolygiad strategol a gweithredol llawn o'r gwasanaeth.

**Rheoli Casgliadau**

Mae rheoli casgliadau yn cael ei arwain gan y Cynllun Achrediadau a Strategaeth Amgueddfeydd Cymru. Mae casgliadau treftadaeth teithiol y Sir yn cael eu cadw yn Storfa'r Sir yn Rhuthun. Mae'r rhain yn cynnwys casgliadau archeolegol (fel canfyddiadau Rhufeinig o Faddondy Prestatyn a chasgliadau canoloesol o Gastell Rhuddlan), casgliadau sy'n gysylltiedig â Merched Llangollen, sawl cadair Eisteddfod a chasgliadau hanes cymdeithasol yn ymwneud â'r sir gyfan. Ar hyn o bryd does dim staff sy'n gyfrifol am ofalu am gasgliadau yn Sir Ddinbych; y rheolwr curadurol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol. Yn y dyfodol, gobeithir caniatáu mynediad i'r cyhoedd i gasgliadau trwy derfynellau ym mhob amgueddfa a chynnwys casgliadau ar wefannau cydweithio, fel y People's Collection.

**Benthyciadau**

Bydd nifer o eitemau yn cael eu benthycu i ac o'r Gwasanaeth Treftadaeth. Mae gan Plas Newydd ddodrefn sy'n cael ei fenthycu gan Amgueddfa Cenedlaethol Cymru ac mae'r rhain wedi'u cynnwys ym mholisi yswiriant Sir Ddinbych. Bydd cofrestr fenthyciadau yn cael ei chadw ym mhrif swyddfa'r amgueddfa.

### **Caffael a Gwerthu**

Mae gan y Gwasanaeth Treftadaeth "Lyfryn Dogfennau a Threfnau Amgueddfa", yn ogystal â'r polisiâu eraill a nodwyd uchod, ac mae hwn yn nodi'r trefnau ar gyfer caffael a gwerthu eitemau. Dylai bod gan bob eitem rif unigryw a manylion perchnogaeth a'r math o eitem. Pan fydd eitem yn cael ei dderbyn bydd yr eitem yn rhan swyddogol o gasgliad yr amgueddfa.



# **ADRAN 4: DATGANIADAU ATODOL**

## **A**

# **NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ATODOL**

**Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai**

2013/14 £000		Nodyn	2014/15 £000
	<b>GWARIANT</b>		
2,913	Trwsio a chynnal		2,902
2,345	Goruchwylio a rheoli		2,337
15	Rhenti, cyfraddau, trethu a ffioedd eraill		14
3,121	Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai Negyddol yn daladwy		3,219
5,873	Dibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	5	9,758
18	Costau rheoli dyledion		19
130	Cynnydd mewn darpariaeth dyledion drwg		54
<b>14,415</b>	<b>Cyfanswm Gwariant</b>		<b>18,303</b>
	<b>INCWM</b>		
(12,591)	Rhenti anheddau (Gros)		(12,932)
(158)	Rhenti nad ydynt ar gyfer anheddau (Gros)		(160)
<b>(12,749)</b>	<b>Cyfanswm incwm</b>		<b>(13,092)</b>
	<b>Gwariant net Gwasanaethau y Cyfrif Refeniw Tai fel sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		
<b>1,666</b>			<b>5,211</b>
46	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd		46
<b>1,712</b>	<b>Gwariant Net y Gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai</b>		<b>5,257</b>
	<b>Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r incwm a gwariant sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		
8	Costau Gweinyddu Pensiwn		9
1,366	Llog yn daladwy a thaliadau tebyg		1,375
(5)	Incwm llog a buddsoddiadau		(6)
222	Llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau net diffiniedig (ased)	6	213
(2,400)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau eraill a gafwyd		(2,410)
<b>903</b>	<b>(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai</b>		<b>4,438</b>

**Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai**

2013/14 £000		2014/15 £000	
(1,046)	<b>Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 1 Ebrill</b>		(1,287)
903	(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai.	4,438	
(1,144)	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau (gweler isod)	(5,083)	
(241)	(Cynnydd) neu leihad net cyn trosglwyddo i neu o'r cronfeydd wrth gefn		(645)
0	Trosglwyddiadau i neu (o'r) cronfeydd wrth gefn		80
(241)	(Cynnydd) neu leihad yn y flwyddyn ar y Cyfrif Refeniw Tai		(565)
(1,287)	<b>Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth</b>		(1,852)

	<b>Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu dan y Rheoliadau:</b>		
	<b>Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf</b>		
	<b>Gwrthdroad eitemau sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		
(5,873)	Y tâl a godir am ddibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol		(9,758)
2,400	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd		2,410
0	Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud		0
(220)	Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddi-ddymwyd wrth waredu neu werthu fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(254)
	<b>Cynnwys eitemau nad ydynt wedi eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		
1,524	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf		1,620
1,034	Gwariant Cyfalaf y codir tâl yn erbyn Balansau'r Cyfrif Refeniw Tai		813
	<b>Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf</b>		
220	Trosglwyddiad enillion gwerthiannau arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai		254
	<b>Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol</b>		
11	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng costau ariannu y codir tâl amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r costau ariannu y codir tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.		8
	<b>Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau</b>		
(606)	Gwrthdroad eitemau mewn perthynas â buddiannau ymddeol sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai.		(577)
361	Cyfraniadau pensiwn gweithiwr yn daladwy yn y flwyddyn		413
	<b>Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Absenoldeb Cronnol</b>		
5	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng tâl swyddogion y codir amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai ar sail gronnu, a'r tâl y codir amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.		(12)
(1,144)	<b>Cyfanswm yr addasiadau</b>		(5,083)

**1. Stoc Tai**

Roedd cyfanswm stoc tai y Cyngor fel a ganlyn:

2013/14 Nifer yr Eiddo		2014/15 Nifer yr Eiddo
1,863	Tai	1,837
973	Fflatiau	973
618	Byngalos	618
<b>3,454</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>3,428</b>

Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd pedwar eiddo dan y Cynllun Hawl i Brynu. Yn ystod y flwyddyn, roedd 22 eiddo wedi eu dymchwel.

**2. Ôl-ddyledion Rhent**

Ar 31 Mawrth 2015, roedd ôl-ddyledion rhent y tenantiaid yn £338k, (£326k ar 31 Mawrth 2014) sy'n cynrychioli 2.61% o'r incwm net rhent sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn. Dilëwyd cyfanswm ôl-ddyledion o £43k yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd cyfraniad i'r ddarpariaeth Dyledion Drwg ac Amheus o £54k yn ystod y flwyddyn a'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yw £315k.

**3. Derbyniadau Cyfalaf**

Mae derbyniadau cyfalaf y cyfrif refeniw tai ar gyfer 2014/15 wedi'u crynhoi isod:

2013/14 £000	Derbyniadau Tai	2014/15 £000
200	Gwerthiannau – Cynllun Hawl i Brynu	254
20	Gwerthiannau - Tir	0
0	Gostyngiadau a ad-dalwyd	0
5	Morgeisi	1
<b>225</b>	<b>Cyfanswm Derbyniadau</b>	<b>255</b>

**4. Dadansoddiad Gwariant Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai**

Yn ystod 2014/15, roedd gwariant cyfalaf o £3,585k ar welliannau i stoc tai y Cyngor. Mae'r cyfanswm gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan bedair ffynhonnell: Y Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (grant y llywodraeth), derbyniadau cyfalaf (o'r cynllun 'Hawl i Brynu') cyfraniadau refeniw Uniongyrchol y Cyfrif Refeniw Tai a Benthycia Darbodus fel y nodwyd yn y tabl isod.

2013/14 £000	Gwariant Cyfalaf Tai	2014/15 £000
294	Rheoli Ansawdd Perfformiad – Prosiect TG	70
6,231	Cynlluniau Gwella	3,515
<b>6,525</b>	<b>Gwariant yn y Flwyddyn</b>	<b>3,585</b>
	<i>Wedi'i ariannu gan:</i>	
2,400	Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (Grant)	2,410
56	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiol	64
1,034	Cyfraniadau refeniw Cyfrif Refeniw Tai uniongyrchol	813
3,035	Benthyca Darbodus	298
<b>6,525</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>3,585</b>

#### 5. Dibrisiant a Cholledion Amhariad ac Ailbrisió Asedau Anghyfredol

Yn unol â'r fframwaith Cyfrifo Adnoddau, bydd ffioedd dibrisiant, amhariad a cholledion adbrisió wedi'u cynnwys yn y Cost Gwasanaethau Net Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r ffi dibrisio yn seiliedig ar werth y Fantolen o'r anheddau ac asedau eraill ac mae'n adlewyrchu'r asedau sy'n bodoli ac a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth, yn hytrach na'r arian a wariwyd arnynt bob blwyddyn. Mae'r amhariad a'r colledion adbrisió yn deillio o ganlyniad i'r broses adbrisió. Mae'r ffi dibrisio, amhariad a cholledion adbrisió'n cael eu cildroi o Gostau Net Gwasanaethau drwy Symudiad ar Ddatganiad CRT. Mae'r cildroad yn dod â phris net cyfalaf i'r CRT yn ôl i bris statudol, sy'n cael ei gyfrifo yn unol ag Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) ynghylch Eitem 8 Credyd ac Eitem 8 Debid 2014-15. Nid yw'r ffioedd dibrisio a cholledion amhariad ac ailbrisió yn cael effaith ar falansau'r Cyfrif Refeniw Tai.

**Mae cyfanswm ffioedd dibrisio a cholledion amhariad ac adbrisió ar gyfer 2014/15 yn cael eu dangos isod:**

2013/14 £000	Ffioedd Dibrisio a Cholledion Amhariad CRT	2014/15 £000
3,160	Asedau Gweithredol – Anheddau	3,071
86	Asedau Gweithredol - Systemau cyfathrebu	130
<b>3,246</b>	<b>Cyfanswm Dibrisiant</b>	<b>3,201</b>
<b>2,627</b>	<b>Colledion Amhariad ac Adbrisiad</b>	<b>6,557</b>
<b>5,873</b>	<b>Cyfanswm Ffioedd Dibrisio a Cholledion Amhariad CRT</b>	<b>9,758</b>

#### 6. Trafodion yn Ymwneud â Buddion Ymddeol

Mae cost buddiannau ymddeol wedi'i gydnabod yng nghost net gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau. Ond, mae'r ffi i'r Cyfrif Refeniw Tai yn seiliedig ar gyfraniad y

cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly bydd gwir gost y buddion ymddeol yn cael eu dileu yn y Datganiad Symudiad Cyfrif Refeniw Tai.

Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad Symudiadau Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn.

<b>2013/14 £000</b>	<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>2014/15 £000</b>
	<u>Cost net y Gwasanaethau</u>	
376	Costau Gwasanaeth Cyfredol	355
0	Costau Gwasanaeth y Gorffennol	0
	<u>Gwariant Gweithredu Net</u>	
8	Treuliau Gweinyddu Pensiwn	9
222	Gwariant Llog Net	213
<b>606</b>	<b>Ffi net i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>577</b>
	<b>Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai</b>	
(606)	Dileu ffioedd net ar gyfer buddion ymddeol yn unol â'r Cod	(577)
<b>362</b>	<b>Cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i Gynllun Cronfa Bensiwn Clwyd</b>	<b>413</b>



**ADRAN 5: ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU  
CYNGOR SIR DDINBYCH**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ddinbych a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac archwilydd cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 10, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ddinbych a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ddinbych**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys camddatganiadau ffeithiol faterol berthnasol neu mae'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ddinbych yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Dros ac ar ran**

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CH11 9LJ**

**30 Medi 2015**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Sir Ddinbych sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.



## Adran 6

# Datganiad Llywodraethu

## Blynyddol

### Cyflwyno

# Llywodraethu Da a Gwelliant Parhaus

**Asesiad o drefniadau  
llywodraethu a gwella'r  
Cyngor ar gyfer 2014-15**

## Tabl Cynnwys

---

Cyflwyniad .....	125
Crynodeb o'n trefniadau llywodraethu.....	126
Canolbwyntio ar ein pwrpas a'r canlyniadau i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth .....	129
Perfformio'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir .....	132
Hyrwyddo gwerthoedd i'r sefydliad cyfan ac arddangos trefn lywodraethol dda trwy ein hymddygiad .....	133
Gwneud penderfyniadau hysbys a thryloyw a rheoli risg .....	135
Datblygu ein capasiti a'n gallu i fod yn effeithiol .....	138
Ymgysylltu â phobl leol a budd-ddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn .....	140
Materion llywodraethu arwyddocaol .....	144
Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu.....	146

**Cyflwyniad**

---

**Pam bod angen asesiad blynyddol o'n trefniadau llywodraethu?**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gyfrifol am sicrhau bod ganddo drefniadau llywodraethu cadarn er mwyn gwneud pethau'n gywir, yn y dull cywir, ar gyfer yr unigolion cywir, ar yr amser cywir, mewn ffordd gynhwysol, agored, onest ac atebol. Mae llywodraethu da yn hanfodol ar gyfer y Cyngor a'r cyhoedd. Mae'n cefnogi'r Cyngor wrth wneud y penderfyniadau cywir, yn lleihau'r tebygrwydd y bydd pethau'n mynd o'i le ac yn ei amddiffyn pan fo problemau yn codi. Mae'n ysbrydoli hyder i'r cyhoedd ein bod yn gwneud penderfyniadau am y rhesymau cywir, yn diogelu ansawdd gwasanaeth ac yn gwario arian cyhoeddus yn ddoeth.

Mae'r ddogfen hon yn egluro ac yn asesu ein trefniadau llywodraethu ar gyfer 2014-15 ac yn nodi unrhyw welliannau sydd eu hangen i wneud y trefniadau'n fwy cadarn.

**Hunan-asesu ein trefniadau**

O fewn ein hadolygiad llywodraethu blynyddol, mae'n ofynnol i ni gynnal hunan-asesiad o'n trefniadau. Yn y gorffennol rydym hefyd wedi cynnal hunan-asesiad corfforaethol sy'n dangos sut rydym yn cyflawni gwelliant parhaus, ond yn awr rydym yn cyfuno'r hunan-asesiadau hyn i osgoi dyblygu, gan fod rheoli a monitro perfformiad a gwelliant hefyd yn elfen bwysig o drefniadau llywodraethu da. Mae'r hunan-asesiad arloesol hwn yn ein helpu i ddeall ein cryfderau a'n gwendidau mewn cysylltiad â chwech egwyddor allweddol trefn lywodraethol dda yr ydym yn eu defnyddio yn ein fframwaith llywodraethu.

---

**Canolbwyntio ar ein pwrpas a'r canlyniadau i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth****Perfformio'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir****Hyrwyddo gwerthoedd i'r sefydliad cyfan ac arddangos trefn lywodraethol dda trwy ein hymddygiad****Gwneud penderfyniadau hysbys a thryloyw a rheoli risg****Datblygu ein capasiti a'n gallu i fod yn effeithiol****Ymgysylltu â phobl leol a budd-ddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn**

---

**Crynodeb o'n trefniadau llywodraethu**

---

**Adolygu effeithiolrwydd**


Mae'n ofynnol i ni adolygu effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu bob blwyddyn, sy'n cynnwys:

- cynnal fframwaith tystiolaeth parhaus sy'n dangos sut y gallwn roi sicrwydd ar ein trefniadau llywodraethu;
- adolygu effeithiolrwydd Cyfansoddiad y Cyngor yn rheolaidd;
- adolygu trefn lywodraethol o fewn gwasanaethau a ddarperir ar ein rhan gan bartneriaid, sefydliadau hyd braich ayyb;
- Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol sy'n cyflawni swyddogaethau craidd 'pwyllgor archwilio', gan gynnwys:
  - adolygiad rheolaidd o'n trefniadau llywodraethu
  - ystyried ac adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.
  - adolygu, craffu a chymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol
  - monitro effeithiolrwydd rheoli risg;
- grŵp Llywodraethu 'rhithwir' i fonitro trefniadau llywodraethu, datblygu hunan-asesiad ac unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n deillio ohono, gan gynnwys:
  - Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
  - Pennaeth Cyllid ac Asedau (Swyddog A151)
  - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (Swyddog Monitro)
  - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
  - Pennaeth Archwilio Mewnol
- ymgynghori'n eang ar ein hunan-asesiad gydag uwch reolwyr ac aelodau etholedig;
- darparu hyfforddiant i aelodau etholedig i sicrhau eu bod yn deall yn llwyr eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran llywodraethu corfforaethol; a
- defnyddio gwybodaeth o amryw o ffynonellau i lywio ein trefniadau llywodraethu, er enghraifft:
  - heriau gwasanaeth
  - adroddiadau perfformiad
  - rheoli risg
  - adroddiadau rheoleiddwyr allanol
  - Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol

I grynhoi, mae ein hunan-asesiad yn rhoi tystiolaeth a sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn. Lle'r ydym wedi nodi meysydd ar gyfer gwella, mae gennym gynllun gweithredu i fynd i'r afael â nhw (Atodiad 1).

Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd y cynllun gweithredu i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn rheolaidd.

Crynodeb o'n fframwaith llywodraethu





**Canolbwyntio ar ein pwrpas a'r canlyniadau i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth**

---

**...rydym yn glir am yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni**

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn dangos yn glir yr hyn rydym yn anelu i'w gyflawni ac mae'n cynnwys ein blaenoriaethau am y pum mlynedd. Bob blwyddyn rydym yn datblygu Dogfen Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol i ddangos yr hyn rydym yn ddisgwyl ei wneud yn y flwyddyn i ddod i gefnogi cyflawni ein blaenoriaethau a sut y byddwn yn mynd o'i chwmpas. Er ein bod yn aros am yr adroddiad diweddaraf, mae Adroddiadau Gwella Blynyddol blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad ein bod yn gwneud cynnydd da i gyflawni ein rhaglen wella, bod ein trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cefnogi hunan-werthusiad dibynadwy a bod ein trefniadau i gefnogi gwelliannau yn dda.

Rydym wedi nodi'n glir sut mae ein blaenoriaethau corfforaethol yn cysylltu â'n cynllun ariannol tymor-canolog ac rydym wedi nodi adnoddau ariannol a staffio i roi cefnogaeth i gyflawni ein hamcanion. Ceisiwyd safbwyntiau trigolion ynglŷn â'r toriadau yr ydym yn eu hystyried, er mwyn ymgysylltu mwy â nhw ynglŷn â sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio arnynt a'u cymunedau a beth y gellir ei wneud i leihau'r effaith. Rydym yn cydnabod na fydd cyfradd y toriadau sydd eu hangen yn cael eu rhannu'n gyfartal ar draws ein gwasanaethau, yn bennaf gan fod yn rhaid diogelu rhai gwasanaethau, megis ysgolion, tra bo meysydd eraill yn flaenoriaeth uchel ac yn risg uchel, megis y gwasanaethau cymdeithasol. Mae eraill yn swyddogaethau statudol pwysig y mae'n rhaid i ni barhau i'w gwneud, fel cynllunio, cyflogau, rheolaeth ariannol ac adrodd perfformiad yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru a Rheoleiddwyr.

Er y bydd cyfradd y toriadau hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni wneud 'llai gyda llai' byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyffredinol hanfodol. Nid dim ond cydbwyso'r gyllideb ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yw canlyniad y penderfyniadau cyllidebol anodd y mae'n rhaid i ni eu gwneud yn awr, ond byddant hefyd yn siapiro'r gwasanaethau lleol fydd yn cael eu darparu yn y dyfodol. Rydym yn Gyngor sy'n perfformio'n uchel ac ni fydd hyn yn newid, hyd yn oed ar ôl gweithredu'r toriadau hyn.

Fel rhan o adolygu sut yr ydym yn gweithio, rydym yn adolygu ein trefniadau llywodraethu i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth a bod y cyhoedd yn parhau i dderbyn gwasanaethau da a gwerth am arian. Byddwn yn gweithredu trefniadau monitro newydd yn ystod 2015 er mwyn sicrhau bod gan unrhyw ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti neu hyd braich drefniadau llywodraethu cadarn, a bydd yn gweithredu trefniadau craffu i fonitro eu perfformiad ariannol a gweithredol.

Rydym hefyd wedi adolygu sut y byddwn yn darparu gwasanaethau trwy ein Cynlluniau Tref ac Ardal yn ystod y flwyddyn i wella eglurder ynghylch bwriadau polisi cyffredinol y Cynlluniau ac i wella cysondeb o ran sut y caent eu datblygu a'u darparu. Bydd gwelliannau hefyd yn sicrhau bod Cynlluniau'n fwy strategol, yn darparu gwybodaeth gliriach ar y buddion a ddisgwylir a sut y byddwn yn mesur yr effaith. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo paratoi rhestrau diwygiedig o brosiectau blaenoriaeth a phroses newydd ar gyfer dyrannu cyllid i'r prosiectau hyn.

Mae gennym becyn gwaith llywodraethu partneriaeth cynhwysfawr sy'n darparu arweiniad i sicrhau, ar gyfer pob partneriaeth, y dylai fod datganiad clir o egwyddorion, amcanion a deilliannau arfaethedig y bartneriaeth. Mae hefyd yn cynnwys arweiniad ar fesur ansawdd gwasanaeth, fel bod cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth da, sut bynnag rydym yn darparu ein gwasanaethau. Rydym yn ymwybodol nad yw bob partneriaeth yn defnyddio'r pecyn, felly mae arnom angen adolygu'r canllaw i sicrhau ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn effeithiol. Mae hwn yn ddarn dilynol o waith o'n hadolygiad o Dirwedd Partneriaethau, a ddechreuodd dan nawdd Bwrdd Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych. Mae'r adolygiad hwn wedi llywio polisi lleol a chenedlaethol trwy amlygu cymhlethdod gweithgarwch partneriaeth yn Sir Ddinbych a thu hwnt.

### **...rydym yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel a gwerth am arian**

Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd, yn cyflwyno adroddiadau hanner blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd. Rydym yn bwriadu cynyddu'r adroddiadau i'r Pwyllgorau Archwilio a'r Cabinet i adroddiadau chwarterol i barhau i ganolbwyntio ar berfformiad yn ystod cyfnod o leihad gwasanaeth.

Mae Sir Ddinbych wedi cynnal ei safle fel y cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru am y bedwaredd flwyddyn yn ôl Dangosyddion Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

- O'r 30 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, roedd 16 yn y chwarterel uchaf
- Yn uwch na'r canolrif, mae ein sefyllfa wedi gostwng ychydig, yn awr yn ail yng Nghymru
- Rydym wedi gweld gwelliant mewn 19 o'r dangosyddion
- Rydym wedi perfformio ymysg y gorau yng Nghymru mewn 6 o'r dangosyddion

Mae'r Her Perfformiad Gwasanaeth yn defnyddio amryw o adroddiadau a hunanasesiadau gwasanaeth i adolygu perfformiad yn erbyn y cynllun gwasanaeth, gwybodaeth meincnodi ac adroddiad 'angen a'r galw' sy'n amlygu pwysau posibl y dyfodol a newidiadau yn yr amgylchedd allanol y bydd y gwasanaeth angen ymateb iddo. Mae'r broses hon wedi'i hamlygu fel arfer da yn adroddiad blynyddol diweddar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

*"O fewn y Cyngor mae diddordeb a chefnogaeth frwd gan yr Aelodau Etholedig. Mae ganddynt rôl allweddol yng nghyfarfodydd enghreifftiol 'her gwasanaeth' lle y maent yn holi swyddogion arweiniol ynglŷn â pherfformiad ac effaith gwasanaethau'r Cyngor".*

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad archwilio diamod ar ein datganiadau ariannol ar gyfer 2013-14, heb godi unrhyw faterion sylweddol na gwendidau sylfaenol yn ein rheolyddion mewnol. Mae ein gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adolygu ein systemau ariannol allweddol yn flynyddol ac wedi darparu adroddiadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn 2013/14, cynhyrchodd ein gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad beirniadol ar gaffael gwasanaethau adeiladu oedd yn tynnu sylw at nifer o wendidau, gan gynnwys bod ein strategaeth gaffael wedi dyddio. Yn ystod 2014/15, mae'r Adran Archwilio Mewnol wedi parhau i fonitro cynnydd ar gynllun gweithredu gwella a'i

adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r adolygiadau hyn yn dangos bod cynnydd o ran gwella wedi bod yn araf ac wedi methu nifer o derfynau amser, felly mae caffael yn parhau i fod yn fater llywodraethu sylweddol yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae methodoleg rheoli rhaglen a phrosiect, a system Verto yn gweithio'n dda ar draws y Cyngor, gyda rhai darpariaethau gwirioneddol yn awr yn cael eu gwireddu. Yn gyffredinol, mae gwelededd ein gweithgareddau wedi gwella trwy adrodd yn effeithiol a chyson ar ein prosiectau i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ac amrywiol bwyllgorau.

Mae system Verto wedi'i datblygu a'i hehangu i ymgorffori prosesau rheoli perfformiad y Cyngor. Mae cynlluniau busnes gwasanaethau sydd ar y gweill yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r system. Trwy hyblygrwydd y system, rydym yn gallu integreiddio ein cynlluniau busnes gwasanaeth gyda gweithgareddau rhaglen a phrosiect, ac felly'n gallu adrodd gan ddefnyddio dibyniaethau allweddol, megis cynnydd yn erbyn canlyniadau neu flaenoriaethau.

**Perfformio'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir****...rydym yn gwybod beth yw'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau o fewn ein sefydliad**

Mae prif arweiniad llywodraethu'r Cyngor wedi'i gynnwys yn ein Cyfansoddiad cynhwysfawr sy'n:

- nodi rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig a swyddogion, yn arbennig mewn cysylltiad â llywodraethu, er bod angen ei ddiweddarau i ystyried y newid yn nheitlau swyddi a phortffolio aelodau etholedig;
- cynnwys cynllun dirprwyo ffurfiol a chadw'r pwerau i wneud penderfyniadau; a
- chynnwys y broses i'r Cyngor Sir a'r Cabinet fod yn atebol am eu penderfyniadau a'u perfformiad

Mae ein pecyn cymorth llywodraethu partneriaeth yn rhoi arweiniad ar ddiffinio rôl pob partner yn y bartneriaeth a chyfrifoldebau rheolwr atebol ar gyfer staff sy'n cefnogi'r bartneriaeth a statws cyfreithiol. Fodd bynnag, nid yw'n darparu arweiniad clir ynghylch rolau aelodau bwrdd partneriaeth. Rydym eisoes wedi nodi bod angen adolygu'r canllawiau hyn, a bydd angen i ni hyrwyddo ei ddefnydd ar draws holl bartneriaethau Sir Ddinbych.

**...rydym yn sicrhau ein bod yn ymgymryd â'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn**

Mae ein Cyfansoddiad yn cynnwys protocol i sicrhau bod aelodau etholedig a gweithwyr yn deall rolau'r naill a'r llall a'u bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Rydym hefyd wedi nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau swyddogion allweddol y Cyngor:

- Mae ein Prif Weithredwr yn gyfrifol ac yn atebol i'r sefydliad am bob agwedd o reolaeth weithredol.
- Mae'r Swyddog A151 yn sicrhau fod cyngor addas yn cael ei roi i'r sefydliad ar yr holl faterion ariannol, cadw cofnodion a chyfrifon ariannol cywir, ac yn cynnal system effeithiol o reoli arian yn fewnol.
- Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn dilyn y gweithdrefnau a gytunwyd ac yn cydymffurfio â'r holl statudau a rheoliadau perthnasol.

## **Hyrwyddo gwerthoedd i'r sefydliad cyfan ac arddangos trefn llywodraethol dda trwy ein hymddygiad**

---

### **...rydym yn sicrhau bod gwerthoedd y sefydliad yn cael eu rhoi ar waith a'u bod yn effeithiol**

Mae gennym set o werthoedd craidd – **Balchder, Undod, Parch a Chywirdeb** – sydd wedi eu hymgorffori yn y sefydliad a'u hadlewyrchu'n glir yn y Cyfansoddiad, y Fframwaith Llywodraethu Partneriaethau, Rheoliadau Ariannol, Rheolau Gweithdrefnau Contract a'r broses gwerthuso gweithwyr.

Mae ein harweinyddiaeth yn gosod esiampol ar gyfer y sefydliad cyfan drwy greu diwylliant o dryloywder, cefnogaeth a pharch. Rydym yn cynnal ein arolwg staff diweddaraf ar hyn o bryd, ond roedd yr arolwg staff yn 2013 yn dangos bod 83% o weithwyr yn teimlo bod gan y tîm arweinyddiaeth weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol, o'i gymharu â 58% yn unig yn arolwg 2011. Roedd yna hefyd lefel uchel o hyder (84%) yn y tîm arweinyddiaeth. Mae'r un lefel o hyder hefyd i'w gweld ar lefel gwasanaeth, gyda 81% yn credu bod gan eu gwasanaeth weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a chanddynt hyder yn eu rheolwr.

Rydym yn parhau i ddatblygu a gwella ein gwaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol, er y bydd y penderfyniad i ddileu swydd Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau fod yn fwy atebol am eu gwaith gydag unigolion gyda nodweddion a ddiogelir. Rydym yn parhau i weithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, y mae gennym Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd â nhw. Yn ogystal â hyn, rydym wedi datblygu a chynhyrchu modiwl e-ddysgu newydd, sydd yng nghanol y broses o gael ei weithredu ar draws y gwasanaethau cwsmeriaid allweddol.

Ond canfu arolwg staff diweddaraf Archwilio Mewnol bod gwaith eto i'w wneud i wella ymwybyddiaeth o drefniadau cydraddoldeb corfforaethol.

### **...rydym yn darparu arweiniad trwy ymddwyn mewn ffyrdd sy'n dangos safonau uchel o ymddygiad a llywodraethu effeithiol**

Mae gennym amrywiol ffyrdd lle gallwn ddangos ein gwerthoedd craidd a safonau ymddygiad uchel a llywodraethu effeithiol, er enghraifft:

- mae gennym drefniadau Rhyddid Gwybodaeth clir a thryloyw i ganiatáu hawl i wybodaeth;
- mae ein cod ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig a staff yn rhan o hyfforddiant sefydlu, er ein bod angen sicrhau fod gennym drefniadau i sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth am y codau hyn yn rheolaidd;
- mae gennym gofrestr o fuddion ariannol a lletygarwch i aelodau etholedig a gweithwyr i sicrhau tryloywder;
- mae gennym broses i aelodau etholedig ddatgan cysylltiad yn gyffredinol ac mewn cysylltiad â materion penodol a/neu adroddiadau mewn cyfarfodydd;

- mae gennym brotocol i sicrhau bod aelodau etholedig a gweithwyr yn trin y naill a'r llall gyda pharch ac yn ymddwyn yn broffesiynol;
- mae ein fframwaith adborth a chwynion gan gwsmeriaid yn rhoi'r cyfle i gwsmeriaid gyflwyno sylwadau am ymddygiad aelodau etholedig a gweithwyr;
- mae gennym bolisi gwrth-dwyll a llygredigaeth dyddiedig 2006, ond rydym yng nghanol ei adolygu a'i ddiweddarau;
- rydym wedi adolygu ein gweithdrefnau rhannu pryderon sy'n galluogi i faterion gael eu codi gydag amrywiaeth eang o bobl neu gyrff. Mae model newydd y cyfansoddiad yn cynnwys polisi newydd rhannu pryderon. Bydd y drafft, sydd wedi'i ymgynghori gyda'r undebau yn flaenorol, yn cael ei wirio yn erbyn hyn a'i ailddrafftio lle bydd angen ar gyfer ymgynghori ymhellach;
- mae ein trefniadau rheolaeth ariannol yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol o fewn Llywodraeth Leol (2010);
- cynhaliodd ein Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol hunan-asesiad yn 2013/14 oedd yn cadarnhau bod ei gylch gorchwyl yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
- yn dilyn yr hunanasesiad uchod, darparodd Bennaeth yr Adain Archwilio Mewnol hyfforddiant i'r aelodau etholedig ar eu cyfrifoldebau llywodraethu;
- roedd adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cadarnhau ein bod yn gweithredu system effeithiol o reolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg; ac
- rydym yn gweithredu Pwyllgor Safonau effeithiol a diduedd i gynnal ymddygiad da gan aelodau etholedig.

**Gwneud penderfyniadau hysbys a thryloyw a rheoli risg**

---

**...rydym yn drwyadl a thryloyw yn y modd yr ydym yn gwneud penderfyniadau**

Mae gennym fframwaith gwneud penderfyniadau clir i ddangos pwy all wneud pa benderfyniadau ac rydym yn cadw a chyhoeddi cofnod cynhwysfawr o benderfyniadau a wnaed. Mae pob penderfyniad allweddol yn cynnwys asesiad o oblygiadau ariannol, cyfraniad at flaenoriaethau corfforaethol, risg ac effaith cydraddoldeb, er ein bod yn ymwybodol ein bod angen cynnal rhai adolygiadau rheoli ansawdd ar asesiadau o effaith ar gydraddoldeb i sicrhau eu bod yn gadarn.

Rydym yn hysbysebu ein cyfarfodydd 'cyhoeddus' ymlaen llaw fel eu bod yn agored i'r cyhoedd a'r cyfryngau i fod yn bresennol, ac mae'r holl adroddiadau'n cael eu trafod yn agored oni bai eu bod yn cwrdd â meini prawf caeth ar gyfer trafodaeth gyfrinachol.

Mae ein swyddogaeth graffu yn effeithiol, a gefnogir gan dystiolaeth a dadansoddi data, i herio'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n adeiladol.

**...rydym yn defnyddio gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth o ansawdd da**

Mae aelodau etholedig yn derbyn adroddiadau clir, cyson ond cynhwysfawr a chynghor ar gyfer gwneud penderfyniad sy'n egluro'r goblygiadau dros wneud y penderfyniad yn glir. Ni ddylai adroddiadau fod dim mwy na phedair tudalen ac rydym yn defnyddio templed adroddiad corfforaethol i sicrhau bod yr holl wybodaeth wedi'i chynnwys, ynghyd â rhestr wirio sy'n rhaid ei chwblhau ym mhob achos i gadarnhau bod yr holl wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cyn ei gyflwyno.

Mae gennym drefniadau i ddarparu a chofnodi cyngor proffesiynol pwrpasol ar faterion sydd â goblygiadau cyfreithiol neu ariannol ymhell cyn gwneud penderfyniadau ac mewn cyfarfodydd. Derbynnir cyngor allanol lle bo'r angen, yn enwedig mewn meysydd arbenigol.

Mae'r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth a Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol wedi uno yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaeth. Bydd y tîm newydd, yn ogystal â'r gweithgareddau busnes arferol, yn canolbwyntio ar weithgareddau newid allweddol ac yn dechrau datblygu llwyfan strategol ar gyfer gwybodaeth rheoli ac adrodd, gan wella prosesau gwneud penderfyniadau.

**...mae gennym systemau rheoli risg, rheoli gwybodaeth a rheoliadau effeithiol**

Rydym yn adolygu ein Cofrestr Risg Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn, gyda phob Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ystyried y risg maent yn ei reoli ar hyn o bryd, adolygu camau lliniaru a'r amgylchedd allanol i asesu sgôr y risg ac ychwanegu risgiau newydd fel bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys nodi newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n effeithio ar wasanaethau'r Cyngor, megis Deddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro trefniadau rheoli risg ac yn adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol.



Mae gennym wasanaeth archwilio mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys partneriaethau. Roedd adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cadarnhau ein bod yn gweithredu system gadarn o reoliadau mewnol, ariannol a gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Bennaeth yr Adain Archwilio Mewnol yr adolygiadau hunanasesiad i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus. Bydd y cynllun gwella sy'n deillio o hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel rhan o'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2014/15.

Rydym yn trafod unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr allanol ar y lefelau rheoli ac aelod etholedig perthnasol ac yn monitro cynlluniau gweithredu sy'n codi o'r adolygiadau.

Mae rheoli gwybodaeth wedi cael ei ystyried yn hanesyddol fel gwendid llywodraethu sylweddol yn ein Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn dilyn adroddiadau archwilio mewnol ac allanol anffafriol. Ffurfiwyd Tîm Gwybodaeth Gorfforaethol yn ystod 2013 i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn. Ers hynny, gwnaed gwelliannau sylweddol, sydd wedi arwain at leihau risg o ambr (mawr) i felyn (cymedrol).

Mae rhai o'r prif gamau a gymerwyd yn cynnwys:

- penodi Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol i ddarparu arweinyddiaeth strategol yn y maes;
- darparu dull corfforaethol tuag at reoli gwybodaeth trwy lansio Strategaeth Rheoli Gwybodaeth;
- datblygu dull corfforaethol o reoli risg gwybodaeth trwy ddatblygu a lansio Polisi Risg Gwybodaeth;
- gwella lefelau cymhwysedd yn y Cyngor drwy ddatblygu a lansio cyfres o fodiwlau e-ddysgu, gan gynnwys; Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth a Rheoli Dogfennau.
- cyflawni achrediad Rhwydwaith Sector Cyhoeddus (PSN);
- datblygu ffordd gyson o drin achosion o dorri rheolau diogelwch gwybodaeth drwy ddatblygu polisi;
- cyflwyno cyfleusterau e-bost diogel drwy Egress;
- penodi Swyddog Hawl i Wybodaeth i reoli'r nifer cynyddol o geisiadau am hawl i wybodaeth; a
- gwella rheolaeth ein dogfennau electronig trwy weithredu EDRMS (system rheoli cofnodion dogfennau electronig).

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod fod gennym lawer o waith i'w wneud eto ond rydym wedi nodi hyn yn ein Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, er enghraifft:

- gwella trefniadau ar gyfer difa gwastraff cyfrinachol yn ddiogel;
- adnewyddu'r fframwaith polisi diogelwch gwybodaeth;
- ymgorffori EDRMS mewn timau sy'n gwneud defnydd trwm o bapur erbyn mis Mawrth 2016 (diwedd y prosiect).



- ehangu mynediad i ddeunyddiau archif drwy ddatblygu gwell presenoldeb ar-lein.
- datblygu Cofrestr Asedau Gwybodaeth
- cyhoeddi mwy o wybodaeth ar ein gwefan i ddiwallu ein rhwymedigaethau statudol a lleihau nifer y ceisiadau am wybodaeth; a
- chodi ymwybyddiaeth bellach ac ymgorffori rheolau cadw gwybodaeth yn y gwasanaethau.

Mae Polisi Risg Gwybodaeth y Cyngor yn cynnwys gofyniad i gynnwys gwybodaeth benodol yn y 'datganiad llywodraethu blynyddol' a rhannu a thrafod hyn gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Ym mis Mai 2015, cyflwynodd Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth y Cyngor y canlynol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2014/15;

- Ni fu unrhyw dor-amod mawr yn y Ddeddf Diogelu Data gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Adroddodd yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth am ddau ddigwyddiad risg gwybodaeth i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Cymerodd y Cyngor gamau ar unwaith i ddelio â'r materion a gwella perfformiad yn yr achosion hyn.
- Gwnaed tair cwyn dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynglŷn â'r Cyngor, a chanlyniad dau ohonynt oedd eu bod o blaid y Cyngor. Yn y trydydd achos, canfuwyd ein bod wedi torri deddfwriaeth trwy gymryd gormod o amser i ymateb i Gais Mynediad i Destun, ond cydnabuwyd bod hwn yn achos cymhleth. Rydym wedi cymryd camau i wella ein prosesau ar gyfer delio gydag achosion cymhleth i sicrhau ymatebion prydlon yn y dyfodol.

**Datblygu ein capasiti a'n gallu i fod yn effeithiol**

---

**...rydym yn sicrhau fod gan ein haelodau etholedig a gweithwyr yr adnoddau, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad maent ei angen i weithio'n dda**

Mae gennym raglenni sefydlu ar gyfer aelodau etholedig a gweithwyr i sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno yn ystod camau cynnar ac rydym wedi cyflwyno hyfforddiant sefydlu a gloywi i wasanaethau'n ddiweddar ac wedi cynnal 'archwiliad' o weithwyr newydd i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Mae'n broses llawer gwell ac mae llawer mwy o sesiynau sefydlu yn cael eu cynnal.

Mae yna broses i werthuso perfformiad aelodau'r Cabinet, sydd wedi ei gryfhau trwy alinio eu blaenoriaethau gyda'r Cynllun Corfforaethol, sydd mewn ymateb i bapur y Prif Weithredwr ar 'Gwella ein Perfformiad'.

Mae Pwyllgorau Archwilio yn llunio adroddiadau blynyddol ar eu gwaith i'r Cyngor Sir ond roedd hunan-asesiad y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amlygu nad oedd wedi ffurfio rhan o'r trefniant monitro perfformiad hwn yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd gadeirydd y Pwyllgor adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn unol ag adroddiadau blynyddol Archwilio.

Mae gweithwyr yn derbyn gwerthusiad perfformiad blynyddol, sy'n arwain at hyfforddiant a chynlluniau datblygu i'w helpu i gyflawni eu hamcanion a'u rolau'n effeithiol. Rydym wedi gwella perfformiad yn 2013/14, gyda 89% o weithwyr cymwys yn derbyn gwerthusiad blynyddol ond gostyngodd hwn y llynedd ychydig i 88%.

Rydym yn ceisio moderneiddio'r modd rydym yn gweithio fel y gallwn ddefnyddio amser ac adnoddau gwerthfawr yn well. Mae'r Bwrdd Moderneiddio wedi dechrau sawl prosiect sy'n creu effeithiolrwydd darparu gwasanaeth ac rydym wedi datblygu Datganiad Polisi Gweithio'n Hyblyg a chanllawiau sy'n nodi sut rydym yn disgwyl i weithwyr weithio yn y dyfodol a hefyd pa gefnogaeth gallwn ei chynnig. Er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd a symudedd, rydym wedi:

- rhoi offer TG newydd ar waith;
- uwchraddio'r Rhwydwaith Ardal Leol a Di-wifr i gefnogi gweithio hyblyg;
- parhau i adolygu gofynion gofod swyddfa;
- cytuno ar bolisi gweithio wrth sawl gweithfan;
- parhau i gyflwyno EDRMS i fwy o wasanaethau;
- gweithredu Cofrestru Anfoneb Canolog, a fydd yn lleihau'r nifer o anfonebau heb eu talu ar amser ac yn osgoi dirwy taliad hwyr; a
- datblygu Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer i ddangos sut y byddwn yn darparu gwasanaeth cwsmer rhagorol.

**...rydym yn sicrhau y gallwn barhau i berfformio'n effeithiol yn ystod cyfnodau o newid**

Mae Partneriaid Busnes AD Strategol yn cynnal ymarfer cynllunio gweithlu gyda phob gwasanaeth yn flynyddol i nodi eu blaenoriaethau am y 12 mis nesaf. Eleni, roedd hyn yn cynnwys adolygiad Rhyddid a Hyblygrwydd. Mae hyn yn galluogi Adnoddau Dynol i ddeall a blaenoriaethu lefel ac amseriad y gefnogaeth y bydd gwasanaethau ei hangen. Mae'r trafodaethau gyda gwasanaethau'n cynnwys amcanion a blaenoriaethau gwasanaeth, proffil gweithlu, heriau a risgiau ar ddod, adnoddau a bylchau mewn sgiliau a swyddi hanfodol. Mae hyn yn caniatáu i Adnoddau Dynol ddatblygu Cynllun Blaenoriaethu Gweithlu, wedi'i gymeradwyo gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Yn ogystal, mae'r data a gasglwyd o werthusiadau perfformiad yn ein galluogi i nodi blaenoriaethau datblygu corfforaethol ar gyfer y 12 mis nesaf.

I gynorthwyo i ddatblygu uwch reolwyr posibl yn y dyfodol, rydym yn defnyddio cynadleddau Rheolwyr Canol i ymgysylltu â nhw. Mae carfan 'Yr Hwb' ar gyfer 2014 wedi dod i ben yn awr, ac roedd aelodau'r tîm yn rhan o amrywiaeth o brosiectau allweddol, gan gynnwys datblygu Achos Busnes Ystafell Bost Electronig, modiwl E-ddysgu Prosiect Cynhwysiad Ariannol, digwyddiadau cyfathrebu a budd-ddeiliaid y Rhaglen Foderneiddio a gweithio ar ddigwyddiadau budd-ddeiliaid Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Darparodd Cyfarwyddwyr a Phenathiaid Gwasanaeth fentoriaeth ar gyfer pob aelod o Hwb.

Mae mwy o'n prosiectau yn cael eu darparu o fewn y gwasanaethau, gan elwa o ganlyniad i hyfforddiant helaeth rheoli prosiect a gynhaliwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn ein hadnodd Rheoli Prosiect Corfforaethol, gan gyfrannu at ein gallu i wrthsefyll newid ac at ein heffeithlonrwydd.

Mae ein Strategaeth Wirfoddoli'n cynnig man cychwyn defnyddiol i ddatblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer gwirfoddolwyr. Rydym yn parhau i ddatblygu'r Strategaeth hon trwy ddarpariaeth y Cynllun Lles i gymryd i ystyriaeth y datblygiadau ar draws y sir mewn meysydd fel peilot bancio-amser, gweithio mewn partneriaeth a datblygu mentrau i gefnogi gweithwyr i wirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd er budd eu cymunedau.

## **Ymgysylltu â phobl leol a budd-ddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn**

---

### **...rydym yn mabwysiadu dull gweithgar ac wedi'i gynllunio ar gyfer trafodaeth gyda ac atebolrwydd i'n rheoleiddwyr allanol**

Rydym yn datblygu dull rhagweithiol ar gyfer rheoleiddio allanol, er enghraifft:

- cyfarfodydd rheolaidd i drafod datblygiadau, eu gwaith a chanlyniadau;
- cynnwys ac ymgynghori â nhw ar benderfyniadau allweddol a all effeithio ar ein trefniadau llywodraethu;
- gweithredu ar unrhyw welliannau maent yn eu nodi yn eu hadroddiadau; a
- chyflwyno eu hadroddiadau i'r pwyllgorau perthnasol i hysbysu aelodau etholedig;

### **...rydym yn ymgysylltu'n effeithiol gyda'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill**

Rydym yn cyhoeddi ein Datganiad Cyfrifon Blynyddol, gan gynnwys yr hunan-asesiad hwn o lywodraethu a gwella, ar ein gwefan ac mae'n agored i'w archwilio a'i herio gan y cyhoedd am y cyfnod penodedig. Rydym hefyd yn cyhoeddi ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol fel y gall y cyhoedd weld pa mor dda rydym yn perfformio o safbwynt ein Cynllun Corfforaethol.

Mae ein fframwaith cwynion ac adborth cwsmeriaid yn rhoi cyfle i gwsmeriaid fynegi barn am ein gwasanaethau. Rydym yn gwrandao ar y sylwadau hyn wrth wneud penderfyniadau ar gynllunio a gwella gwasanaeth.

Rydym wedi gwella ein hymgysylltu â'r gymuned yn ystod y flwyddyn ac wedi ymrwymo i ymgymryd â mentrau pellach yn 2015, er enghraifft:

- mae ein Strategaeth a Phecyn Gwaith Ymgysylltu â'r Gymuned Corfforaethol ar ein gwefan ac mae'r fewnwyd yn adnodd defnyddiol ar gyfer yr holl wasanaethau. Bydd y Strategaeth yn cael ei hymgorffori o fewn athroniaeth ymgysylltu pob gwasanaeth er mwyn mabwysiadu'r isafswm o ran safonau. Rydym yn rhagweld y bydd y Strategaeth a'r Pecyn Gwaith yn cael eu hadolygu yn y gwanwyn 2015 er mwyn sicrhau ei fod yn 'addas i bwrpas' ac yn ymgorffori'r tueddiadau diweddar mewn cyfleoedd ymgysylltu;
- mae Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych yn cael ei chynhyrchu yn 2015, sef canllaw penodol ar gyfer yr holl wasanaethau a sefydliadau partner. Mae'r strategaeth yn llwyfan i sicrhau ein bod yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau, cynllunio ac adolygu'r gwasanaethau a allai effeithio arnynt yn uniongyrchol (e.e. polisiau ysgol, darpariaeth gwasanaeth ieuencid, cludiant cyhoeddus, gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd ac ati) neu'n anuniongyrchol (e.e. priffyrdd, tai, rheoli gwastraff ac ati);
- ymgymryd â mwy o waith i reoli ein polisiau ymgynghori ar-lein a defnyddio teclynnau arolwg ar lein megis 'Survey Monkey';

- sicrhau bod 'Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd' a 'Safonau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc' wedi'u hymgorffori yn narpariaeth gwasanaethau;
- parhau â'n cyswllt agos gyda'r 37 cyngor dinas, tref a chymuned o fewn y sir trwy gyfarfodydd 'clwstwr' a chyfarfod cyswllt blynyddol a fynychwyd gan ein Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Cyngor. Byddwn yn adolygu ein Siarter gyda'r holl gynghorau yn 2015;
- rydym yn datblygu ein hymgysylltiad gyda phreswylwyr a busnesau trwy'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol;
- mae ein Partneriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog yn uno'r holl asiantaethau allweddol i sicrhau ein bod yn diwallu ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog, a rydym wedi trefnu sesiwn lles / galw draw ar gyfer personél y lluoedd arfog a chyn-filwyr;
- yn dilyn llyfogydd trychinebus yn ward dwyreiniol y Rhyl ym mis Rhagfyr 2013, cynhaliwyd nifer o sesiynau 'galw draw' llyfogydd gyda'r preswylwyr yr effeithiwyd arnynt yn ystod 2014 a chynhyrchu newyddlenni lles ac amddiffyn yr arfordir rheolaidd;
- cynhaliwyd arolwg preswylwyr yn 2013, gyda dros 2000 o breswylwyr yn cymryd rhan ac adroddwyd ar hyn yn ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol diwethaf. Cynhelir arolwg tebyg yn 2015; ac
- mae gwirfoddolwyr wedi darparu gwerth ychwanegol a chefnogi gwaith staff cyflogedig i alluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithiol. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cael boddhad cadarnhaol drwy helpu pobl eraill a datblygu sgiliau newydd a gwneud cyfraniad at fywyd eu cymuned.

Cafwyd trafodaeth ymgysylltu ac ymgynghori helaeth yn 2014 i drafod cynigion cyllideb y Cyngor yn dilyn yr arbedion sylweddol y disgwylir i'r Cyngor eu cyflawni. Hyrwyddwyd trafodaeth gyllidebol 'Torri'r Brethyn' trwy ddatganiadau i'r wasg a sesiynau briffio, cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo mewn adeiladau allweddol. Roedd hyn yn darparu cyfle i breswylwyr gyflwyno eu cyfraniadau mewn dulliau amgen a derbyniwyd dros 822 o ymatebion i'r arolwg.

Yn ogystal â thrafodaeth y gyllideb, mae gwasanaethau'n cynnal gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori unigol, fel arfer ar fater penodol, er enghraifft ar ein hadolygiad o ysgolion, a chynhaliodd Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Bythefnos Adborth ar ei wasanaethau. Mae'r ymatebion hyn yn dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol.

Wrth ddarparu Cynllun Integredig Sengl Sir Ddinbych (Cefnogi Annibyniaeth a Gwydnwch : Cynllun Lles Sir Ddinbych 2014-2018) ymgysylltwyd â'r gymuned i sefydlu ein gweledigaeth a meysydd blaenoriaeth. Mae'r Cynllun yn gosod y gymuned wrth galon ei athroniaeth ac yn canolbwyntio ar gael effaith gadarnhaol ar gyfer pobl Sir Ddinbych.

Y Cyngor yw'r partner arweiniol ar gyfer darparu Strategaeth Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI). Mae gweithgor, a gadeirir gan y Cyngor, wedi darparu pecynnau gwaith fel rhan o gynllun gweithredu'r Strategaeth, gan gynnwys datblygu gwefan a logo BGLI.

Rydym wedi cwblhau a dechrau sawl cam gweithredu sydd naill ai wedi newid neu fydd yn newid y modd yr ydym yn ymgysylltu â busnesau:

- Busnesau wedi cymeradwyo'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol, a oedd yn gosod her i'w chyflawni, gan gynnwys Rhaglen Ymgynghori. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan y gymuned fusnes mewn digwyddiad ar gyfer y sir gyfan 'Agored i Fusnes' yn y Pafiliwn Rhyngwladol Brenhinol yn Llangollen. Mae busnesau a'u cynrychiolwyr yn parhau i ddarparu adborth cadarnhaol ac yn awr yn ymgysylltu yng ngwaith dylunio a llywodraethu ar gyfer y prosiect 'Gwell Busnes i Bawb'.
- Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn awr yn cynnwys cymalau budd cymunedol sy'n hyrwyddo'r defnydd o fusnesau/ llafur/ nwyddau a chyflenwadau lleol yn yr holl gontractau. Mae'r rhain yn orfodol ar gyfer pob prosiect dros £2m. Rydym yn parhau i ymgysylltu gyda chyflenwyr trwy raglen o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Busnes Cymru ond mae ein dull newydd o ddatblygu cyflenwyr wedi'i ohirio ar hyn o bryd tra bo'r Uned Caffael Strategol yn adolygu ei gynllun busnes. Fodd bynnag, rydym yn ymgysylltu â'r Trydydd Sector i sicrhau fod ganddynt gyfle i gyflwyno tendr.
- Cynhaliwyd Arolwg Busnes Blynyddol Cyntaf Sir Ddinbych yn 2014, gyda 502 o fusnesau yn cymryd rhan trwy gymysgedd o ymgysylltiad wyneb yn wyneb, ar-lein a dros y ffôn. Cyrhaeddodd yr arolwg nifer o fusnesau bach sefydledig yn benodol. Darparodd yr arolwg gipolwg i hyder a boddhad y busnesau gyda'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth busnes a gynigir gan y Cyngor a'i bartneriaid. Roedd hefyd yn darparu manylion strwythur busnes, defnydd o gyfryngau digidol a galw am fand-eang cyflym iawn, ynghyd â'r galw am amrywiaeth o gefnogaeth y gallai'r Cyngor ei gynigir yn y dyfodol. Bydd yr arolwg yn ddigwyddiad blynyddol, gyda'r arolwg newydd yn cael ei lansio ym mis Mawrth 2015. Yn yr un modd mae ein Tîm Gwarchod y Cyhoedd yn ymgysylltu â busnesau lleol fel rhan o'i 'Raglen Cyfeillgar i Fusnes'.

Mae angen i ni sicrhau bod cyfleoedd effeithiol yn bodoli ar gyfer busnesau er mwyn darparu adborth i'r Cyngor. Fel budd-ddeiliaid allweddol wrth gyflwyno'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer ein heconomi, mae angen i ni gynyddu cyfranogiad busnes wrth wneud penderfyniadau am y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn buddsoddi cyllidebau ac adnoddau'r Cyngor i greu'r effaith economaidd mwyaf. Yr hyn sy'n braf ei weld yw bod yr 16 o brosiectau blaenoriaeth uchel yn y Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol oll yn cynnig y potensial i fusnesau ymgysylltu ar yr adeg briodol, a bod rhai ohonynt eisoes yn gwneud hyn.

Roedd yr Arweinydd a Chyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol wedi cynllunio i ymgymryd ag ymweliadau blynyddol â Grwpiau Busnes ac â'r 10 busnes mwyaf yn y sir er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi busnesau lleol a hwyluso cyswllt hawdd a hygyrch gydag unigolion uwch sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor. Nid yw'r ymweliadau hyn wedi symud ymlaen eto, gan ein bod wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi proses effeithlonrwydd cyllideb Rhyddid a Hyblygrwydd ac adolygu'r tîm Datblygu Economaidd a Busnes. Mae adolygiad y tîm Datblygu Economaidd a Busnes yn cynnwys creu tair rôl i ganiatáu canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â busnes – un rôl gyffredin i gefnogi rhwydweithio busnes a chyfeirio at gyngor, a dau swyddog arweiniol yn canolbwyntio ar fusnesau allweddol twf uchel a thwf isel.

Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol wedi gofyn bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2015, gan gyflwyno cynllun i'r Bwrdd yn mis Mawrth 2015. Mae'r Bwrdd wedi awgrymu un ymweliad busnes bob mis. Cynhaliwyd un ymweliad ym mis Ionawr 2015, a oedd yn hynod ddefnyddiol, gan hwyluso cyswllt gyda gwasanaethau perthnasol y Cyngor er mwyn caniatáu i'r busnes drafod ei gynlluniau ar gyfer twf. Derbyniodd y Cyngor adborth o astudiaeth a gynhaliwyd gan gymrawd ymchwil ar ei ran, a siaradodd gydag wyth busnes allweddol, a bydd y Cyngor yn awr yn gallu ymateb i'r adborth.

**...rydym yn cymryd agwedd weithredol a chynlluniedig i gyfrifoldeb i'n staff**

Mae gennym nifer o offer (polisïau, gweithdrefnau, cynllunio'r gweithlu; 1 i 1) i gynorthwyo i reoli ein hadnoddau staffio yn effeithiol, yn gyson ac yn deg. Mae ein gwasanaeth Adnoddau Dynol Strategol wedi cwblhau rhaglen fawr i wella ei berfformiad ers cael ei nodi fel mater llywodraethu sylweddol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012/13. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi adrodd ar ei gynnydd ar weithredu gwelliannau sy'n deillio o adroddiad Archwilio Mewnol anffafriol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Adroddodd adolygiad pellach gan yr adain archwilio mewnol ym mis Awst 2014, bod y Gwasanaeth AD wedi cwblhau cyfran sylweddol o waith i fynd i'r afael â materion a godwyd yn flaenorol ac i gyflawni'n mwyafrif o'r camau gweithredu a nodwyd yn eu cynllun gwella uchelgeisiol.

Rydym yn hyderus y bydd y model AD newydd yn cael ei ymgorffori ar draws y Cyngor a, thrwy ffurfio a chynnal gwell perthnasau rhwng AD a'r gwasanaethau y mae'n eu cefnogi, dylai bod y buddion a ddisgwylir yn cael eu cyflawni o'r diwedd.

Mae gennym amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau ein bod yn cynnwys ein gweithwyr a'u cynrychiolwyr yn y broses benderfynu. Rydym yn cynnal arolygon staff rheolaidd ac roedd arolwg 2013 wedi arwain at gynnydd yn y gyfradd ymateb o 37% i 44.6% o'r arolwg yn 2011. Amlygodd yr arolwg fod:

- mwy o weithwyr (83%) yn falch o weithio i'r Cyngor;
- mwy o weithwyr (88%) yn fodlon â'r Cyngor fel cyflogwr;
- dywedodd dros 90% o weithwyr eu bod yn mwynhau eu gwaith, yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt ac yn dod ymlaen yn dda â'u cydweithwyr;
- rheoli newid wedi gwella, ond efallai y gall fod yn well, gan mai dim ond 60% oedd yn teimlo ein bod yn cynllunio ac yn cyflwyno newidiadau yn dda; ac
- mae cyfathrebu wedi gwella, ond efallai y gall fod yn well, gan mai dim ond 64% sy'n teimlo'n wybodus iawn am yr hyn sy'n digwydd yn eu gwasanaeth.

Rydym bellach wedi cynnal ein harolwg 2015 a byddwn yn adrodd ar y canlyniadau yn y 'datganiad llywodraethu blynyddol' y flwyddyn nesaf.

Mae ein gweithdrefnau rhannu pryderon yn sicrhau y gall gweithwyr godi materion sy'n peri pryder gydag ystod eang o bobl/cyff.

**Materion llywodraethu arwyddocaol**

---

Bydd y materion llywodraethu arwyddocaol sy'n y tabl isod, a'r materion llai arwyddocaol yr ydym wedi'u nodi yn ein hunanasesiad uchod, yn cael eu hychwanegu at ein Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu sy'n cael ei reoli gan Grŵp Llywodraethu'r Cyngor a'i fonitro gan Bwyllgor Llywodraethu'r Cyngor (Atodiad 1). Roedd y ddau fater llywodraethu arwyddocaol isod wedi'u cynnwys y llynedd ond nid ydynt wedi symud ymlaen ddigon i gael eu tynnu hyd yn hyn.



**Mater Llywodraethu Arwyddocaol 1**

Yn y dyfodol, rydym yn derbyn y bydd rhai gwasanaethau a swyddogaethau'n dod i ben neu'n cael eu trosglwyddo i eraill a allai eu darparu yn rhatach neu heb unrhyw gostau ychwanegol. Mae angen i ni orffen adolygu ein trefniadau llywodraethu i ystyried hyn, gan sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth a bod y cyhoedd yn parhau i dderbyn gwasanaethau da a gwerth am arian.

<b>Camau arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater</b>	Byddwn yn datblygu a gweithredu fframwaith newydd yn ystod 2015 er mwyn sicrhau bod gan unrhyw ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti neu hyd braich drefniadau llywodraethu cadarn, a bydd yn gweithredu trefniadau craffu i fonitro eu perfformiad ariannol a gweithredol.
<b>Cyfrifoldeb am y camau</b>	Bydd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol yn datblygu a lansio'r fframwaith newydd.
<b>Amserlen ar gyfer gwella</b>	Cwblhau'r fframwaith erbyn 30 Mehefin 2015 a'i lansio yn dilyn cymeradwyaeth uwch reolwyr ac aelodau etholedig.

**Mater Llywodraethu Arwyddocaol 2**

Yn 2013/14, darparodd ein gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad beirniadol ar gaffael gwasanaethau adeiladu a oedd yn tynnu sylw at nifer o wendidau, gan gynnwys bod ein strategaeth gaffael wedi dyddio. Dengys archwiliad dilynol diweddar yr Archwilwyr Mewnol o'r cynllun gweithredu gwella, er ein bod wedi datblygu strategaeth ddrafft newydd a Rheolau Gweithdrefn Contractau, bod cynnydd o ran gwelliant yn araf ac ar ei hôl hi.

<b>Camau arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater</b>	Adolygu'r gwasanaeth caffael a'r cynllun gweithredu a darparu adroddiad diweddar i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
<b>Cyfrifoldeb am y camau</b>	Pennaeth Cyllid ac Asedau Dros Dro
<b>Amserlen ar gyfer gwella</b>	Medi 2015

**Dros y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn cynnig y dylid cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion llywodraethu a nodir uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliant a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.**

**Llofnodwyd: ..... (Arweinydd).....2015**

**Llofnodwyd: ..... (Prif Weithredwr) .....2015**

## Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu

Maes i'w wella	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Amserlen
<b>Materion Llywodraethu Arwyddocaol</b>			
Yn y dyfodol, rydym yn derbyn y bydd rhai gwasanaethau a swyddogaethau'n dod i ben neu'n cael eu trosglwyddo i eraill a allai eu darparu yn rhatach neu heb unrhyw gostau ychwanegol. Mae angen i ni orffen adolygu ein trefniadau llywodraethu i ystyried hyn, gan sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth a bod y cyhoedd yn parhau i dderbyn gwasanaethau da a gwerth am arian.	Byddwn yn datblygu a gweithredu fframwaith newydd yn ystod 2015 er mwyn sicrhau bod gan unrhyw ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti neu hyd braich drefniadau llywodraethu cadarn, a bydd yn gweithredu trefniadau craffu i fonitro eu perfformiad ariannol a gweithredol.	Bydd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol yn datblygu a lansio'r fframwaith newydd.	Cwblhau'r fframwaith erbyn 30 Mehefin 2015 a'i lansio yn dilyn cymeradwyaeth uwch reolwyr ac aelodau etholedig.
Yn 2013/14, darparodd ein gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad beirniadol ar gaffael gwasanaethau adeiladu sy'n tynnu sylw at nifer o wendidau, gan gynnwys bod ein strategaeth gaffael wedi dyddio. Dengys archwiliad dilynol diweddar yr Archwilwyr Mewnol o'r cynllun gweithredu gwella, er ein bod wedi datblygu strategaeth ddrafft newydd a Rheolau Gweithdrefn Contractau, bod cynnydd o ran gwelliant yn araf ac ar ei hôl hi. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi gofyn am adroddiad cynnydd ym mis Mai 2015, gan ddisgwyl y bydd y cynllun gweithredu wedi'i gwblhau.	Adolygu'r gwasanaeth caffael a'r cynllun gweithredu a darparu adroddiad diweddar i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.	Pennaeth Cyllid ac Aседau Dros Dro	Medi 2015

Maes i'w wella	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Amserlen
<b>Llywodraethu Partneriaethau</b>			
Nid yw ein pecyn gwaith llywodraethu yn darparu canllawiau clir ar rolau aelodau'r bwrdd partneriaeth. Rydym yn ymwybodol nad yw pob partneriaeth yn defnyddio'r pecyn cymorth partneriaeth, felly, fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o'r dirwedd bartneriaeth, mae angen i ni adolygu'r canllawiau i sicrhau ei fod yn hawdd ei ddefnyddio ac yn effeithiol.	Bydd yn ffurfio rhan o'r adolygiad o ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti a hyd braich uchod	Bydd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol yn datblygu a lansio'r fframwaith newydd.	Cwblhau'r fframwaith erbyn 30 Mehefin 2015 a'i lansio yn dilyn cymeradwyaeth uwch reolwyr ac aelodau etholedig.
<b>Cyfansoddiad</b>			
Mae prif ganllaw llywodraethu'r Cyngor yn cael ei ddarparu yn ein Cyfansoddiad cynhwysfawr sy'n nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig a swyddogion, yn enwedig o ran llywodraethu, er bod angen ei ddiweddarau i ystyried newid mewn teitlau swyddi a phortffolios aelodau etholedig.	Mae Cyfansoddiad Engbreiffiol newydd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru. Bydd ein Cyfansoddiad presennol yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r model newydd ac yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu newid mewn teitlau swyddi a phortffolios.	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	31 Mawrth 2016
Mae ein codau ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig a gweithwyr yn ffurfio rhan o'r hyfforddiant sefydlu, er bod angen inni sicrhau bod gennym drefniadau yn eu lle i sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth o'r codau hyn yn rheolaidd.	Mae aelodau etholedig wedi derbyn nifer o sesiynau hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ac mae sesiynau gloywi ar gael pob blwyddyn. Bydd strategaeth ar gyfer cynnal ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr yn cael ei datblygu.	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	31 Mawrth 2016
<b>Cydraddoldeb</b>			
Rydym yn parhau â'n gwaith i wella ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb. Ond canfu arolwg staff Archwilio Mewnol bod gwaith eto i'w wneud i wella ymwybyddiaeth o drefniadau cydraddoldeb corfforaethol.	Cyflwyno adroddiad i'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol i benderfynu ar gamau pellach.	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio	30 Medi 2015
<b>Fframwaith Polisi</b>			
Mae gennym bolisi gwrth-dwyll a llygredigaeth, er nad ydym wedi adolygu na diweddarau hwn ers 2006.	Mae'r polisi hwn wedi cael ei adolygu a bydd polisi drafft newydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	31 Mawrth 2016

Maes i'w wella	Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Amserlen
<p>Mae gwerth ymgysylltu busnes effeithiol newydd gael ei gydnabod, sy'n golygu bod gennym lawer mwy o waith i'w wneud cyn i ni weld y manteision sy'n deillio o ddatblygiadau diweddar. Mae angen i ni sicrhau bod cyfleoedd effeithiol ar gael i fusnesau roi adborth ar y gwaith o gyflawni'r Strategaeth / Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol a nodi'r hyn y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod ymgysylltiad â'r Cyngor yn weithgaredd gwerthfawr i fusnesau. Yn y tymor hirach, fel budd-ddeiliaid allweddol wrth gyflwyno'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer ein heconomi, mae angen i ni gynyddu cyfranogiad busnes wrth wneud penderfyniadau am y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn buddsoddi cyllidebau ac adnoddau'r Cyngor i greu'r effaith economaidd mwyaf.</p>	<p>Bydd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn ymgymryd ag ymweliadau blynyddol â Grwpiau Busnes ac â'r 10 busnes mwyaf yn y sir er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi busnesau lleol a hwyluso cyswllt hawdd a hygyrch gydag unigolion uwch sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor.</p>	<p>Arweinydd a Chyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Cymunedol</p>	<p>Blynyddol</p>

**ADRAN 7: GEIRFA****CYFNOD CYFRIFO**

Y cyfnod amser y mae a wnelo'r cyfrifon ag o, sydd fel arfer yn gyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y fantolen.

**POLISIÂU CYFRIFO**

Yr egwyddorion, y seiliau, y confensiynau, y rheolau a'r arferion penodol a gymhwysir gan y Cyngor wrth baratoi a chyflwyno ei ddatganiadau ariannol.

**CRONIADAU**

Symiau a gânt eu cynnwys yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm a gwariant referniw a chyfalaf a enillwyd neu a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na dderbyniwyd neu na wnaed taliad gwirioneddol ar eu cyfer erbyn 31 Mawrth.

**ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD**

Mewn cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y newidiadau mewn gwargedau neu ddiffygion actiwaraidd sy'n digwydd oherwydd:

- nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profi enillion a cholledion); neu
- fod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi amrywio

**TREFNIADAU ASIANTAETHOL**

Trefniant rhwng dau sefydliad pan fydd un yn gweithredu fel asiant, yn casglu arian ar ran y llall, ac yna'n talu'r arian iddo.. Enghraifft o hyn yw casgliadau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel yr asiant bilio ar ran llywodraeth ganolog, yn casglu arian gan dreth dalwyr ar ran llywodraeth ganolog ac yna talu'r arian hwnnw yn ei flaen iddynt.

**AMORTEIDDIAD**

Dileu dyled yn raddol, megis benthyciad, trwy wneud taliadau rheolaidd dros gyfnod penodedig o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i gyfarch y prifswm a'r llog.

**ASED**

Eitem y mae iddi werth ariannol i'r awdurdod. Caiff asedau eu dosbarthu naill yn rhai cyfredol neu'n rhai anghyfredol.

- Bydd ased cyfredol yn cael ei defnyddio neu'n peidio â bod o unrhyw werth materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Bydd ased anghyfredol o fudd i'r Awdurdod ac i'r gwasanaeth y mae'n ei wasanaethu am gyfnod sy'n hwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol e.e. adeilad ysgol, neu'n anniriaethol, e.e. trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol.

**ARCHWILIO CYFRIFON**

Adolygiad annibynnol o faterion ariannol yr Awdurdod.

**Y FANTOLEN**

Datganiad ynglŷn ag asedau, dyledion a chronfeydd wrth gefn a gofnodwyd ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo.

**CYLLIDEB**

Y referniw net a'r gwariant cyfalaf rhagweladwy dros y cyfnod cyfrifo.

**GWARIANT CYFALAF**

Gwariant wrth gaffael ased anghyfredol, a fydd yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo presennol neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased anghyfredol bresennol, yn hytrach na dim ond cynnal y gwerth hwnnw'n unig.

**ARIANNU CYFALAF**

Cyllid y cafwyd gafeael arno i dalu am wariant cyfalaf. Mae amryfal ffyrdd o ariannu gwariant cyfalaf gan gynnwys benthyca, prydlesu, ariannu referniw uniongyrchol, derbynion cyfalaf y gellir eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd referniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**RHAGLEN GYFALAF**

Y cynlluniau cyfalaf y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu mewn cyfnod penodedig.

**DERBYNIADAU CYFALAF**

Yr incwm a wneir wrth waredu tir neu asedau anghyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfran o dderbyniadau cyfalaf Tai i ariannu gwariant cyfalaf newydd, yn rhwym wrth reolau sydd wedi eu hamlinellu gan y Llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i ariannu gwariant referniw ar wahân i Wariant Referniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud.

**ARIAN PAROD**

Yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon ar gais.

**CYWERTHOEDD ARIAN PAROD**

Buddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod ac sy'n amodol ar risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth.

**LLIFOEDD ARIAN**

Mewnlif ac all-lif arian parod a chywerthoedd arian parod.

**CIPFA**

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

**ASEDAU CYMUNEDOL**

Asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu dal ei afael ynddynt am yr hir dymor, nad oes iddynt unrhyw oes ddefnyddiol benodadwy a gallai hynny gyfyngu ar sut y gellir eu gwaredu. Esiamplau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

**ASED DIGWYDDIADOL**

Ased tebygol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol yw ased digwyddiadol, na ellir cadarnhau ei fodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

**DYLED DDIGWYDDIADOL**

Gall dyled ddigwyddiadol fod naill ai:

- yn rhwymedigaeth ddichonadwy sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol, na ellir cadarnhau eu bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod, neu
- yn rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol pan nad yw'n debygol fod angen trosglwyddo buddiannau economaidd, neu pan na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

**CRAIDD CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD**

Mae'r craidd corfforaethol a democrataidd yn cynnwys pob gweithgaredd y mae awdurdodau lleol yn ymwneud â nhw yn benodol oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlwrpas. Mae costau'r gweithgareddau hyn felly yn ychwanegol at y costau y byddai rhes o gyrff annibynnol, un-pwrpas, a enwebwyd yn ei wario wrth reoli'r un gwasanaethau. Nid oes sail resymegol felly dros drosrannu'r costau hyn i wasanaethau.

**CREDYDWR**

Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd o fewn y cyfnod cyfrifo, ond na wnaed taliad ar eu cyfer cyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**COSTAU GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**

Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, sydd i'w disgwyl o ganlyniad i wasanaeth gweithwyr yn ystod y cyfnod presennol.

**DYLEDWR**

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd o fewn y cyfnod cyfrifo, ond na wnaed taliad ar eu cyfer cyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION DIFFINIEDIG**

Cynlluniau pensiwn y mae'r buddion sy'n cael eu derbyn gan eu haelodau yn annibynnol ar y cyfraniadau a delir a heb fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r hyn sy'n cael ei fuddsoddi yn y cynllun.

**COSTAU ADNEWYDDU DIBRISIEDIG**

Dull prisio sy'n rhoi brasamcan gydnabyddedig o werth eiddo arbenigol ar y farchnad. Mae'n rhoi amcangyfrif o werth defnydd presennol y tir ar y farchnad, ynghyd â'r costau adnewyddu gros presennol ar gyfer yr adeilad a llai dirywiad materol yr ased o gymharu â'i gyflwr materol presennol.

**DIBRISANT**

Mesuriad o gostau traul, defnydd neu ostyngiad arall yn oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol yr Awdurdod yn ystod y cyfnod cyfrifo, p'un ai bod hynny oherwydd defnydd, treigl amser, neu ddarfodiad o ganlyniad i newidiadau technolegol neu newidiadau eraill.

**BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol nac adeiladol i'w dyfarnu, ac a gânt eu dyfarnu'n ôl pwerau disgrisiwn yr Awdurdod megis y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddiannau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007.

**CYFRADD LLOG GWIRIONEDDOL**

Dyma'r gyfradd llog sydd ei hangen i ddisgowntio amcangyfrif y llif yr arian prifswm a'r llog yn ystod oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol er mwyn bod yn hafal â swm y gydnabyddiaeth gychwynnol.

**BUDDIANNAU GWEITHWYR**

Pob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan y Cyngor yn gyfnewid am wasanaeth a gyflawnwyd gan ei weithwyr.

**DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

**EITEMAU EITHRIADOL**

Eitemau o bwys sy'n deillio o faterion neu drafodion sydd o fewn gweithgareddau arferol yr Awdurdod y mae angen eu datgelu ar wahân yn rhinwedd eu maint neu eu nifer er mwyn rhoi cynrychiolaeth deg o'r cyfrifon.

**GWERTH DEFNYDD PRESENNOL**

Y swm yr amcangyfrifir y dylai eiddo gyfnewid amdano ar ddyddiad prisiad rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn gwerthiant hyd braich, yn dilyn ei farchnata'n briodol fel y bo'r partion wedi gweithredu yn wybodus, yn ddarbodus a

heb eu gorfodi. Tybir y rhoir meddiant, yn wag, i'r prynwr o bob rhan o'r eiddo y mae eu hangen ar y busnes gan ddiystyru unrhyw ddefnydd amgen posibl ac unrhyw nodweddion eraill o'r eiddo a fyddai'n achosi i'w werth ar y farchnad fod yn wahanol i'r hyn y byddai ei angen i gymryd lle'r potensial gwasanaeth gweddillol am y costau lleiaf.

**ADENILLION A DDISGWYLIR AR ASED AU PENSIWN**

Mewn cynllun â buddion diffiniedig wedi ei ariannu, dyma gyfradd gyfartalog yr adenillion a ddisgwylir yn ystod gweddill oes y rhwymedigaeth sy'n berthynol i'r asedau gwirioneddol sydd wedi eu dal gan y cynllun. Mae'n cynnwys incwm a newidiadau i werth teg ond mae'n net o dreuliau'r cynllun.

**EITEMAU ANGHYFFREDIN**

Eitemau o bwys, sydd â graddfa fawr o abnormaledd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion oddi allan i weithgarwch arferol yr awdurdod nad oed disgwyl iddynt ddigwydd eto. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, nac yn cynnwys eitemau o gyfnod blaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â chyfnod blaenorol.

**GWERTH TEG**

Gwerth teg unrhyw ased yw'r swm y gellir ei gyfnewid amdano, neu setliad dyled, rhwng partion gwybodus, parod mewn gwerthiant hyd braich.

**PRYDLES ARIANNOL**

Prydles sy'n trosglwyddo bron y cyfan o'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar ased i'r prydleswr.

**OFFERYN ARIANNOL**

Unrhyw gontract sy'n peri bod ased ariannol gan y naill endid ac yn peri bod dyled ariannol neu offeryn ecwiti gan y llall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol a dyledion ariannol, o dderbyniadwyon masnachu (anfonebau dyledus) a thaladwyon masnachu (anfonebau dyladwy) syml hyd at ddeilliadau cymhleth a deilliadau sefydlog.

**GWEITHGAREDDAU CYLLIDO**

Gweithgareddau sy'n arwain at newidiadau ym maint ac yng nghyfansoddiad y prifswm a dderbyniwyd neu a ad-delir i ddarparwyr cyllid allanol.

**BUSNES GWEITHREDOL**

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi gan dybio y bydd y Cyngor yn parhau i fodoli'n weithredol yn y dyfodol rhagweladwy.

**GRANTIAU LLYWODRAETH**

Grantiau gan y llywodraeth tuag at wariant refeniw neu gyfalaf yn gyfnewid am gydymffurfiaeth yn y gorffennol neu yn y dyfodol ag amodau penodol yn ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gallant fod yn cefnogi gwariant refeniw neu gyfalaf (yn y drefn honno) yr Awdurdod yn gyffredinol.

**BUDD-DALIADAU TAI**

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at rai costau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau ac y derbynnir cymhorthdal ar ei gyfer gan Lywodraeth Ganolog.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys gwariant ac incwm sy'n deillio o'r ddarpariaeth tai a gynigir gan yr Awdurdod.

**AMHARIAD**

Gostyngiad yng ngwerth ased anghyfredol nes bod yn is na'r swm sydd i'w gario ar y fantolen. Gall amhariad fod o ganlyniad i dreuliant budd economaidd (amhariad budd economaidd) neu gwmp cyffredinol mewn prisiau.



**INCWM**

Symiau y mae'r Cyngor yn eu derbyn neu'n disgwyl eu derbyn o unrhyw ffynhonnell, gan gynnwys ffioedd, gwerthiannau a grantiau.

**CYFRIF INCWM A GWARIANT**

Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gostau net y flwyddyn ar gyfer y swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, ac sy'n dangos sut mae'r costau hynny wedi cael eu hariannu o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

**ASEDAU ISADEILEDD**

Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, na ellir ond adfer gwariant arnynt trwy wneud defnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Mae priffyrdd, llwybrau a phontydd yn enghreifftiau.

**ASEDAU ANNIRIAETHOL**

Ased anariannol adnabyddadwy heb iddo unrhyw sylwedd ffisegol yw ased anniriaethol. Yr asedau anniriaethol y deuir o hyd iddynt amlaf o fewn awdurdodau lleol yw meddalwedd gyfrifiadurol.

**COSTAU LLOG (PENSIYNAU)**

Mewn cynllun â buddion diffiniedig, y cynnydd disgwylidig yn ystod y cyfnod yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun oherwydd bod y buddion yn nes o un cyfnod at y setliad.

**RHESTRAU EIDDO**

Yr eitemau hynny o ddeunyddiau crai ac o gyflenwadau y mae'r Awdurdod wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal ganddynt yn y disgwyl y bydd iddynt ddefnydd yn y dyfodol.

**GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI**

Caffael a gwaredu asedau tymor hir a buddsoddiadau eraill nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn cywerthoedd arian parod.

**EIDDO BUDDSODDI**

Eiddo sy'n cael ei ddal yn unig er mwyn cael enillion rhenti neu adbrisiant cyfalaf neu'r ddau.

**BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**

Gwneir cyfrif o fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn y datganiadau ar gyfer y gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar i awdurdodau ddatgelu, fel rhan o'r datgeliadau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol, pa gyfran o asedau'r cynllun pensiwn sydd i'w priodoli sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

**PRYDLES**

Cytundeb pan fo'r prydleswr yn rhoi'r hawl i'r prydlesai ddefnyddio ased am gyfnod, yn gyfnewid am daliad neu gyfres o daliadau.

**DYLED**

Dyled yw pan fo taliad yn ddyledus gan y Cyngor i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae dyled gyfredol yn swm a ddaw'n daladwy neu y gellid ei alw i mewn o fewn y cyfnod cyfrifo nesaf, e.e. credydwr neu ddyled arian parod.
- Dyled oheriddig yw swm sydd, trwy drefniant, yn daladwy y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf ar ryw adeg yn y dyfodol, neu sydd i'w ad-dalu gyda swm blynyddol dros gyfnod o amser.

**MATEROLIAETH**

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau, y byddai disgwyl iddynt, pe caent eu gadael allan neu eu camddyfyngu, arwain at lurgunio'r datganiadau ariannol a chamarwain defnyddwyr y cyfrifon maes o law.

**ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW**

Yr isafswm y mae'n rhaid codi ar ei gyfer yn y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn gallu darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill sydd wedi cael eu benthycu gan y Cyngor.

**CYMHORTHDAL NEGYDDOL**

Pe bai'r Cyfrif Cymhorthdal Refeniw Tai yn cynhyrchu canlyniad, sy'n tybio fod incwm y Cyngor yn uwch na'i wariant, byddai sefyllfa o 'Gymhorthdal Negyddol' yn digwydd. Pe digwydd hynny byddai'n rhaid i'r awdurdod dalu swm sy'n gyfwerth â'r gwarged tybiannol, o'i Gyfrif Refeniw Tai i'r Llywodraeth.

**GWERTH LLYFR NET**

Y swm a nodir ar gyfer asedau anghyfredol yn y fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu eu gwerth presennol llai y symiau cronus a roddir ar gyfer dibrisiant ac amhariad.

**COSTAU HEB EU DOSBARTHU**

Gorbenion yw'r rhain nad oes unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt bellach ac felly ni chânt eu dosrannu i wasanaethau.

**ARDRETHI ANNOMESTIG**

Ardoll ar fusnesau yw Ardreth Annomestig, sy'n seiliedig ar gyfradd genedlaethol yn y bunt, a osodwyd gan y llywodraeth a'i lluosu â gwerth trethiannol asesedig yr eiddo y maent yn ei feddiannu. Fe'i cesglir gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna caiff ei hailddosbarthu i gefnogi costau gwasanaethau.

**GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL**

Gweithgareddau'r Cyngor nad ydynt yn weithgareddau buddsoddi nac ariannu.

**PRYDLES WEITHREDOL**

Prydles pan fo perchnogaeth yr ased anghyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

**COSTAU GWASANAETH BLAENOROL (PENSIYNAU)**

Mewn cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth gweithiwr mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod presennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeol.

**RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn â buddion diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl dyddiad y prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun sydd wedi eu mesur yn defnyddio'r dull rhagamcanu unedau yn adlewyrchu'r buddiannau y mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at ddyddiad y prisiad.

**PRAESEPT**

Yr ardoll y bydd awdurdodau praeseptio yn ei chodi ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm gan drethdalwyr y cyngor ar eu rhan.

**ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL**

Addasiadau materol sy'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifo neu o gywiro gwallau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau neu addasiadau dro ar ôl tro i'r rhagamcanion cyfrifo yn y blynyddoedd blaenorol.

**CYNLLUN ARIANNU PREIFAT(PFI)**

Yn nodweddiadol, mae trefniadau PFI yn cynnwys endid sector preifat yn adeiladu neu'n gwella eiddo sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, a gweithredu a chynnal yr eiddo hwnnw am gyfnod amser penodol ar ran y corff sector cyhoeddus. Bydd y corff sector cyhoeddus yn talu am gael defnyddio'r asedau a'r gwasanaethau cysylltiedig dros gyfnod y trefniant trwy daliad unedol.

**DULL RHAGAMCANU UNEDAU**

Dull prisio buddion cronedig lle bydd y rhwymedigaethau cynllun pensiwn yn darparu ar gyfer rhagamcan enillion. Y buddion cronedig yw'r buddion ar gyfer gwasanaeth hyd at bwynt penodol mewn amser, dim ots a oes hawliau personol neu beidio.

**DARPARIAETH**

Swm sy'n cael ei roi i un ochr yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n debygol neu'n debygol iawn o ddigwydd, ond mae'r symiau neu'r dyddiadau y byddant yn digwydd yn ansicr.

**PARTNERIAETHAU PREIFAT CYHOEDDUS (PPC)**

Menter ar y cyd lle bydd partner sector preifat yn cytuno i roi gwasanaethau i, neu ar ran sefydliad sector cyhoeddus. Mae Cynllun Ariannu Preifat yn fath o PPC.

**BWRDD BENTHYCA GWAITH CYHOEDDUS (PWLB)**

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n darparu benthyciadau am un flwyddyn a mwy i awdurdodau ar gyfraddau llog sydd ddim ond ychydig yn uwch na'r cyfraddau llog y gall y llywodraeth ei hun eu benthyca.

**GWERTH TRETHADWY**

Gwerth rhent tybiedig blynyddol yr eiddo, sy'n cael ei ddefnyddio i bwrpasau ardrethi annomestig.

**PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Credir bod partiön yn gysylltiedig os oes gan un parti y gallu i reoli'r parti arall neu ddylanwadu yn sylweddol ar y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**TRAFODION PARTION CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu unrhyw drafodion pwysig rhwng yr Awdurdod a phartiön cysylltiedig i sicrhau bod budd-ddeiliaid yn ymwybodol pan fydd y trafodion hyn yn digwydd a swm a goblygiadau hynny.

**TÂL**

Bydd pob swm sy'n cael ei dalu neu ei dderbyn gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (os yw'r symiau hynny yn berthnasol i dreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau sy'n cael eu derbyn, ac eithrio mewn arian parod.

**CRONFEYDD WRTH GEFN**

Croniant arian dros ben, diffyg ariannol a neilltuad arian dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio rhai cronfeydd cyfalaf fel y Gronfa Adbriso Wrth Gefn i dalu'r gwariant presennol.

**GWERTH GWEDDILLIOL**

Gwerth gwiredadwy net yr ased ar ddiwedd ei fywyd defnyddiol.

**BUDDION YMDDEOL**

Pob mathau o ystyriaeth sy'n cael ei roi gan gyflogwr i'w cyfnewid am wasanaethau gan y gweithwyr sy'n daladwy ar ôl cwblhau'r gyflogaeth.

**GWARIANT REFENIW**

Gwariant darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF TRWY STATUD (REFCUS)**

Gwariant y gellir ei ddsbarthu fel arian cyfalaf i bwrpasau ariannu pan nad yw'n arwain at nodi gwariant ar y Fantolen fel ased anghyfredol. Mae hyn i'w alluogi i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf. Enghreifftiau o REFCUS yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**

Grant a dalwyd gan y Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, sy'n cyfrannu at gost cyffredinol eu gwasanaethau.

**TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH**

Mae cytundeb consesiwn gwasanaeth yn gyffredinol yn golygu y bydd y rhoddwr (corff sector cyhoeddus fel arfer) yn cyfleu i'r gweithredwr (endid sector preifat fel arfer), am gyfnod y consesiwn, yr hawl i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i gyfleusterau economaidd a chymdeithasol mawr.

**BENTHYCIAD MEDDAL**

Benthyciad a wnaed yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd y farchnad, fel arfer oherwydd rhesymau polisi. Bydd benthyciadau o'r fath yn aml yn cael eu rhoi i unigolion neu sefydliadau y mae'r Cyngor yn credu sy'n dod â budd i'r boblogaeth leol.

**BENTHYCA DROS DRO**

Arian sy'n cael ei fenthyg am gyfnod o lai na blwyddyn.

**CRONFA YMDDIRIEDOLAETH**

Arian sy'n cael ei weinyddu gan yr Awdurdod ar gyfer pwrpasau fel gwobrau, elusennau, prosiectau penodol, ac ar ran plant dan oed.

**BYWYD ECONOMAIDD DEFNYDDIOL (UEL)**

Y cyfnod lle bydd y Cyngor yn cael budd o ddefnyddio ased anghyfredol.

**GWAITH AR Y GWEILL**

Cost gwaith a wnaed ar brosiect anghyflawn ar ddyddiad y fantolen, ac y dylid rhoi cyfrif amdano.



# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

## Cyngor Sir Ddinbych

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Medi 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 472A2015

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â'r swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

# Cynnwys

---

Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

---

## Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad	5
Annibyniaeth a gwrthrychedd	6

## Atodiadau

Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Adroddiad archwilio arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych	10
Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol atynt	12

# Adroddiad cryno

---

## Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y swm meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor yw £3.5 miliwn. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2014-15, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6. Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar 29 Mehefin 2015 ac ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn roedd y meysydd archwilio canlynol heb eu cwblhau:
  - gorffen ein gwaith ar ddatgeliadau partion cysylltiedig a digwyddiadau dilynol;
  - cadarnhau sicrwydd priodol gan archwilydd Cronfa Bensiynau Clwyd ynglŷn â datgeliadau pensiwn yn y datganiadau ariannol;
  - gweithdrefnau cwblhau ac adolygu'r datganiadau ariannol terfynol.
7. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar hynt y materion hyn ar 28 Medi 2015.
8. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda swyddogion y Cyngor, gan gynnwys Swyddog Adran 151.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

9. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn [Atodiad 1](#).
10. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn [Atodiad 2](#).



---

## Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

11. Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, nad ydynt wedi cael eu cywiro.

### Camddatganiadau a gywirwyd

12. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn [Atodiad 3](#).

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

13. **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol a pharatowyd y datganiadau ariannol drafft i safon dda.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiuedd, yn deg ac yn glir. Fel y gwelwyd dros y blynyddoedd diwethaf, paratowyd y datganiadau ariannol drafft i safon dda ac fe'u hategwyd gan bapurau gwaith cynhwysfawr ac amserol, gan ein helpu i ddilyn yr amserlen gwblhau gyffredinol ar amser. Bu deialog agored ac adeiladol rhwng y Tîm Cyllid a'r tîm archwilio drwy gydol yr archwiliad ac, o ganlyniad, mae'r broses archwilio wedi mynd rhagddi'n ddidrafferth.
14. **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.** Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.
15. **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
16. **Mae rhai materion sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**

**Cofrestr asedau sefydlog** - o gofio gwerth yr asedau a ddelir gan y Cyngor ac amrywiaeth yr asedau hynny, mae'n bwysig bod y Cyngor yn cadw cofrestr gynhwysfawr a chywir o asedau sefydlog. Mae'r Cyngor wedi cadw taenlenni cymhleth ers sawl blwyddyn i ategu ei gofrestr asedau sefydlog. Er bod taenlenni'r gofrestr asedau sefydlog yn cael eu cadw'n dda a'u bod yn ddefnyddiol wrth baratoi'r cyfrifon a geir yn y datganiad, credwn y dylai'r Cyngor ystyried uwchraddio i gofrestr asedau sefydlog integredig. Bydd hyn yn creu proses symlach o gau cyfrifon, yn hwyluso'r ymarferion prisio blynyddol ac yn gwella'r cyswllt rhwng y swyddogaeth gyfrifyddu (yr Adran Gyllid) a'r swyddogaeth stiwardio a gyflawnir gan y Gwasanaethau Amrywiol. Dylai'r angen i gau cyfrifon awdurdodau lleol yn gynt dros y blynyddoedd nesaf fod yn ysgogydd allweddol yn ystyriaethau'r Cyngor.

**Amseroldeb y broses brisio** - mae'r datganiadau ariannol blynyddol yn dibynnu i raddau helaeth ar gael gwybodaeth amserol a chywir gan Adran Gwasanaethau

---

Eiddo'r Cyngor. Y llynedd, adroddwyd gennym i'r Adran Gyllid gael y wybodaeth brisio yn hwyr gan olygu bod mwy o risg o wallau wrth drosglwyddo'r wybodaeth brisio i'r gofrestr asedau sefydlog, y cyfrifyfr ariannol a'r datganiadau ariannol. Rydym yn falch o nodi i'r broses hon wella'n sylweddol yn 2014-15. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y broses hon yn parhau ac, o gofio y bydd angen cau cyfrifon awdurdodau lleol yn gynt dros y blynyddoedd nesaf, bydd angen cael y wybodaeth brisio hyd yn oed yn gynt.

**Asesiadau gwerth teg blynyddol mewn perthynas ag anheddau'r cyngor** - ailbrisiodd y Cyngor gyfran o'i bortffolio asedau sefydlog ar 1 Ebrill 2014 yn unol â'i bolisi cyfrifyddu i ailbrisio asedau ar sail dreigl bob pum mlynedd. Wrth adolygu'r cyfrifon drafft, gwelsom fod prisiad y Cyngor o'i anheddau wedi gostwng £13 miliwn (gwelsom ailbrisio sylweddol am i lawr yn ystod y flwyddyn flaenorol hefyd). Fel rhan o'n gwaith, gwnaethom ofyn am dystiolaeth gan y prisiwr i geisio sicrwydd ynghylch pa un a allai'r ailbrisiadau am i lawr yn anheddau'r cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf gael effaith sylweddol ar yr anheddau cyngor hynny nad ydynt wedi'u prasio'n ffurfiol eto fel rhan o'r cylch prasio pum mlynedd. Cawsom y wybodaeth hon ar gais gan y prisiwr i gefnogi ein proses archwilio.

Yn y dyfodol, argymhellwn y dylai'r asesiad hwn gael ei gynnwys yn ffurfiol yn yr ymarferion prasio blynyddol a gynhelir gan y prisiwr ac y dylid dod i gasgliad yn ei gylch cyn paratoi'r datganiadau ariannol. Mae angen cyflwyno'r asesiadau blynyddol i'r Adran Gyllid a'r gwasanaeth archwilio allanol fel rhan o'r papurau gwaith sy'n ategu'r broses brisio.

**Adolygu cronfeydd wrth gefn** - cadarnhaodd ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol fod y Cyngor yn adolygu lefel ei gronfeydd wrth gefn a'i ddarpariaethau yn achos cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo a chronfeydd cyffredinol wrth gefn. Ymgorfforwyd y gwaith hwn yn y prosesau pennu cyllidebau ac fel rhan o weithdai'r aelodau. Fodd bynnag, argymhellwn hefyd y dylai'r broses hon bellach gael ei chwblhau'n ffurfiol ar y cam cyfrifon diwedd blwyddyn. Hefyd, argymhellwn y dylid datblygu polisi ffurfiol er mwyn helpu i gynnal ac adolygu sefyllfa'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn.

17. **Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.** Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Cyngor yn ystod ein harchwiliad.
18. **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

## Annibyniaeth a gwrthrychedd

19. Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
20. Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydbertnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Sir Ddinbych sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Adroddiad cryno

---

## Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd llythyr y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

28 Medi 2015

## Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2014-15

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad;

- 
- mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, i gael tystiolaeth archwilio ganddynt.
  - Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
  - Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohoni ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ddinbych ac sy'n ymwneud â:
    - rheolwyr;
    - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
    - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
  - Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
  - Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
  - Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, nad ydynt wedi cael eu cywiro.

## Sylwadau penodol

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi nodi pob rheolwr allweddol i chi, fel y diffinnir gan IAS 24, ac wedi cynnwys eu cydnabyddiaeth yn y datgeliadau o gydnabyddiaeth rheolwyr allweddol.

Rydym yn cadarnhau ein bod yn fodlon bod y ffigurau a roddwyd mewn perthynas ag Asedau Sefydlog ac Eiddo Buddsoddi yn y Datganiadau o Gyfrifon yn cynrychioli ein hamcangyfrif gorau o werth yr asedau hynny a bod y dulliau prisio a ddefnyddiwyd yn briodol.

---

Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau na bwriadau a allai newid gwerth cario a lle y bo'n gymwys fesuriadau neu ddsbarthiadau gwerth teg asedau a rhwymedigaethau a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol mewn ffordd berthnasol.

Gallwn gadarnhau nad yw'r awdurdod harbwr wedi'i sefydlu yn gorff statudol eto am nad yw wedi cael Gorchymyn Sefydlu Harbwr. Felly, nid oes rhaid paratoi cyfrifon statudol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 28 Medi 2015.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Richard Weigh  
Swyddog Adran 151

Llofnodwyd gan:

Y Cyngorydd Jason McLellan  
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 28 Medi 2015

Dyddiad: 28 Medi 2015

# Atodiad 2

---

## Adroddiad archwilio arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ddinbych a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symudiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

### **Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalennau 9 a 10, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

